PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

I'R EITHAF



PRIFYSGOL BANGOR

Prospectws Israddedigion

2021

CYFLWYNIAD I
FYW AC ASTUDIO YM MANGOR





Cynnwys

04	Diwrnodau Agored
10	Profiad Myfyriwr
16	Y Gymraeg ym Mangor
20	Undeb y Myfyrwyr
24	Clybiau a Chymdeithasau
26	Chwaraeon a Hamdden
30	Llety
36	Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
42	Astudio Dramor
44	Cefnogi ein Myfyrwyr
48	Cefnogaeth Astudio
50	Adnoddau Dysgu
52	Myfyrwyr Hŷn
54	Cyllid Myfyrwyr
56	Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau
60	Sut i Wneud Cais
63	Cyrsiau Cyd-Anrhydedd

















Rhestr Cyrsiau 2021

65 Yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth

75 Bioleg a Sŵoleg

87 Gwyddorau Eigion

101 Cyfrifiadureg

109 Electroneg

115 Gwyddorau Meddygol

121 Gwyddorau Iechyd

127 Seicoleg

135 Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

145 Cyfrifeg, Bancio, Busnes, Economeg, Cyllid, Marchnata a Rheoli

163 Y Gyfraith

169 Gwyddorau Cymdeithas

175 Gwleidyddiaeth

177 Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg

189 Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

197 Llenyddiaeth, Ieithyddiaeth, Iaith Saesneg, Y Cyfryngau a Ffilm

221 Athroniaeth a Chrefydd


223 Ieithoedd a Diwylliannau Modern

237 Cerddoriaeth, Theatr a Pherfformio

241 Addysg, Astudiaethau Plentyndod a Dylunio Cynnyrch

MEDDWL AGORED DYDDIAU AGORED

Dewch i un o'r Diwrnodau Agored ar y campws neu ar-lein i gael blas ar fywyd myfyriwr a chael gwybod mwy am y cyrsiau sydd ar gael yma – fe welwch fod yma amryw o resymau dros ddewis astudio ym Mangor.







Cynhelir Dyddiau Agored yn ystod yr haf a'r hydref.

Cewch y dyddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r trefniadau ar ein gwefan:
www.bangor.ac.uk/diwrnodagored

Mae croeso i chi hefyd ein ffonio am wybodaeth bellach: **01248 382005**.



CROESO
GAN YR IS-GANGHELLOR





"Ym Mangor, rydym yn sicrhau bod ein myfyrwyr yn ganolog i bopeth a wnawn ac rydym yn gwneud pob ymdrech i ddarparu profiad cynhwysfawr i fyfyrwyr sydd yn unigryw a gwerth chweil. Yn ddiweddar rydym wedi buddsoddi miliynau o bunnau'n datblygu cyfleusterau academaidd, cymdeithasol a chwaraeon newydd i fyfyrwyr, gan wneud Bangor yn lle mwy deniadol fyth i astudio a byw ynddo.

Cawsom Wobr Aur - y sgôr uchaf bosibl - yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu cenedlaethol (TEF 2017), sy'n golygu bod ein haddysgu o'r ansawdd uchaf. Yn ogystal, mae ein hymchwil o ansawdd gwirioneddol ryngwladol ac yn denu staff a myfyrwyr o bob cwr o'r byd.

Rydym yn ymfalchïo yn y gefnogaeth academaidd, ariannol a phersonol gynhwysfawr sydd ar gael i'n holl fyfyrwyr ac yn gweld gradd fel llawer mwy na chymhwyster yn unig - mae'n ymarfer mewn datblygiad a hunan-wella.

Mae ein cysylltiadau â phartneriaid yn y rhanbarth a chyda'r gymuned leol hefyd yn rhoi nifer o gyfleoedd i'n myfyrwyr ennill profiad gwaith gwerthfawr ac elwa ar amrywiaeth enfawr o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael. Mae hyn i gyd yn digwydd mewn ardal o harddwch eithriadol ac yn cyfrannu at brofiad cwbl unigryw ym Mangor."

Yr Athro Iwan Davies
Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor



CIPOLWG CYFLYM AR FANGOR

10 FED

yn y byd am
Ymrwymiad i Gynaliadwyedd

Cynghrair Gwyrdd byd-eang 2019



4 YDD RHANBARTH ORAU

yn y byd i ymweld â hi

lonely planet

Lonely Planet 2017

#1

Yn seiliedig ar adolygiadau myfyrwyr ar wefan *Student Crowd*, mae Prifysgol Bangor wedi ei henwi yr orau o holl brifysgolion Prydain (Awst 2020).



AUR

am **Addysgu Rhagorol** TEF, 2017





40UCHAF

ym Mhrydain am **Ansawdd ein Hymchwil***

* Heb gyfrif sefydliadau arbenigol a phrifysgolion sy'n cyflwyno mewn un uned asesu'n unig

Gwobr Arian am

Glybiau a Chymdeithasau


Gwobrau WhatUni 2020



Clybiau a Chymdeithasau AM DDIM

Mae eich cyfnod fel myfyriwr yn gyfle gwych i chi gael blas ar weithgaredd newydd am y tro cyntaf ac mae aelodaeth o Glybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr yn rhad ac am ddim. Mae Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB) sy'n hybu a diogelu buddianau'r Cymry ym Mangor, hefyd yn cynnal nifer o gymdeithasau ac yn ganolbwynt i fywyd cymdeithasol llawer o'r Cymry Cymraeg ym Mangor.







DOES UNM

BUONA GIORNATA

¡HOLA!

Profiad prifysgol rhyngwladol

Mae rhagoriaeth Prifysgol Bangor mewn ymchwil ac addysgu yn denu myfyrwyr a staff o bedwar ban byd i'r ddinas. Mae hyn yn cynnig cyfle i'n myfyrwyr gydweithio a chymdeithasu â phobl o bob rhan o'r byd.



Bywyd cymdeithasol ac adloniant

Mae Academi, clwb nos y myfyrwyr, yn ganolbwynt i lawer iawn o'r adloniant gyda'r nos. Yn ogystal â nosweithiau wedi eu trefnu gan yr Undeb neu gan Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor, mae amryw o ddigwyddiadau hefyd yn cael eu cynnal yn Y Glôb, Bar Uno ym mhentref Ffriddoedd neu Barlow's ym mhentref y Santes Fair.

Mae canolfan y celfyddydau ac arloesi, Pontio, yn ganolbwynt cymdeithasol i fyfyrwyr a'r gymuned ac yn gartref i Undeb y Myfyrwyr. Mae'r ganolfan yn cynnwys sinema, theatr, ystafelloedd darlithio a llefydd i fwyta.

Awyrgylch clòs a chyfeillgar

Mae Bangor yn cael ei chydnabod fel lle cyfeillgar a chyfleus i fyw ac astudio, gyda nifer o'n myfyrwyr yn dewis dod yma oherwydd maint a natur y ddinas ei hun. Cewch astudio a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg a chymryd rhan yn y llu o weithgareddau myfyrwyr.



AN TEBYG



Sicrwydd o Lety

Mae'r Brifysgol yn sicrhau llety ar gyfer holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf* mewn ystafell ar un o'r ddau bentref myfyriwr. Mae ein llety yn fodern ac yn gyfleus – a'r lle perffaith i setlo fel myfyriwr ym Mangor.

*Am fanylion ein gwarant am lety, ewch i'r wefan: www.bangor.ac.uk/sicrwyddllety

CEFNOGAETH

POB CAM O'CH TAITH





Wythnos Groeso

Bydd nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i groesawu myfyrwyr newydd yn ystod y cyfnod Croeso ym Medi. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau wedi eu trefnu gan Undeb y Myfyrwyr, UMCB, Campws Byw a'ch Ysgol academaidd a bydd Arweinwyr Cyfoed wrth law i'ch helpu i gwrdd â myfyrwyr eraill ac ymgartrefu (gweler tudalen 44).

Cefnogi ein myfyrwyr

Mae cefnogaeth i fyfyrwyr yn flaenoriaeth uchel ym Mangor ac mae iechyd a lles ein myfyrwyr yn bwysig i ni. I'ch helpu chi i wneud y gorau o'ch amser yma, byddwch yn cael cefnogaeth gyda materion iechyd a lles yn ogystal â gyda'ch gwaith academaidd (gweler tudalen 44).





Cefnogaeth Astudio

Pan yn fyfyriwr, bydd gennych Diwtor Personol i roi cyngor a chefnogaeth i chi. Mae'r Ganolfan Sgiliau Astudio yn cynnig cefnogaeth academaidd ychwanegol sy'n cynnwys help gydag ysgrifennu academaidd, astudio, mathemateg ac ystadegau. Os dewiswch chi astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd digon o gefnogaeth ar gael i chi gan gynnwys Canolfan Bedwyr sy'n arbenigo ar gynnig gwasanaethau i gefnogi'r Gymraeg ym Mangor (gweler tudalen 18-19).



Paratoi i'ch dyfodol

Rydym yn cynnig amryw o gyfleon datblygu personol a gyrfa fel gallwch ddechrau cynllunio'ch llwybr gyrfa mewn da bryd. Mae'r rhain yn cynnwys Blwyddyn Lleoliad, Blwyddyn Profiad Rhyngwladol, cynllun interniaeth y Brifysgol, a phrojectau gwirfoddoli gan Undeb y Myfyrwyr (gweler tudalen 21 a 36-41).

BYWYD MYFYRIWR BANGOR

Dwi'n hoffi'r ffaith ei fod yn teimlo fel cymuned glos yn enwedig y gymuned Gymraeg, ac nid ydych byth yn bell o wyneb cyfarwydd. Mae hefyd yn teimlo yn lle saff... Peth arall sydd yn wych am Fangor yw bod o fewn 20 munud i'r mynyddoedd neu draeth - mae hynny yn rhywbeth unigryw iawn i Fangor."

Aled Rosser, o Gaerfyrddin, yn astudio Cerddoriaeth

"Roedd safon yr adnoddau ymchwil ar y cwrs Gwyddorau Chwaraeon yn atyniad mawr i Fangor."

Seren Evans, o'r Bala, sy'n astudio Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer





"Ar Ddiwrnod Agored, cefais fy nghroesawu gan Lywydd UMCB, a chyfarfod staff yr adrannau Cerdd a Chymraeg. Roedd gweld pa mor glos oedd yr adrannau a pha mor hapus oedd pawb yn fy ngwneud yn sicr mai Prifysgol Bangor oedd y brifysgol i mi.

Uchafbwynt fy nghyfnod yma? Y cyfleoedd mewn cymdeithasau UMCB. Er enghraifft, sefydlwyd cymdeithas lenyddol Bangor llynedd sef Cymdeithas John Gwilym Jones ac roedd yn fraint cael bod yn rhan o gast cynhyrchiad cyntaf y gymdeithas."

Elen Wyn, o Dalybont, sy'n astudio Cymraeg a Cherddoriaeth

"Mae hi'n hawdd setlo mewn i fywyd ym Mangor gyda chefnogaeth yr Arweinwyr Cyfoed a'r holl weithgareddau. Mae Pier Bangor yn lle grêt i fynd i redeg, ac mae'r cymdeithasau wedi bod yn ffordd dda i mi wneud ffrindiau newydd."

Sian Furber, o Wrecsam, sy'n astudio Addysg Gynradd



Y GYMRAEG YM MANGOR

Mae'r Gymraeg yn rhan gwbl naturiol o fywyd ym Mhrifysgol Bangor ac i'w gweld a'i chlywed ym mhob agwedd ar ei gwaith a'i bywyd. Ym Mangor, ceir profiadau Cymraeg cyflawn – o ddewis eang o fodiwlau cyfrwng Cymraeg i wasanaethau trwy'r Gymraeg, i ddigwyddiadau cymdeithasol lle mae'r Gymraeg yn ganolog.

Y NIFER MWYAF O GYRSIAU CYMRAEG

Prifysgol Bangor sy'n cynnig y nifer fwyaf o gyrsiau cyfrwng Cymraeg – ac mae hefyd yn cael ei chydnabod am safon ei gwasanaethau dwyieithog a'i chefnogaeth i fyfyrwyr.

44%

o'n staff yn **siaradwyr Cymraeg rhugl** gyda **25%** arall yn medru siarad rhywfaint o Gymraeg.

Canmolodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y ffordd y mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o holl weithgareddau'r Brifysgol ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar brofiad myfyrwyr.





Ni ydi'r **'mwyaf Cymreig'** o'r holl brifysgolion yng Nghymru, o ran darpariaeth a diwylliant.

Mae

50%

o'r holl fyfyrwyr yng Nghymru, sy'n astudio o leiaf 80 credyd o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn gwneud hynny ym Mangor.

Mae gennym Ganolfan bwrpasol ar gyfer Gwasanaethau Iaith, Ymchwil a Thechnoleg Cymraeg – Canolfan Bedwyr – sy'n darparu arweiniad polisi, ymchwil ac arbenigedd gweithredol i Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.







Mae cwmnïau technoleg byd-eang yn gweithio'n rheolaidd gyda'n staff i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau amlieithog newydd ar gyfer y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill.



AP GEIRIADURON

Mae'r 'Ap Geiriaduron' dwyieithog a ddatblygwyd gan yr Uned Technolegau Iaith, wedi'i lawrlwytho dros 150,000+ o weithiau.



ASTUDIO TRWY'R GYMRAEG

Prifysgol Bangor sy'n cynnig y nifer fwyaf o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg – ac mae mwy o'n myfyrwyr yn dewis astudio trwy'r Gymraeg hefyd nac yn unrhyw brifysgol arall.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Pan welwch y symbol hwn ar y dudalen, mae hyn yn golygu bod modd gwneud y cwrs yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Os nad yw'r symbol ar y dudalen cwrs, darllenwch yr wybodaeth o dan y pennawd Astudio trwy'r Gymraeg i weld y dewisiadau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i chi.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

Pan welwch y symbol hwn ar dudalen cwrs, cofiwch am y gwasanaethau sydd ar gael gan Ganolfan Bedwyr i'ch helpu i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhesymau tros astudio drwy'r Gymraeg:

- Gosod sylfaen ardderchog i'r dyfodol o ran cael prawf pendant o ddeallusrwydd a defnydd ymarferol o'r Gymraeg.
- Mae cyflogwyr angen pobl ddwyieithog ar gyfer pob math o swyddi.
- Yn sgîl y Safonau Iaith Gymraeg, mae'r galw am sgiliau iaith Gymraeg yn mynd i gynyddu yn y blynyddoedd nesaf.
- Mae cyflogau swyddi dwyieithog ar gyfartaledd yn uwch
- Y Gymraeg ydi iaith yr aelwyd a/neu iaith yr addysg yn yr ysgol a'r chweched dosbarth, ac felly dyma'r iaith sydd fwyaf naturiol.
- Wedi arfer cael arholiadau a phrofion drwy'r Gymraeg – ac am barhau â hynny yn y brifysgol.
- Wedi dysgu ac arfer defnyddio termau gwyddonol a chelfyddydol yn Gymraeg.
- Mae'n agor drysau i gyfleoedd newydd a gwella'r hyn a gynigir ar y CV.
- Mae'n gyfle i gymdeithasu a byw mewn awyrgylch lle mae'r Gymraeg i'w chlywed bob dydd.



Modiwlau datblygu sgiliau iaith
Mae'r modiwlau Sgiliau Defnyddio'r Gymraeg a modiwl Ymdrin â'ch Pwnc yn Gymraeg yn cynnig cymorth ymarferol ac maent yn addas i siaradwyr Cymraeg rhugl (dysgwyr neu siaradwyr iaith gyntaf). Mae'r modiwlau yn addas os ydych chi'n:

- dilyn eich cyrsiau neu ran o'ch cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg
- dilyn eich cyrsiau yn Saesneg ond eisiau datblygu eich sgiliau a'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol a/neu'n awyddus i allu trafod eich pynciau'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddalwedd cyfrifiadurol Cysgliad
Dyma adnodd defnyddiol ar gyfer rhai sy'n awyddus i ysgrifennu'r Gymraeg. Mae'n cynnwys:

- Cysill – rhaglen sy'n gwirio sillafu a gramadeg
- Cysgeir – casgliad o eiriaduron electronig Cymraeg/Saesneg a Saesneg/Cymraeg.

Gwasanaeth Terminoleg
Mae'r tîm termau wedi cyhoeddi ystod eang o eiriaduron termau dwyieithog er mwyn galluogi myfyrwyr a staff i ymdrin â'u pwnc yn Gymraeg. Gall myfyrwyr gysylltu â swyddog terminoleg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bedwyr, am arweiniad ar ba dermau i'w defnyddio.

Gwasanaeth cyfieithu llawn
Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno traethodau neu wneud cyflwyniadau yn Gymraeg, hyd yn oed os nad yw'r tiwtor/darlithydd yn deall Cymraeg. Mae'r Uned Gyfieithu yn cyfieithu gwaith ysgrifenedig myfyrwyr i'r Gymraeg ac yn cyfieithu cyflwyniadau myfyrwyr i'r Gymraeg trwy'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.





Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Trwy gydweithio â phrifysgolion Cymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau ac yn datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru. Mae'n cynnig ysgoloriaethau sy'n galluogi myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig i ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg yn cynnig ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr israddedig, sy'n gyfle i dderbyn hyd at £3,000 am astudio pynciau yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhestr gyflawn o'r cyrsiau cymwys sy'n gysylltiedig â'r cynllun presennol ynghyd ag amodau a thelerau'r ysgoloriaethau i'w gweld ar www.colegcymraeg.ac.uk

Gweler tudalennau 56-59 am fwy o wybodaeth am Fwrsariaethau ac Ysgoloriaethau ym Mangor.

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae nifer fawr o gyflogwyr yn cydnabod y Dystysgrif hon fel prawf o allu unigolyn i weithio a chyfathrebu'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cyfle i chi ymgeisio am y Dystysgrif yn ystod eich cyfnod ym Mangor, pa bynnag bwnc y byddwch yn dewis ei astudio. Bydd y Tiwtor Sgiliau Iaith yn trefnu cyfres o sesiynau i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr asesiad llafar a'r arholiad ysgrifenedig.

EICH LLAIS
EICH UNDEB



Bydd llawer o'ch bywyd cymdeithasol yn y Brifysgol yn ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr sef Undeb Bangor.

Mae Undeb Bangor yn darparu gwasanaethau, cefnogaeth, gweithgareddau ac adloniant i fyfyrwyr. Mae'r Undeb yn cynrychioli myfyrwyr ar holl faterion.

Mae Undeb Bangor yn cael ei redeg gan Swyddogion Sabothol etholedig. Mae'r Undeb yn bodoli i hyrwyddo eich lles a'ch diddordebau, ac yn fodd i fyfyrwyr gyfathrebu â'r Brifysgol.

UNDEB MYFYRWYR STUDENTS' UNION
UNDEB BANGOR




Ffair yr Wythnos Groeso

Yn ystod yr Wythnos Groeso, bydd Undeb Bangor yn cynnal Ffair yr Wythnos Groeso sef y digwyddiad poblogaidd, Serendipedd. Cewch flas o'r holl gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr gan gynnwys cymdeithasau, timoedd chwaraeon a phrojectau gwirfoddoli. Mae'r Ffair hefyd yn gyfle i chi gwrdd â thimoedd Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau lleol a chenedlaethol.



Aelodaeth am ddim o Glybiau a Chymdeithasau

Mae aelodaeth o glybiau a chymdeithasau Undeb Bangor yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr. Mae yma lu o glybiau a chymdeithasau, yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, felly mae'n hawdd gweld pam bod Undeb Bangor yn chwarae rhan ganolog ym mywydau llawer o fyfyrwyr Bangor (gweler trosodd).



Gwaith yn y Gymuned

Mae yna ddewis o dros 50 project sy'n rhoi cyfle i chi wirfoddoli. Mae'r rhain yn amrywio o weithio gyda plant a'r henoed, i brojectau chwaraeon ac iechyd meddwl.

Bydd y sgiliau a'r profiad rydych yn eu hennill drwy wirfoddoli yn apelio at gyflogwyr, a gallwch hefyd ennill pwyntiau am wirfoddoli gyda Gwirfoddoli Undeb Bangor tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor.



UNDEB MYFYRWYR CYMRAEG BANGOR

UMCB



Beth yw Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor?

Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB) yw'r adain o Undeb Myfyrwyr Bangor sy'n gyfrifol am y Gymraeg a diwylliant Cymreig. Maent yn gyfrifol am gynrychioli materion academaidd y myfyrwyr sy'n siaradwyr ac yn ddysgwyr Cymraeg yn ogystal â darparu cyfleoedd cymdeithadol iddynt. Ceir llu o gymdeithasau a timau chwaraeon sy'n cyfarfod ac yn cynnal digwyddiadau yn Gymraeg.

CROESO

Bwrlwm Bangor

Cymric yw'r adain gymdeithasol o UMCB sy'n gyfifol am y timau chwaraeon a nosweithiau cymdeithasol amrywiol – mae digonedd o luniau i'w gweld ar y cyfryngau cymdiethasol!

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr Cymraeg sy'n aros yn Neuaddau Prifysgol Bangor yn dewis byw yn Neuadd JMJ sy'n neuadd gartrefol a chymunedol iawn. Mae Ystafell Gyffredin braf yn rhan o'r adeilad sy'n lle delfrydol i bawb ddod at ei gilydd.

Aelwyd JMJ

Mae Aelwyd JMJ yn gangen o'r Urdd sy'n cyfarfod yn wythnosol yn Neuadd John Morris Jones. Prif weithgaredd yr Aelwyd ydi uno'r myfyrwyr Cymraeg i ffurfio Côr Aelwyd JMJ. Yn ogystal â'r côr SATB, mae gan yr Aelwyd Gôr Bechgyn a Chôr Merched. Mae'r Aelwyd yn griw brwdfrydig sy'n mwynhau cymdeithasu. Cafodd y Côr lwyddiant aruthrol yn y gorffennol ac maent yn hyderus bod llwyddiannau pellach i ddod!







Cymdeithasau UMCB

Mae nifer o gymdeithasau eraill yn dod o dan ymbarél UMCB. Mae **Cymdeithas Dysgwyr Cymraeg UMCB** yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg a chael pob cefnogaeth a chroeso. Bwriad **Cymdeithas John Gwilym Jones** yw dod â llenyddiaeth Gymraeg yn fyw yn Ninas Dysg trwy gynnal gweithgareddau cyffrous o fyd barddoniaeth, rhyddiaith, a'r ddrama Gymraeg. Ceir papur newydd Cymraeg **Y Llef** ei ysgrifennu a'i baratoi gan fyfyrwyr Cymraeg Bangor ynghŷd â'r **Hadau**, cylchgrawn i ddysgwyr.

PROFIADAU DIDERFYN

GYDA CHLYBIAU A CHYMDEITHASAU AM DDIM

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2020
AIL SAFLE
CYMDEITHASAU A CHWARAEON

Rydym wedi derbyn Gwobr Arian a'n henwi yn ail ym Mhrydain am Glybiau a Chymdeithasau.*

*Gwobrau What Uni 2020

Yn ogystal â'r cyfleodd sy'n cael eu cynnig gan UMCB, mae eich cyfnod fel myfyriwr yn gyfle gwych i chi gael blas ar weithgaredd newydd am y tro cyntaf. Mae'r llu o glybiau a chymdeithasau yn cwmpasu amrywiaeth eang o hobïau a diddordebau eraill a cheir rhai sy'n ategu eich pwnc academaidd.



"Mae 'na hwyl yn aros amdanoch chi...lot o gymdeithasu, timau chwaraeon cyfeillgar a hwyliog..."

Sioned Martha Davies, o Bencader, sy'n astudio Cymraeg

Mae'r Cymdeithasau yn cynnwys:

ACAPELLA
AIL-GREU
CANOLOESOL
ANIMEIDDIO
BAND JAZZ **BAND**
PRES BIOLEG

CADWRAETH
CARIBIAIDD
CRICED CELF
CERDD CERDDED
CI **COMEDI**

CYMDEITHAS
Y WERIN
DISNEY DRAMA
FFEMINIST
FFILM **GWNÏO**
GWYDDBWYLL



HERPETOLEG
IOGA **LHDTC+**
LLENYDDIAETH
OPERA STORM
FM **SEICOLEG**
SŴOLEGOL



SYRCAS UNDEB
GRISTNOGOL **Y**
GYFRAITH



Am restr lawn ewch i'r wefan: cy.undebbangor.com/eichcymdeithasau/cymdeithasau/

CHWARAEON A HAMDDEN



Cyfleusterau Chwaraeon

Mae prif Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol Canolfan Brailsford, yn nghanol pentref myfyrwyr Ffriddoedd.

Mae'r cyfleusterau dan do yn cynnwys:

- campfa ddeulawr llawn offer diweddaraf
- ardal codi pwysau Olympaidd, 9 platfform
- dwy neuadd chwaraeon
- stiwdio aerobeg
- stiwdio beicio
- wal ddringo gyda sawl lefel anhawster ac adran creigiau mawr
- pedwar cwrt sboncen
- Y Dôm – sef canolfan pêl-rwyd a thenis
- arfdy ar gyfer cleddyfaeth a gweithgareddau saethyddiaeth ar safle'r Normal
- ystafell ffitrwydd ym mhentref Y Santes Fair

Mae'r cyfleusterau yn yr awyr agored yn cynnwys:

- caeau synthetig efo llifoleuadau ar gyfer pêl- droed, rygbi a hoci
- caeau glaswellt naturiol ar gyfer pêl-droed Americanaidd, quidditch ac ultimate frisbee
- caeau a thrac athletau awyr agored Treborth
- ardal gemau a chyfleusterau ar gyfer pêl droed, pêl-fasged a gemau yn yr awyr agored ym mhentref Y Santes Fair

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Snowdonia Watersports, canolfan gweithgareddau awyr agored ger Llyn Padarn sy'n darparu lleoliad ar gyfer rhaglen rwyfo'r Brifysgol a chlybiau gweithgareddau dŵr a mynyddoedd eraill.

Mae atyniadau poblogaidd lleol eraill yn cynnwys pwll nofio 25 metr gyda cyfleusterau deifio uchel, Canolfan Fynydda Genedlaethol (Plas-y-Brenin), a Phlas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Rydym yn cynnig nifer o Ysgoloriaethau Chwaraeon gwerth hyd at £3,000 y flwyddyn i fyfyrwyr â dawn arbennig mewn chwaraeon (gweler tudalen 59).

"Mae Bangor a'r ardal yn brydferth ac yn cynnig cydbwysedd da rhwng bywyd dinesig a bywyd gwledig."

Jonathan Môn Hughes, o'r Fali, Ynys Môn, sy'n astudio Addysg Gynradd



AMSER AM ANTUR

Undeb Athletau Bangor

Mae'r Undeb Athletau yn rhan o Undeb y Myfyrwyr sy'n gyfrifol am Glybiau Chwaraeon.

Mae yma dros 60 o dimoedd a chlybiau – ac mae aelodaeth am ddim. Mae pob clwb yn groesawus ac yn gyfeillgar, gyda llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol yn cael eu cynnal ynghyd â'r gweithgareddau chwaraeon.





“Mae’r bywyd cymdeithasol yma yn grêt! Dwi’n rhan o dîm pêl-rwyd Bangor sydd wedi rhoi’r cyfle i mi gyfarfod â phobl na fyswn i wedi cwrdd â hwy fel arall.”

Sioned Rowlands, o Gaerdydd, sy’n astudio Seicoleg



Clybiau Chwaraeon

Athletau
Badminton
Bocsio
Canŵio
Cerdded Mynyddoedd
Cheerleaders
Chwaraeon Eira
Clwb Beicio
Codi Pwysau a Pŵer
Criced
Dawnsio
Futsal
Ffensio
Ffrisbi
Golff
Gymnasteg
Hoci
Hwylfyrddio
Hwylio
Jiwdo
Jiu-Jitsu
Karate
Ki-Aikido
Kungfu a Taekwondo
Lacrosse
Marchogaeth
Mynydda
Nofio
Nofio Tanddwr
Pêl-Droed
Pêl-Droed Americanaidd
Pêl-Droed Gwyddelig
Pêl Fasged
Pêl-Foli
Peli-Paent
Pêl-Rwyd
Polo Canŵ
Polyn Heini
Quidditch
Rhwyfo
Rygbi’r Gynghrir
Rygbi’r Undeb
Saethyddiaeth
Sboncen
Snwcer A Phŵl
Syrffio
Tenis
Tonfyrddio
Trampolinio
Triathlon

Am restr lawn ewch i’r wefan:
cy.undebbangor.com/eichchwaraeon/chwaraeon

Os oes gennych ddiddordeb mewn chwaraeon awyr agored, mae lleoliad unigryw Bangor hefyd yn golygu y gall y clybiau fanteisio ar fynyddoedd, llynnoedd, afonydd ac arfordir yr ardal.

CROESO
I'R CAMPWS

"Mae'n fywyd prysur ond rwyf wrth fy modd. Rwy'n rhannu fflat efo wyth o genod eraill – felly mae 'na ddigon o siarad a chwerthin yn mynd ymlaen!"

Siwan Gwilym Williams, o Foelfre ger Abergele, sy'n astudio Astudiaethau Plentyndod a Seicoleg



Pentref Ffriddoedd



Mae ein llety myfyrwyr yn fodern ac mewn lleoliad hwylus - mae'r ddau bentref myfyrwyr o fewn pellter cerdded i adeiladau'r Brifysgol. Rydym yn sicrhau llety ar gyfer holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf*.

Pam byw mewn neuadd?

Rydym yn annog myfyrwyr i wneud cais am ystafell mewn Llety Prifysgol gan fod hynny yn rhoi'r cyflwyniad gorau i fywyd myfyriwr.

*Am fanylion ein gwarant am lety, ewch i'r wefan: www.bangor.ac.uk/sicrwyddllety

Pa fath o lety sydd ar gael?

Mae'r llety i gyd yn rhai hunanarlwyo, a byddwch yn rhannu'r gegin gyda'ch cyd-fyfyrwyr sy'n eu gwneud yn lle grêt i gymdeithasu. Mae cyfleusterau sylfaenol yn y ceginau cyffredin fel cwceri, oergelloedd a rhewgelloedd, tegelli, microdonnau, tostwyr a bwrdd smwddio ond ni ddarperir cyllyll a ffyrc, platiau, sosbenni na haearn smwddio.

Llety en-suite:
ystafell en-suite i un person gyda chawod a thoiled preifat mewn llety mwy diweddar.

Llety safonol (rhannu cyfleusterau):
ystafell i un person a rhannu ystafelloedd ymolchi a thoiledau.

Tai Tref:
ystafell i un person, rhannu ystafell ymolchi a rhwng 2 berson, cegin a rennir.

Stiwdio:
ystafell wely, cawod a thoiled preifat a chegin fechan, breifat.


Pentref y Santes Fair

NEUADD JMJ

Neuadd John Morris Jones yw dewis gartref y mwyafrif o fyfyrwyr Cymraeg a rhai sy'n dysgu'r iaith. Mae'n ganolbwynt bywyd cymdeithasol Cymraeg, sy'n cynnig cymuned glòs a chyfeillgar i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru. Mae Neuadd John Morris Jones (neu JMJ i'r rhai sy'n byw yno) wedi ei lleoli mewn adeiladau modern ym mhentref Ffriddoedd.

Ceir bywyd cymdeithasol bywiog yn Neuadd JMJ gyda'r gweithgareddau, sy'n cael eu trefnu gan y myfyrwyr ac UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor), yn cynnwys parti Nadolig, tripiau rygbi, gweithgareddau rhyng-golegol a thaith flynyddol i'r Iwerddon.

"Mi wnes i setlo yn JMJ yn syth gan fy mod yn gallu cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg bob awr o'r dydd. Dwi wedi creu profiadau anhygoel trwy wahanol ddigwyddiadau cymdeithasol ac yn mwynhau fy amser yma ym Mangor yn fawr iawn, yn bennaf oherwydd y profiadau rwyf wedi eu cael trwy fyw yn JMJ"

Mabon Dafydd
Llywydd Neuadd JMJ sy'n astudio Cymraeg





BBQ ym Mhentref Ffriddoedd

PENTREF FFRIDDOEDD

Mae'r pentref neuaddau mwyaf ym Mangor Uchaf ac mae tua 10 munud o waith cerdded o Ffordd y Coleg, Safle'r Gwyddorau a chanol y dref. Ar y safle hwn mae golchfeydd a lolfeydd myfyrwyr. Hefyd ar y safle mae Bar Uno, caffi-bar myfyrwyr, sy'n darparu prydau bwyd a diodydd o frecwast drwy'r dydd tan swper, siop gyfleus i fyfyrwyr a Chanolfan Brailsford y ganolfan chwaraeon a hamdden. Ystafelloedd en-suite gan fwyaf sydd ar y safle yma.

PENTREF Y SANTES FAIR

Mae'r pentref yma yn edrych dros dinas Bangor ac yn agos at y stryd fawr sy'n cynnig amrywiaeth o siopau. Mae hwn yn bentref gyda 600 ystafelloedd, ac mae'r dewis o lety yn cynnwys ystafelloedd en-suite, fflatiau stiwdio a thai tref. Mae yno hefyd gaffi-bar, siop, golchfeydd, ystafell ffitrwydd, lolfeydd myfyrwyr, ystafell sinema fechan, gofod perfformio a cherddoriaeth a gofod gemau awyr agored.

Cyfleusterau sydd ar gael

Mae ein pentrefi myfyrwyr o fewn cyrraedd hwylus i siopau, tafarnau a chaffis o bob math lle bynnag y byddwch yn aros. Rydym yn darparu amrywiaeth o fannau bwyta sy'n agored i bawb. Mae'r rhain wedi eu lleoli ym mhentref Ffriddoedd (Bar Uno a Siop Ffriddoedd), ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau (Café Teras a Lolfa Teras), ym mhentref y Santes Fair (Bar Barlow's, caffi prydau parod a siop) ac yng nghanolfan Pontio (caffi, bar a chiosg). Mae ein holl fannau arlwyo'n defnyddio nwyddau lleol a Masnach Deg lle bo'n bosib.

Mae ein dau bentref myfyrwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden heb eu hail. Cafodd Canolfan Brailsford ei hail-ddatblygu'n ddiweddar, ar gost o sawl miliwn o bunnoedd, a cheir yno 3 campfa, 2 neuadd chwaraeon, 2 stiwdio, wal ddringo a chyfleuster tennis a phêl-rwyd dan do. Ym mhentref y Santes Fair, mae yna ystafell ffitrwydd a maes chwaraeon aml-ddefnydd helaeth yn yr awyr agored. Mae aelodaeth o'r gampfa wedi'i chynnwys gyda holl lety Prifysgol Bangor.

Mynediad Rhyngrwyd

Mae gan bob ystafell wely sengl gyswllt rhyngrwyd ond rhaid dod â'ch cyfrifiadur neu liniadur eich hun.





Campws Byw

Ymysg y digwyddiadau mae caiacio, cerdded mynyddoedd, nosweithiau ffilm, digwyddiadau cerddorol, partion pitsa a gweithdai.
Cyfle perffaith i gymryd saib o'ch gwaith academaidd a chael cyfarfod ffrindiau newydd.

www.bangor.ac.uk/campus-life
www.campuslifebangor.co.uk

Llety i rai gydag anabledd neu gyflwr iechyd hir-dymor

Pan fyddwch yn gwneud cais dylech nodi unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd hir-dymor a allai effeithio ar y math o lety y mae arnoch ei angen. Bydd ein Cynghorwr Anabledd yn asesu eich achos a chynghori'r Swyddfa Neuaddau ynglŷn â'r llety y dylech ei gael. Mae nifer o ystafelloedd mewn rhai neuaddau wedi cael eu haddasu ar gyfer myfyrwyr anabl.

Mentoriaid a Diogelwch

Mae gan y Neuaddau sawl Uwch Warden a nifer o fentoriaid sy'n fyfyrwyr. Y mentoriaid sy'n gyfrifol am fywyd cymunedol, lles myfyrwyr a disgyblaeth. Maen nhw'n helpu gyda'r holl ofal bugeiliol ac yn helpu i feithrin ysbryd cymunedol cyfeillgar yn y Neuaddau. Hefyd, er bod Bangor yn lle diogel, mae Staff Diogelwch ar gael 24 awr y dydd.



Faint fydd hyn yn gostio?

Mae costau byw ym Mangor yn is nag mewn llawer rhan arall o wledydd Prydain ac adlewyrchir hynny yn ffioedd y neuaddau. Cofiwch hefyd eu bod yn cynnwys yr holl filiau am fynediad i'r rhyngrwyd, gwres, trydan, dŵr poeth, aelodaeth Campws Byw a chwaraeon a hefyd yswriant cynnwys sylfaenol.

Mae ffioedd neuadd yn cael eu cyfrifo am y sesiwn academaidd lawn. Fel llinyn mesur bras, dyma ffioedd 2020:

- Rhannu cyfleusterau o £100 yr wythnos
- Cyfleusterau en-suite o £120 yr wythnos
- Stiwdios o £166 yr wythnos

"Mae byw mewn neuadd breswyl yn brofiad hollol wahanol i fyw adref ond, ma hi dal i deimlo mor gartrefol yma."

Sut allai gael mwy o wybodaeth?

Ewch i' wefan y Brifysgol a'r tudalennau Llety:
www.bangor.ac.uk/bywydmyfyriwr
www.bangor.ac.uk/llety

CAM YMLAEN AT YRFA

Fel myfyriwr yma, byddwch yn cael eich annog i fanteisio ar yr amryw o raglenni datblygu gyrfa a gaiff eu cynnig, fel y gallwch ddechrau cynllunio'ch llwybr gyrfa mewn da bryd.



Profiad Gwaith a Sgiliau Menter

Mae'r Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd yn cynnig ystod eang o adnoddau i'ch helpu i wireddu'ch uchelgeisiau ar ôl graddio. O'r munud y cyrhaeddwch Fangor, byddwn yno i'ch cynghori a rhoi gwybodaeth ymarferol i chi am brofiad gwaith, swyddi yn ystod y gwyliau, gwaith amser tymor ac, wrth gwrs, eich helpu i nodi'r hyn a wnewch ar ôl graddio. Byddwn yn parhau i'ch cefnogi am dair blynedd ar ôl graddio.

I wella eich cyflogadwyedd rydym yn cynnig rhaglen sy'n cynnwys arweiniad unigol, gweithdai a chyflwyniadau gan gyflogwyr. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau ychwanegol sy'n darparu gwaith rhan-amser, profiadau gwirfoddol, gwaith dros yr haf a lleoliadau sy'n seiliedig ar brojectau.

Mae adrannau academaidd a'r Colegau hefyd yn cynnal digwyddiadau i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr. Mae'r digwyddiadau a chynadleddau hyn yn gyfle i chi gyfarfod cyflogwyr a chyn-fyfyrwyr sy'n gweithio mewn meysydd sy'n berthnasol i'ch pwnc. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i chi ddysgu sut y gall y sgiliau trosglwyddadwy sy'n cael eu hennill wrth ddilyn cwrs gradd yn y maes fod yn berthnasol i amrywiaeth o yrfaoedd.

TARGET connect

TARGET connect yw gwasanaeth cyflogaeth arlein y Brifysgol lle gallwch reoli eich llwybr gyrfa a'ch cyfleoedd chwilio am waith, gwneud apwyntiadau un-i-un a mynychu gweithdai. Rydym yma i'ch helpu i gael hyd i waith yn ystod y tymor, gwaith gwyliau ac, yn bwysicaf oll, cyfleoedd i raddedigion, yn genedlaethol ac yn lleol. Rydym hefyd yn hysbysebu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, interniaethau a gwaith gwirfoddol.

Mae'r rhaglenni a'r gefnogaeth sgiliau cyflogadwyedd a gynigir yn cynnwys:

Cynlluniau menter a chyflogadwyedd

Paratowch at eich dyfodol drwy wneud defnydd llawn o'r ystod eang o'r cynlluniau cyflogadwydd a menter sydd ar gael megis gweithdai, sgyrsiau gan gyflogwyr ac arweiniad unigol (gweler tudalen 36).

Blwyddyn Lleoliad

Gallwch ddewis cymryd Blwyddyn Lleoliad rhwng blynyddoedd 2 a 3 o'ch cwrs gradd i ennill profiad gwerthfawr mewn maes sy'n berthnasol i'ch cwrs. Bydd 'gyda blwyddyn lleoliad' yn cael ei roi ar deitl eich gradd (gweler tudalen 38).



Rhaglen Profiad Rhyngwladol

Rhowch hwb pellach i'ch rhagolygon gyrfa drwy gymryd rhan yn y Rhaglen Profiad Rhyngwladol, lle mae cyfle i astudio dramor am flwyddyn ychwanegol (gweler tudalen 42).



Gwobr Cyflogadwyedd Bangor

Cadwch gofnod o'ch gweithgareddau allgyrsiol a dilynwch raglen datblygu personol ar-lein i dderbyn tystysgrif gwobr cyflogadwyedd pan yn graddio (gweler tudalen 39).

Gwirfoddoli

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal projectau gwirfoddoli o rai amgylcheddol a chwaraeon i brojectau cymdeithasol. (gweler tudalen 21).

Lleoliadau a Phrofiad Gwaith

I roi hwb i'ch cyflogadwyedd gallwch ddewis gwneud lleoliad fel rhan o bron pob cwrs israddedig ym Mangor. Gall y lleoliad fod yn flwyddyn o hyd (sy'n flwyddyn allan rhwng blynyddoedd 2 a 3 o'r cwrs gradd), 3 mis o hyd neu yn bythefnos o hyd (isafswm o 70 awr, yn ystod blwyddyn 2).

Bydd disgwyl i chi ddod o hyd i a threfnu lleoliad addas sy'n ategu eich gradd, a byddwch yn cael eich cefnogi yn ystod y cyfnod yma gan aelod penodol o staff yn eich Ysgol academaidd a Gwasanaethau Sgiliau a Chyflogadwyedd y Brifysgol.

Bydd myfyrwyr sy'n gwneud y lleoliad o bythefnos o hyd yn cael y cyfle i'w gynnwys yn eu Hadroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) ac fe fydd y rhai sy'n gwneud y Flwyddyn Lleoliad Gwaith yn cael 'gyda lleoliad gwaith' ar deitl eu gradd.

Mae gan Brifysgol Bangor hefyd gysylltiadau agos â chwmnïau mawr, y sector gyhoeddus a Pharc Gwyddoniaeth Menai, M-SParc. Mae myfyrywr wedi bod ar brofiad gwaith efo cwmnïau fel Santander Bank, Siemens Healthineers, Coutts, Venue Cymru, Undeb Rygbi Cymru, BBC Cymru, Zip World a Gen2.

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

Os gwelwch y logo yma ar dudalen cwrs, mae'n dynodi bod cyfleoedd lleoliad gwaith ar gael.



Cyflogwyr ar y Campws

Pob blwyddyn mae Bangor yn croesawu cannoedd o gyflogwyr i gymryd rhan mewn ffeiri gyrfaoedd, sesiynau sgiliau a gwybodaeth a modiwlau a arweinir gan gyflogwyr er mwyn ysbrydoli ein myfyrwyr.

Cynllun Interniaeth

Dyma gyfle i chi gael profiad gwaith (efo cyflog) o lefel graddedig, yn adrannau ac Ysgolion academaidd y Brifysgol. Bydd y math o waith yn amrywio o farchnata, dylunio gwe, neu broject ymrwymiad myfyrwyr, i gefnogi project ymchwil, gwaith maes, neu reoli data.

Cynllun Arweinwyr Cyfoed

Mae bod yn Arweinydd Cyfoed yn cynnig cyfle delfrydol i chi gymryd rhan lawn ym mywyd myfyriwr yn ogystal â'r cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau rhyngbersonol a'ch sgiliau trefnu. Mae cyflogwyr graddedigion yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r sgiliau byddwch yn eu hennill drwy fod yn Arweinydd Cyfoed.

Byddwch Fentrus

Mae Byddwch Fentrus yn gweithio gyda partneriaid mewnol ac allanol i gynnig cyfleodd i fyfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau menter. Cewch eich cefnogi drwy sesiynau mentora busnes un-i-un, gweithdai, a chyfleoedd cyllidio i helpu ddatblygu eich syniadau. Mae cyfleusterau prototeipio hefyd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion trwy Arloesi Pontio ac M-Sparc.

Ieithoedd i Bawb

Mae dysgu iaith yn hwyl ac yn her, a bydd yn eich annog i ehangu eich gorwelion, gan agor drysau i ddiwylliannau eraill ac yn gwella eich cyflogadwyedd. Mae'r ieithoedd sydd ar gael fel arfer yn cynnwys: Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Tsieinëeg (Mandarin). Noder: efallai bydd ffi ychwanegol am y dosbarthiadau yma.


Gwobr Cyflogadwyedd Bangor

Mae cynllun Gwobr Cyflogadwyedd Bangor (GCB) yn cydnabod eich bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau sy'n datblygu'ch sgiliau a'ch galluoedd tra ydych ym Mhrifysgol Bangor (e.e. gwirfoddoli, clybiau a chymdeithasau, profiad gwaith, gwaith rhan-amser, dysgu iaith newydd ac ati). Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i chi gwblhau rhaglen datblygiad personol fer. Bydd eich Adroddaid Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) yn rhestru rhai o'r cyflawniadau, rolau a hyfforddiant ffurfiol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
E: cyflogadwyedd@bangor.ac.uk
F: 01248 382071

"Mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn gymhelliant go-iawn i fynd ati i wirfoddoli, a thrwy hynny, gymdeithasu!"

PROFIADAU MYFYRWYR A GRADDEDIGION



"Yn ystod y tair blynedd bûm yn astudio, cefais y cyfle i weithio gyda'r Brifysgol ar interniaeth yn datblygu Ffair Swyddi Cymraeg i fyfyrwyr ac ar brojectau ar y cyd ag Ysgolion academaidd.

Bûm yn ffodus i dderbyn swydd gyda'r BBC fel gohebydd ar ôl graddio. Mae gweithio ar raglenni a llwyfannau fel *Newyddion 9*, *Post Cyntaf* a *Cymru Fyw* wedi rhoi'r cyfle i mi ddatblygu fy ngyrfa ac rwyf bellach yn aml yn 'torri straeon' ac yn darlledu'n fyw i'r genedl. Rwyf wedi teithio ledled y wlad yn gweithio ac wedi cael nifer o gyfleoedd. Credaf fod y rhain oll wedi deillio o'r sylfeini cadarn a gafodd eu creu ym Mhrifysgol Bangor.

Heb fy ngradd dw i ddim yn credu y buaswn yn fy swydd bresennol. Fe wnaeth y cwrs Hanes roi sgiliau ymchwil trylwyr i mi a fy nysgu sut i ddadansoddi dogfennau cymhleth. Rhoddodd y cwrs Cymraeg y sgiliau ieithyddol ac ysgrifenedig yr oeddwn eu hangen. Un o'r prif sgiliau a ddatblygais oedd y gallu i siarad yn gyhoeddus. Yn y seminarau a darlithoedd dysgais bwysigrwydd y gallu i gyfleu safbwyntiau a chyflwyno dadleuon a gyda chymorth darlithwyr cyfeillgar fe lwyddais i feddiannu'r sgiliau hyn a'u datblygu'n bellach yn fy swydd bresennol."

Liam Evans, cyn-fyfyriwr Hanes a Chymraeg



"Ym Mhrifysgol Bangor, rwyf wedi cael cyfleoedd i actio ar lwyfannau Pontio, yn ogystal â gweithio o flaen a thu ôl i gamerâu gyda gwahanol gynhyrchiadau. Trwy rwydweithio â phobl y deuthum i'w hadnabod drwy'r Brifysgol, rwyf wedi cael fy nghyflogi i weithio gyda BBC Scotland, Hansh, S4C, a chyfres boblogaidd ar Amazon, yn ogystal ag is-gyfarwyddo sioe gerdd Theatr yr Urdd."

Lowri Cêt Jones
Cyn-fyfyriwr Cyfryngau gyda Theatr a Pherfformio

"Mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn ffordd wych o gofnodi gweithgareddau rydych yn eu gwneud tra yn y Brifysgol. Gall fod o fudd i chi gan bydd cyflogwyr yn gweld eich bod wedi gwneud gwaith arall tra'n astudio."

Wil Chidley, sy'n astudio Daeryddiaeth Ffisegol ac Eigioneg

"Mae gweithio tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor wedi fy ysgogi i feddwl pa sgiliau penodol rwyf wedi eu cyflawni trwy weithgareddau allgyrsiol."

Cyn-fyfyriwr, a gymerodd ran yng Ngwobr Cyflogadwyedd Bangor

BYD
O GYFLEOEDD

Yn ystod eich amser yma cewch gyfle i astudio dramor fel rhan o'ch rhaglen radd.

Mae'n gyfle gwych i astudio gydag arbenigwyr, gweld ffordd wahanol o fyw, ehangu eich gorwelion ac, wrth gwrs, gyda phrofiad rhyngwladol o'r fath, rydych yn gwneud byd o les i'ch gyrfa.

Yn dibynnu ar eich cwrs, mae'n bosib y byddwch yn gallu treulio rhwng 3 a 12 mis yn astudio dramor yn ystod eich ail flwyddyn a bydd eich gwaith yn cyfrannu at eich gradd.

Mae gennych hefyd y cyfle i gymryd blwyddyn allan ar ein rhaglen **Profiad Rhyngwladol** lle byddwch yn astudio dramor am un flwyddyn ychwanegol. Mae yna ddewis mwy eang o leoliadau a bydd 'gyda phrofiad rhyngwladol' yn cael ei ychwanegu at deitl eich gradd.

Os ydych yn bwriadu astudio mewn gwlad lle nad yw'r Saesneg yn cael ei siarad fel iaith frodorol, efallai y bydd cefnogaeth iaith ychwanegol ar gael i chi.

Noder: Caiff y ffi ei leihau am unrhyw semester o'r cwrs sy'n cael ei dreulio dramor. Ewch i'r wefan am y wybodaeth ddiweddaraf.



Enghreifftiau o bynciau a'u lleoliadau

Coedwigaeth: Canada a Norwy
Bioleg: UDA a'r Iseldiroedd
Gwyddorau Eigion: Norwy ac UDA
Bancio a Chyllid: Ffrainc a Sbaen
Cymdeithaseg: Awstralia a'r Ffindir
Seicoleg: Yr Iseldiroedd ac UDA
Ieithyddiaeth: Sbaen a Denmarc
Ieithoedd Modern: Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Sbaen
Addysg: Awstralia a'r Ffindir

"Mae gweithio mewn ysgol yn Awstralia wedi fy helpu i ddatblygu sgiliau fel rheoli amser, annibyniaeth, a dyfalbarhad. Mi wnes i wneud ffrindiau gydag aelodau eraill o staff oedd yn gweithio yn tŷ llety â mi yn yr ysgol ac rwy'n dal yn ffrindiau â nhw."

Danial Tomos Jones, o Gaernarfon, cyn-fyfyriwr Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer



CEFNOGI EIN MYFYRWYR

Ym Mangor, rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gofal a chefnogaeth i fyfyrwyr. O'r adeg pan gyrhaeddwch yma, cewch gymaint o gymorth a chefnogaeth ag y bo modd gyda materion iechyd a gofal yn ogystal â gwaith academaidd.

"Cefais decst gan fy Arweinydd Cyfoed cyn cyrraedd y Brifysgol, ac roedd hynny o gymorth mawr."



Wythnos Groeso

Er mwyn eich helpu i ymgartrefu a chyfarfod pobl newydd, rydym yn trefnu Wythnos Groeso i fyfyrwyr newydd.

Bydd nifer o ddigwyddiadau adloniadol a chymdeithasol wedi eu trefnu i'ch cynorthwyo i gyfarfod â myfyrwyr eraill. Byddwch yn mynd i gyfarfod sy'n eich croesawu'n swyddogol i'r Brifysgol, bydd eich Ysgol academaidd ac Undeb y Myfyrwyr yn trefnu gweithgareddau trwy'r wythnos a bydd Arweinwyr Cyfoed wrth law i'ch helpu i ymgartrefu.

Arweinwyr Cyfoed

Mae'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed wedi derbyn cydnabyddiaeth cenedlaethol.

Mae ein holl Arweinwyr Cyfoed yn fyfyrwyr gan mai hwy yw'r bobl orau i'ch helpu i ymgartrefu. Wedi'r cwbl, does dim cymaint â hynny ers iddynt hwythau fod yn fyfyrwyr newydd.

Maent yno i helpu myfyrwyr newydd i setlo, i drefnu gweithgareddau cymdeithasol, ac i fynd â myfyrwyr newydd o gwmpas y campws a chynnig cyngor cyffredinol.

Unwaith y byddwch wedi ymgartrefu, efallai y byddwch chithau â'ch bryd ar ddod yn Arweinydd Cyfoed i groesawu myfyrwyr newydd i Fangor.

Sut gall Gwasanaethau Myfyrwyr eich helpu:

Cymorth Ymarferol

O chwilio am dŷ i reoli eich cyllideb, rydym yn rhoi cymorth a chyngor ar agweddau gwahanol o fywyd myfyriwr. Os bydd eich amgylchiadau yn newid a bydd angen i chi gymryd toriad yn eich astudiaethau, mae cyngor ar gael i'ch helpu wneud y dewisiadau sy'n iawn i chi.

Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr

Mae gennym weithdai arbenigol a chyfeillgar i gefnogi eich lles, a gwasanaeth cwnsela cyfrinachol ac am ddim – drwy apwyntiad neu alw heibio.

Cynghorwyr Iechyd Meddwl

Mae cynghorwyr iechyd meddwl yn cynorthwyo myfyrwyr i reoli eu hastudiaethau a gallant nodi ffynonellau cymorth a chefnogaeth.

Meddygfeydd Dyddiol

Meddygfeydd dyddiol penodol gyda phractis meddygon teulu.

Cyswllt Personol

Person cyswllt penodol i fyfyrwyr o ofal o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr

Tîm y Gaplaniaeth

Mae Tîm y Gaplaniaeth ar gael i gefnogi holl aelodau'r Brifysgol, waeth beth yw eu daliadau crefyddol.



"Mae yma bob math o gymorth ar gael - o gymorth academaidd i gymorth ariannol ac iechyd a lles."

Am fwy o wybodaeth:

Gwasanaethau Myfyrwyr, Prifysgol Bangor,
Bangor, Gwynedd, LL57 2DF

Ff: 01248 382024
E: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr

GWASANAETH ANABLEDD

Os ydych chi yn wynebu rhwystrau i astudio mewn Prifysgol, gallwn ddarparu cefnogaeth yn ystod eich cyfnod ym Mangor. Yn ogystal â'r Gwasanaethau Anabledd, mae'r Tiwtoriaid Anabledd yn hyrwyddo darpariaeth gynhwysol yn ein Hysgolion academaidd.

Dywedwch wrthym am eich gofynion

Mae'n well cysylltu â ni yn gynnar fel ein bod yn gallu trafod eich gofynion – rydym yn cysylltu â phawb sy'n rhoi tic yn y bocs anabledd ar eu ffurflen UCAS. Nid oes rhaid disgwyl nes i chi gofrestru yma – os oes gennych gynnig i astudio yma Mangor gallwch gofrestru ar-lein gyda Gwasanaethau Anabledd cyn cofrestru i sicrhau bod cefnogaeth sydd ei angen arnoch wedi ei drefnu cyn cychwyn y cwrs lle bo'n bosib.

Cynllun Cefnogi Dysgu Penodol (CCDP)

Caiff Cynlluniau Cefnogi Dysgu eu llunio i nodi gofynion unigol, ac i sicrhau caiff trefniadau priodol eu gwneud, er enghraifft amser ychwanegol mewn arholiadau. Mae ein Ap CCDP yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei rannu gyda'r bobl angenrheidiol yn unig er mwyn gwneud y trefniadau priodol ar eich cyfer.

Asesu gwahaniaethau dysgu penodol

Gall myfyrwyr nad ydynt wedi cael asesiad blaenorol am ddyslecsia, dyspracsia neu anawsterau sylwol gael asesiad sgrinio anffurfiol ac asesiad diagnostig llawn lle bo angen.

Canolfan Asesu Prifysgol Bangor

Mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA) helpu i gwrdd ag unrhyw gostau cwrs ychwanegol o ganlyniad i anabledd. Gall y Ganolfan helpu myfyrwyr i wneud cais am LMA a gwneud asesiadau anghenion astudio.

Myfyrwyr gyda thrafferth symud

Os oes gennych drafferth symud, fe'ch cynghorir i ddod draw i'r Brifysgol – tra mae Bangor yn ddinas fechan, mae yma elltydd. Bydd yn bleser gan staff eich tywys o amgylch felly cysylltwch â ni i drafod eich gofynion.

Am fwy o wybodaeth:

Gwasanaethau Myfyrwyr, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DF.

Ff: 01248 382024
E: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr



"Mae'r Brifysgol yn 100% gefnogol. Mae digonedd o wasanaethau sy'n cefnogi myfyrwyr yma."

Cefnogaeth ychwanegol:

Cefnogaeth Bersonol

Gallwn ddarparu mentoriaid a chynorthwywyr ymarferol i hwyluso astudio a thasgau dyddiol. Mae yna hefyd diwtoriaid / mentoriaid arbenigol sy'n gallu helpu efo gwaith cwrs, a chyda rheoli amser a llwyth gwaith a straen. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gyda mathamateg, ystadegau, a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg.

Addasiadau Arholiadau

Cynorthwyo i drefnu yn ôl gofynion penodol ar gyfer arholiadau ac asesiadau.

Tiwtor Anabledd

Gweithio'n agos â'r Tiwtor Anabledd eich cwrs.

Offer Cefnogol

Trefnu benthyg offer e.e. recordydd digidol.

Ystafelloedd Cynorthwyol

Trefnu mynediad i Ystafelloedd Technoleg Gynorthwyol.

Lwfans Myfyriwr Anabl

Eich cynorthwyo i wneud cais am Lwfans Myfyriwr Anabl.

Asesu Gofynion Iechyd Meddwl

Mae ein tîm o Gynghorwyr Iechyd Meddwl yn asesu anghenion iechyd meddwl ac yn darparu gwybodaeth am faterion iechyd meddwl, a'r gwasanaethau a'r gefnogaeth posib fydd ar gael.

Dyslecsia, Dyspracsia, AD(H)D

Rhoi cyngor a chefnogaeth arbenigol i fyfyrwyr dyslecsig, dyspracsig ac AD(H)D.

CEFNOGAETH ASTUDIO

"Rydym yn ffodus iawn i fod mewn Prifysgol sy'n pwysleisio pwysigrwydd llais y myfyrwyr ac yn gwrando ar farn a phryderon myfyrwyr."

Branwen Roberts, o Bontypridd, sy'n astudio Cymraeg



Cefnogaeth Astudio sy'n cynnwys:

- Tiwtor Personol i roi cyngor a chefnogaeth.
- Cefnogaeth ychwanegol gan y Ganolfan Sgiliau Astudio sy'n cynnwys help efo ysgrifennu academaidd, adolygu, mathemateg ac ystadegau.
- Adnoddau sy'n cefnogi pynciau penodol gan gynnwys llong ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, sganiwr MRI, Gerddi Botaneg ac amgueddfa Byd Natur.
- Gwella cefnogaeth astudio'n barhaus, gan gynnwys uwchraddio gwerth £1.5 o ofodau dysgu ar hyd y campws.
- Buddsoddiad ychwanegol yng ngwasanaeth y llyfrgell, gan gynnwys oriau agor 24/7 ar y prif safleoedd.

Tiwtor Personol

Pan ddewch yn fyfyriwr, cewch Diwtor Personol. Byddwch yn cyfarfod yn rheolaidd â'ch Tiwtor Personol trwy gydol eich cwrs, a bydd ef/hi yno i roi cyngor a chefnogaeth i chi ar faterion personol ac academaidd.

Mae'r cyfarfodydd efo'ch Tiwtor Personol yn ffordd o gael adborth rheolaidd ar eich cynnydd academaidd, i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich cwrs ac i wireddu eich llawn botensial. Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd yma, gallwch ofyn i gael gweld eich Tiwtor Personol ar unrhyw adeg arall i gael cyngor a chefnogaeth. Bydd eich Tiwtor yn gwneud y gorau i'ch helpu neu, os oes angen, i'ch cyfeirio at aelod arall o staff neu wasanaeth am gefnogaeth neu arweiniad.

Canolfan Sgiliau Astudio

Mae'r Ganolfan Sgiliau Astudio yn gallu helpu trwy ddarparu cefnogaeth gyda gwaith academaidd. Mae'r Ganolfan yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu i unigolion a grwpiau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.bangor.ac.uk/sgiliauastudio**

Apwyntiadau sgiliau ysgrifennu a sgiliau astudio unigol

Gallwch drefnu apwyntiad unigol gydag Ymgynghorwyr Astudio i drafod anghenion unigol ac i ganolbwyntio ar waith ar gyfer eich aseiniadau.

Adnoddau Ar-lein

Mae ein gwefan yn cynnwys canllawiau astudio ar gyfer ysgrifennu, darllen ac ymchwilio, sgiliau cyfathrebu llafar, cyfeiriadau ar ffynonellau, a sgiliau arholiadau.



Mathemateg ac Ystadegau

Mae ein gwasanaeth mathemateg ac ystadegau yn darparu cymorth wedi ei deilwra ar gyfer pecynnau a chysyniadau ystadegol, a hefyd cymorth gyda rhifedd sylfaenol.

Gweithdai Sgiliau Academaidd

Gall y pynciau'n gynnwys: rheoli astudiaeth academaidd; dadansoddi gofynion tasgau; darllen yn feirniadol; defnyddio gwaith awduron eraill, datblygu eich ymchwil, a manteisio i'r eithaf ar arholiadau.

ADNODDAU DYSGU

Mae gennym gyfleusterau TG helaeth i chi eu defnyddio, pedair llyfrgell, cyfleusterau pwrpasol ym maes y Cyfryngau a Chanolfan Sgiliau Astudio. Mae staff yma i'ch helpu i gael y budd gorau o'n hadnoddau yn ystod eich cyfnod ym Mangor.



Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth

Mae gennym nifer o ystafelloedd/mannau cyfrifiadurol (rhai yn agored 24/7) ac mae mynediad di-wifr a socedi ar gyfer gliniaduron hefyd ar gael ar draws y campws. Mae gan bob ystafell wely yn neuaddau Prifysgol Bangor fynediad di-wifr i'r rhyngrwyd (mae gan rai gysylltiad gwifr hefyd). Mae'r cyflymder yn cyfateb i fandeang domestig ffibr lleol.

Dysgu Ar-lein a Recordio Darlithoedd

Mae Blackboard, amgylchedd dysgu ar-lein y Brifysgol, ar gael i bob defnyddiwr ar y campws ac oddi ar y campws. Os yw darlithydd wedi dewis defnyddio'r system recordio darlithoedd Panopto, mae'r system yn recordio'r sain â'r hyn sy'n ymddangos ar y cyfrifiadur (e.e. sleidiau PowerPoint).

fyMangor

Mae *fyMangor* yn rhoi mynediad ar-lein at wybodaeth a gwasanaethau i'ch cefnogi yn y Brifysgol. Er enghraifft, trwy *fyMangor* gallwch:

- gofrestru gyda'r Brifysgol a gweld eich amserlen a chalendr personol
- weld y marciau a gawsoch a rhoi sylwadau ar fodiwlau rydych wedi'i astudio
- weld eich cyfrif ariannol gyda'r Brifysgol
- weld eich Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (os oes gennych un).



Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau

- Mae ein pedair llyfrgell yn darparu amgylchedd astudio deniadol sy'n cynnwys gofodau dysgu distaw.
- Gellir mynd at y rhan fwyaf o adnoddau electronig 24/7.
- Ceir gwasanaeth wi-fi yn ein holl lyfrgelloedd, yn ogystal ag ystafelloedd cefnogi astudio, gydag offer technoleg gynorthwyol a boglynwyr Braille.
- Mae gan yr Archif a Chasgliadau Arbennig gasgliad pwysig o lawysgrifau, casgliadau archifol ac amrywiaeth o lyfrau a deunydd printiedig prin sy'n cael eu hystyried yn ddeunydd ymchwil a dysgu gwerthfawr yn fyd-eang.

Adnoddau arbenigol ar gyfer pynciau

Mae gennym ystod o adnoddu dysgu eraill sy'n cefnogi pynciau penodol. Mae rhain yn cynnwys:

- Canolfan laith amlgyfrwng
- Llong ymchwil sy'n rhoi profiad ymarferol o'r môr
- Acwaria môr traofannol, môr tymherus a dŵr croyw
- Amgueddfa Hanes Anianol
- Sganiwr MRI gwerth £1.5M
- Gerddi Botaneg o 45 acer ar lannau'r Fenai – sy'n gartref hefyd i'r wiwerod coch brodorol a chytref o grëyr glas
- Ffarm gyda rhaglen ymchwil mewn cnydau, coedamaeth, a'r gwyddorau amgylcheddol.



MYFYRWYR HŶN

Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn a byddem yn gwneud ein gorau i'ch helpu a'ch cefnogi yn ystod eich amser yma.





Efallai eich bod yn ystyried astudio yma'n llawn-amser, neu os ydych yn byw'n lleol, efallai bod astudio'n rhan-amser yn apelio.

- Ymysg y gwasanaethau a fydd o ddiddordeb i chi fydd y Cynghorydd Myfyrwyr Hŷn yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr, y cyngor a'r gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan yr Uned Cefnogaeth Ariannol, a'r gefnogaeth ym maes Sgiliau Astudio sy'n cael ei gynnig gan y Ganolfan Sgiliau Astudio (gwelwch dudalen 49).
- Yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr mae Cynghorydd Myfyrwyr Hŷn ar gael i gynnig cymorth gydag amrywiaeth o faterion.
- Mae gan Undeb y Myfyrwyr Seneddwr Myfyrwyr Hŷn i sicrhau bod anghenion myfyrwyr hŷn yn cael eu cynrychioli.
- Mae'r Ganolfan Sgiliau Astudio yn cynnig gweithdai ac adnoddau i gefnogi myfyrwyr yn ystod y broses o ddechrau yn y Brifysgol a symud ymlaen trwyddi.
- Gall yr Uned Cefnogaeth Ariannol roi cyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr hŷn.

Rydym yn eich annog i gysylltu â'r Cynghorydd Myfyrwyr Hŷn am fwy o wybodaeth am yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr hŷn.

Gwasanaethau Myfyrwyr
Ff: 01248 383637
E: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk

Ariannu eich astudiaethau

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol, efallai byddwch yn gymwys i gael cefnogaeth ariannol ychwanegol. Er enghraifft, gall myfyrwyr sy'n rhieni ac sy'n gymwys am gymorth ychwanegol gael Grant Gofal Plant neu Lwfans Dysgu i Rieni, ac mae hefyd grantiau ar gael i rai sydd ag oedolion sy'n ddibynnol arnynt.

Mae gennym hefyd Gronfa Caledi i gynorthwyo myfyrwyr sy'n profi caledi ariannol annisgwyl.

Uned Cefnogaeth Ariannol,
Gwasanaethau Myfyrwyr
Ff: 01248 383566/383637
E: cefnogaethariannol@bangor.ac.uk



CYLLD MYFYRWYR

Mae cyngor ar gael cyn i chi ymgeisio a thra rydych yn astudio yn y Brifysgol trwy Wasanaethau Myfyrwyr.

Mae'n werth cofio bod byw ym Mangor yn cymharu'n rhad o gymharu â chostau byw mewn nifer o ddinasoedd a threfi prifysgol eraill. Yn ôl arolwg gan *Totally Money*, Bangor yw'r lle mwyaf fforddiadwy i astudio yn y DU.



Ffioedd Dysgu

£9,000 y flwyddyn oedd y ffi ddysgu yn 2020/21 am gwrs israddedig, llawn-amser. Bydd y ffi yn cael lleihau am unrhyw semester o gwrs sy'n cael ei ddilyn dramor. Nid yw'r ffi ddysgu ar gyfer 2021/22 wedi ei phennu eto felly fe'ch cynghorwn i fynd i'n gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf: **www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr**

Nid oes raid i chi dalu unrhyw ffioedd dysgu tra ydych yn astudio (er y gallwch wneud hynny os dymunwch). I fyfyrwyr sy'n astudio eu cwrs Addysg Uwch cyntaf, caiff y taliad ei ohirio nes ar ôl i chi raddio trwy **Fenthyciad Ffi Ddysgu.** Byddwch yn dechrau ad-dalu eich benthyciad cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ennill dros £25,725 y flwyddyn. Caiff y Benthyciad Ffi Ddysgu ei dalu'n uniongyrchol i'r Brifysgol i dalu'r ffioedd ar eich rhan.

Costau Cwrs Ychwanegol

Mae rhain yn amrywio o gostau sy'n berthnasol i fodiwl gorfodol neu graidd y bydd rhaid i chi ei gwblhau i gyflawni eich cymhwyster (e.e. teithiau maes gorfodol, gwisg i fyfyrwyr ar leoliad, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd); costau sy'n berthnasol i aelodaeth corff proffesiynol, costau teithio i leoliad gwaith, meddalwedd arbenigol, cyfarpar diogelwch personol, neu gostau dewisol fel digwyddiadau graddio ar gyfer eich cwrs, teithiau maes dewisol neu deithiau yn ystod yr Wythnos Groeso. Am fanylion costau ar gyfer cyrsiau penodol, gweler y disgrifiadau cwrs ar y wefan.

Talu eich Costau Byw

Yn 2020/21 mae gan fyfyrwyr cymwys o Gymru hawl i dderbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, sy'n grant i'ch helpu gyda chostau byw fel llety, bwyd, llyfrau, dillad a theithio. Yn 2020/21, bydd lleiafswm o £1,000 ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n byw yng Nghymru a gall myfyrwyr hefyd fod yn gymwys am grant ychwanegol, wedi asesiad incwm y cartref. Nid oes rhaid ei dalu'n ôl.

Mae gan fyfyrwyr Prifysgol hefyd hawl i dderbyn Benthyciad Cynhaliaeth (a gyfeirir ato weithiau fel benthyciad costau byw) i'ch helpu gyda chostau byw fel llety, bwyd, llyfrau, dillad a theithio. Mae'n rhaid i fenthyciad costau byw gael ei ad-dalu unwaith y byddwch wedi gorffen eich cwrs ac yn ennill mwy na £25,725. Fe'ch cynghorwn i fynd i'n gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf: **www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr**

Mae costau byw ym Mangor yn is yn gyffredinol nag mewn rhannau eraill o wledydd Prydain. Fodd bynnag, mae llawer o fyfyrwyr yn cael gwaith rhan-amser neu achlysurol yn ystod y gwyliau ac/neu adeg tymor i helpu gyda'u costau. Mae gennym ein swyddfa cyflogaeth myfyrwyr ein hunain a all eich helpu i gael hyd i rywbeth addas (gweler tudalen 36).



Crynodeb Cyllid i fyfrwyr o Gymru

Mae'r holl ffigyrau isod ar gyfer 2020 – ewch i'r wefan am y diweddaraf: **www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr**

Gall myfyrwyr o Gymru sy'n astudio am eu gradd gyntaf wneud cais am **Fenythciad Ffi Ddysgu** gwerth £9,000, y byddwch yn dechrau ei ad-dalu pan fyddwch yn ennill dros £25,725 y flwyddyn.

Bydd Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gwerth lleiafswm o £1,000 ar gael i fyfyrwyr cymwys. Nid oes rhaid ei dalu'n ôl. Gall myfyrwyr hefyd fod yn gymwys am grant ychwanegol wedi asesiad incwm y cartref.

Mae gan fyfyrwyr hefyd hawl i dderbyn Benthyciad Cynhaliaeth i'ch helpu gyda chostau byw, y byddwch yn dechrau ei ad-dalu pan fyddwch yn ennill dros £25,725 y flwyddyn.

Gwybodaeth am Ffioedd a Benthyca

Oherwydd bod y prospectws yma'n cael ei baratoi gryn amser ymlaen llaw, rydym yn eich cynghori i geisio'r wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd a benthyciadau. Cysylltwch ag:

Uned Cymorth Ariannol Gwasanaethau Myfyrwyr, Prifysgol Bangor, Bangor LL57 2DG
Ff: 01248 383566/383637
E: cymorthariannol@bangor.ac.uk

Cyllid Myfyrwyr Cymru
Ff: 0300 200 4050
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

BWRSARIAETHAU

Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl mewn prifysgol sy'n rhoi cryn bwyslais ar gynorthwyo myfyrwyr, rydyn ni'n awyddus i gynnig help ychwanegol i fyfyrwyr newydd.



Bwrsariaethau Astudio Trwy'r Gymraeg

Fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaethau i gynorthwyo'r rheini sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cynllun bwrsariaethau yn golygu fod bwrsariaethau o £250 y flwyddyn ar gael i'r rhai sy'n dewis astudio mwy na 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Bwrsariaethauar gyfer 2021 ar gael ar wefan y Brifysgol pan fydd y manylion wedi eu cadarnhau.

Bwrsariaethau Cychwyn

Mae Bwrsariaethau Cychwyn o £1,000 ar gael i'r rhai sy'n dod i'r Brifysgol o ofal. Bwriad y bwrsariaethau cychwyn yw talu am y llyfrau, y cyfarpar, y teithio a'r cymhorthion astudio sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Unwaith yn unig yn ystod y flwyddyn gyntaf y bydd y bwrsariaethau hyn yn cael eu talu. Nid oes rhaid eu talu'n ôl.

Bwrsariaethau i Adleoli Teuluoedd

Mae'r fwrsariaeth hon o hyd at £1,000 ar gael yn y flwyddyn academaidd gyntaf yn unig. Os ydych chi yn adleoli gyda'ch teulu i ddechrau eich astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor a'ch bod yn fyfyriwr isradd o'r Deyrnas Unedig gydag incwm trethadwy o £25,000 neu lai, yna gallech fod â hawl i'r fwrsariaeth yma.

Bwrsariaethau i fyfyrwyr digartref

Os nad oedd gennych gartref sefydlog cyn i chi ddechrau gyda'ch astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor, gallech wneud cais am y fwrsariaeth £500 hon i'ch helpu gyda'ch costau prifysgol cychwynnol. Mae'r fwrsariaeth hon ar gael yn y flwyddyn academaidd gyntaf yn unig.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bwrsariaethau ac ysgoloriaethau?

Dyfernir bwrsariaethau yn ôl meini prawf penodol. Ar yr amod eich bod yn ateb y meini prawf ac wedi llenwi'r ffurflen briodol ar gyfer cynhaliaeth i fyfyrwyr, dylech dderbyn y fwrsariaeth berthnasol yn awtomataidd.

Teilyngdod yw maen prawf y rhan fwyaf o'r Ysgoloriaethau a gynigir gan y Brifysgol. Er enghraifft, gall y rhai sy'n rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol ennill Ysgoloriaethau Teilyngdod gwerth hyd at £3,000.



YSGOLORIAETHAU

Mae Bangor yn cynnig cynllun ysgoloriaeth hael, gyda myfyrwyr israddedig newydd yn derbyn rhyw £100,000 bob blwyddyn.



Ysgoloriaethau Mynediad ac Ysgoloriaethau Teilyngdod

Fel rhan o gynllun Ysgoloriaethau Mynediad Bangor, mae oddeutu 40 Ysgoloriaeth Deilyngdod o hyd at £3,000 yr un ar gael i'r rheiny sy'n rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad blynyddol y Brifysgol. I gael eich ystyried ar gyfer yr Ysgoloriaethau Teilyngdod ac Ysgoloriaethau Mynediad eraill, mae'n rhaid i chi:

- lenwi ffurflen gais yr Ysgoloriaethau Mynediad (15 Ionawr 2021 yw'r dyddiad cau ar gyfer Ysgoloriaethau Mynediad 2021)
- sefyll arholiad yn eich dewis bwnc (bydd yr arholiad yn cael ei gynnal yn eich ysgol/coleg ar ddyddiad penodol ym mis Ionawr).

Mae Ysgoloriaethau Mynediad Bangor hefyd yn cynnwys nifer o ysgoloriaethau cronfeydd ymddiriedolaeth, sawl ysgoloriaeth mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru'n eu dyfarnu, ac ysgoloriaethau pwnc fel Ysgoloriaethau y Gyfraith, Ysgoloriaeth Addysg, Ysgoloriaethau Peirianneg Electronig, Ysgoloriaethiau Cyfrifiadureg.

Ysgoloriaethau Academaidd

Mae rhai o'r adrannau academaidd yn cynnig eu hysgoloriaethau eu hunain, e.e.: Cerddoriaeth, Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg, Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig.

Ysgoloriaeth Chwaraeon

Rydyn yn cynnig Ysgoloriaethau Chwaraeon gwerth hyd at £3,000 y flwyddyn, mewn cynllun sy'n ceisio adnabod potensial a datblygu rhagoriaeth ym maes chwaraeon. Ni fydd rhain wedi eu cyfyngu i unrhyw agwedd arbennig ar chwaraeon nag i fyfyriwr ar unrhyw gwrs penodol. Fodd bynnag, fel rheol, bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i unigolion fydd yn gallu cynrychioli Prifysgol Bangor yng nghystadlaethau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS).

Am fwy o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i:
www.bangor.ac.uk/ysgoloriaethchwaraeon

Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Prif Ysgoloriaethau'r Coleg

Dyma ysgoloriaethau gwerth £1,000 y flwyddyn (£3,000 dros dair blynedd) ar gyfer cyrsiau gradd lle bydd myfyrwyr yn dilyn 240 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg. I ymgeisio, mae gofyn i chi sefyll ein arholiad Ysgoloriaethau Mynediad (manylion ar dudalen 58).

Ysgoloriaethau Cymhelliant

Yn seileidig ar ffigyrau 2020, mae Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gwerth £500 y flwyddyn (£1,500 dros dair blynedd) ar gael ar gyfer cyrsiau gradd lle bydd myfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Am y manylion mwyaf diweddar ewch i'r wefan:
www.colegcymraeg.ac.uk



Am fwy o wybodaeth

Marchnata, Rectiwtio a Chyfathrebu
Ff: 01248 383561/382005
E: marchnata@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/bwrsariaethau

GWNEUD CAIS I ASTUDIO YM MANGOR

Gofynion Mynediad

Yr ydym wedi ymrwymo i ehangu cyfle i fynd i Addysg Uwch a byddwn yn derbyn myfyrwyr gydag ystod eang o gymwysterau a chefndiroedd. Byddwn yn ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun – gan asesu eich potensial i lwyddo ar y cwrs ac elwa ohono. Bydd angen i chi feddu ar safon dda o lythrennedd a rhifedd. Yr ydym hefyd yn rhoi gwerth ar sgiliau TG a chyfathrebu da. Efallai bydd y Brifysgol yn gallu ymateb yn hyblyg i'ch cais os na fydd eich canlyniadau yn cyfateb yn union i delerau eich cynnig gwreiddiol.



Isafswm Gofynion

Os ydych yn gwneud cais am gwrs gradd, yna dylai cyfanswm y pwyntiau gynnwys o leiaf dau GCE lefel A neu gymwysterau cyfatebol. Ar gyfer rhaglenni tystysgrif a diploma, fel rheol bydd arnoch angen o leiaf un lefel A neu gyfatebol neu ddau lefel AS neu lwyddiannau cyfatebol. Bydd gofynion mynediad manylach yn cael eu rhoi ar dudalen y cwrs unigol.

Am eglurhad llawn o system tariff UCAS, ewch i:
www.ucas.com/ucas/undergraduate/getting-started/entry-requirements/ucas-undergraduate-tariff-points

Cyrsiau Mynediad a derbyn yn hŷn

Byddwn yn croesawu eich cais os ydych yn dilyn cwrs Mynediad a ddilyswyd. Yr ydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn fedr ddangos y symbyliad a'r ymrwymiad i astudio rhaglen brifysgol.

Bagloriaeth Ryngwladol

Fel rheol, dylech fod wedi cael y diploma llawn a gall cynigion amrywio yn ôl y cwrs yr ydych yn gwneud cais amdano.



Pryd i wneud cais

Rydym yn eich cynghori i wneud cais cyn gynted ag y gellwch gan y byddwn yn dechrau ystyried ceisiadau a gwneud cynigion yn syth. Ar gyfer mynediad i'r Brifysgol yn 2021 dylai myfyrwyr wneud cais rhwng 1 Medi 2020 a 15 Ionawr 2021.

Ceisiadau Hwyr

Bydd ceisiadau ar ôl y dyddiadau uchod yn dal i gael eu hystyried gan fod rhai lleoedd yn aml yn dal ar gael.

Sut i wneud cais

Yn achos pob cwrs addysg uwch llawn-amser dylech wneud cais ar-lein lle mae cyfarwyddiadau llawn a hawdd eu dilyn ar lenwi eich cais: **www.ucas.com** (**Ff:** 0371 468 0468). Wrth gwblhau eich cais, dylech roi cod UCAS Prifysgol Bangor Bangr **B06** ynghyd â chod y cwrs a ffurf fer teitl y cwrs (e.e. N400 BA/AF Cyfrifeg a Chyllid). Nodir y codau a'r talfyriadau ar dudalennau perthnasol y prosbectws hwn ac ar wefan UCAS.

Sicrhewch fod yr holl wybodaeth a roddwch i gefnogi eich cais yn gywir ac yn gyflawn. Bydd cynigion fel rheol yn cael eu seilio ar y wybodaeth yma a gall unrhyw fanylion anghywir neu esgeulustra annilysu'r cynnig.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddfa Dderbyniadau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2TF.
Ff: 01248 383717
E: derbyniadau@bangor.ac.uk

Beth sy'n digwydd ar ôl gwneud cais?

Ar ôl i ni dderbyn eich cais gan UCAS, mae ein Swyddfa Derbyniadau'n gweithio'n agos â'r Ysgol academaidd berthnasol i ystyried a allwn wneud cynnig i chi; gall hwn fod yn amodol ar i chi gael graddau penodol yn yr arholiadau y byddwch yn eu sefyll. Yna bydd y Swyddfa Derbyniadau'n anfon manylion am y cynnig at UCAS a fydd yn rhoi gwybod i chi'n swyddogol am ein penderfyniad.

Ar ôl i chi gael cynnig lle, bydd yr Ysgol academaidd yn cysylltu â chi fel rheol gyda gwybodaeth bellach a'ch gwahodd i ymweld ag un o Ddiwrnodiau Ymweld i Ymgeiswyr UCAS a gynhelir rhwng Ionawr ac Ebrill. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i chi gyfarfod â staff dysgu, cael taith o amgylch Bangor a'r ardal gyfagos, a gweld y gwahanol gyfleusterau.

Myfyrwyr Anabl

Rydym yn annog ceisiadau gan fyfyrwyr anabl, gan gynnwys rhai â chyflyrau iechyd hir-dymor, anawsterau iechyd meddwl a gwahaniaethau dysgu, megis dyslecsia neu ddyspracsia. Rydym yn anelu at ddarparu cyfle cyfartal i bob myfyriwr. Os ydych yn anabl, neu gydag anghenion ychwanegol, rydym yn eich annog i roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn wneud trefniadau priodol lle bo'r angen. Gall hyn gynnwys anghenion o ran llety, mynediad i adeiladau, gweithwyr cefnogi, neu addasiadau i addysgu ac asesu.

Cysylltwch â'r Gwasanaethau Anabledd cyn gynted â phosibl i gael gwybod mwy ynglŷn â pha addasiadau fydd eu hangen efallai tra byddwch yma ym Mangor.

Os rydych yn derbyn gwahoddiad i Ddiwrnod Agored, yna mae croeso i chi gysylltu ag un o'r Cynghorwyr os oes gennych ofynion penodol neu os hoffech gyfarfod i drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gwasanaethau Anabledd
Ff: 01248 383620/382032
E: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr/anabledd





PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

bangor.ac.uk

GRADDAU CYD-ANRHYDEDD

Gallwch ddewis astudio dau bwnc er mwyn ennill gradd gyd-anrhydedd.

Dyma restr o'r graddau cyd-anrhydedd y gellir eu hastudio'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy'r Gymraeg.
Mae teitlau yn y Gymraeg ar gael drwy'r Gymraeg, tra dysgir teitlau Saesneg drwy'r Saesneg.

Gweler tudalennau yr Ysgolion unigol am ragor o fanylion: mae nifer o fodiwlau unigol ar gael yn y Gymraeg. Am yr holl raddau cyd-anrhydedd, edrychwch ar y prospectws ar-lein ar wefan y Brifysgol.

Bydd teitl eich gradd yn dibynnu ar y pynciau yr ydych wedi dewis eu cyfuno (e.e. BA (Anrhydedd) Cymraeg a Hanes). Bwriwch olwg ar un o'r pynciau yr ydych am eu hastudio i weld pa bynciau eraill y gallwch eu cyfuno â'r pwnc hwnnw. Mae'r codau cwrs UCAS hefyd yn cael eu nodi.

* yn amodol ar ddilysiad

Accounting and:

French (4 blynedd)	NR41 BA/FrA
German (4 blynedd)	NR42 BA/GA
Italian (4 blynedd)	NR43 BA/AIt
Spanish (4 blynedd)	NR44 BA/ASp

Archaeology and:

History	V103 BA/HA

Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid:

Cymdeithaseg	X316 BA/APIC
Cymraeg	X321 BA/APC
Psychology	X320 BA/APIS
Polisi Cymdeithasol	X318 BA/APIPC

Astudiaethau'r Cyfryngau a:

Cerddoriaeth	PW33 BA/MSMus

Banking and:

Accounting	NN43 BSc/AccB
French (4 blynedd)	NR31 BA/FrB
German (4 blynedd)	NR32 BA/GB
Italian (4 blynedd)	NR33 BA/BIt
Spanish (4 blynedd)	NR34 BA/BSp

Business and:

Sport Science*	C6N1 BSC/SSB

Business Management and:

Chinese (4 blynedd)	N1T1 BA/BMCH
French (4 blynedd)	N2R1 BA/BMFR
German (4 blynedd)	N2R2 BA/BMG
Italian (4 blynedd)	N2R3 BA/BMI
Spanish (4 blynedd)	N2R4 BA/BMS

Cerddoriaeth ac:

Astudiaethau'r Cyfryngau	PW33 BA/ACC
Athroniaeth a Chrefydd	VVW3 BA/PRM
Creative Studies	WW93BA/CStMus
Creative Writing	WW38BA/MusCW
Cymraeg	QW53 BA/MuW
English Literature	32N6 BA/ELM
Film Studies	WW36 BA/MusFS
Ffrangeg (4 blynedd)	RW13 BA/MuFr
German (4 blynedd)	WR32 BA/MuGe
Hanes a Hanes Cymru	WV32BA/MuHWH
Italian (4 blynedd)	WR33 BA/MuIt
Spanish (4 blynedd)	WR34 BA/MuSp

Childhood and Youth Studies and:

Psychology	X319 BA/CYP
Social Policy	X317 BA/CYSP
Sociology	X315 BA/CYSS

Chinese and:

Business Management	N1T1 BA/BMCH
Cymraeg	T102 BA/CHCY
Economics	L1T1 BA/EcCH
English Language	T123 BA/ELCH
English Literature	T124 BA/LITCH
Film Studies	T125 BA/FSCH
French	T104 BA/CHFR
German	T105 BA/CHG
Italian	T106 BA/CHIT
Linguistics	T101 BA/CHL
Spanish	T107 BA/CHSP

Creative Writing and:

English Literature	2P17 BA/ENCW
Film Studies	P3W8 BA/FSCW
Media Studies	WP83 BA/CWMS
Music	WW38 BA/MusCW

Criminology and Criminal Justice and:

Cymdeithaseg	LM3Y BA/CCCJ
English Literature	3M9Q BA/ELCJ
French (4 blynedd)	MR91 BA/FrCr
German (4 blynedd)	MR92 BA/GCr
Health and Social Care	LM52 BA/HSCCCJ
History	MVX1 BA/HCr
Italian (4 years)	MR93 BA/CrIt
Polisi Cymdeithasol	LM4X BA/PCCJ
Psychology	MC98 BA/CrP
Social Policy	LM49 BA/SPCr
Sociology	LM39 BA/SCr
Spanish (4 blynedd)	MR94 BA/CrSp

Cymdeithaseg ac:

Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid	X316 BA/APIC
Criminology and Criminal Justice	LM39 BA/SCr
Cymraeg	LQH5 BA/SWW
Hanes	LVJ1 BA/HSW
Hanes Cymru	LVH1 BA/SWWH
Health and Social Care	LL3M BA/CHSC

Cymraeg ac:

Astudiaethau Busnes	NQ26 BA/ABCH
Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid	X321 BA/APC
Athroniaeth a Chrefydd	VVQ5 BA/PRW
Cerddoriaeth	QW53 BA/MuW
Cymdeithaseg	LQH5 BA/SWW
English Literature	3Q5Q BA/CEL
Ffrangeg (4 blynedd)	QR51 BA/WFr
German (4 blynedd)	QR52 BA/GW
Hanes	QV51 BA/HW
Hanes Cymru	QVM2 BA/WHW
Italian (4 blynedd)	QR53 BA/ItCy
Linguistics	QQ15 BA/WL
Polisi Cymdeithasol	LQK5 BA/SPWW
Rheolaeth Busnes	Q5N2 BA/CRB
Sociology	LQ35 BA/WS
Spanish (4 blynedd)	QR54 BA/SpCy
Sport Science	CQ65 BA/SpSw
Chinese	T102 BA/CHCY

Economics and:

Chinese	L1T1 BA/EcCH
French (4 blynedd)	LR11 BA/FrEc
German (4 blynedd)	LR12 BA/GEc
History	LV11 BA/HEc
Italian (4 blynedd)	LR13 BA/EcIt
Social Policy	LL14 BA/SPEc
Sociology	LL13 BA/SEc
Spanish (4 blynedd)	LR14 BA/EcSp

Electronic Engineering and:

Music	H6W3 BSc/EEM

English Language and:

Chinese	T123 BA/ELCH
English Literature	QQC3 BA/ELLit
Film Studies	PQ3J BA/FSELan
French (4 blynedd)	QR3C BA/ELFr
German (4 blynedd)	QR3F BA/ELG
Italian (4 years)	QR3H BA/ELIt
Journalism	PQ53 BA/ELJO
Linguistics	Q140 BA/LEla
Psychology	CQ83 BA/ELPsy
Sociology	LQ3J BA/ELSoc
Spanish (4 blynedd)	QR3K BA/ELSp

English Literature and:

Chinese	T124 BA/LITCH
Creative Writing	2P17 BA/ENCW
Criminology and Criminal Justice	3M9Q BA/ECCJ
Cymraeg	3Q5Q BA/CEL
English Language	QQC3 BA/ELLit
Film Studies	3P3Q BA/FSEL
French (4 blynedd)	O6CD BA/FEL
German (4 blynedd)	3N7S BA/GEL
History	3QV1 BA/ELH
Italian (4 blynedd)	O9V3 BA/ELI
Linguistics	1Q3Q BA/ELL
Media Studies	3HPQ BA/MEN
Philosophy and Religion	3VQV BA/PREN
Sociology	3L3Q BA/SEL
Spanish (4 blynedd)	3YTS BA/EL1S

Film Studies and:

Chinese	T125 BA/FSCH
Creative Writing	P3W8 BA/FSCW
English Language	PQ3J BA/FSELan
English Literature	3P3Q BA/FSEL
French (4 blynedd)	PR31 BA/FSFr4
German (4 blynedd)	PR32 BA/FSGer
History	P3V1 BA/FSH
Italian (4 blynedd)	P0R3 BA/FSI
Music	WW36 BA/MusFS
Professional Writing	W6W8 BA/PWF
Spanish (4 blynedd)	PR34 BA/FSSpan4
Hanes Cymru	VP23 BA/WHFS

French and:

Accounting (4 blynedd)	NR41 BA/FrA
Banking (4 blynedd)	NR31 BA/FrB
Business Management (4 blynedd)	NR21 BA/BMFR
Chinese	T104 BA/CHFR
Criminology and Criminal Justice (4 blynedd)	MR91 BA/FrCr
Cymraeg (4 blynedd)	QR51 BA/WFr
Economics (4 blynedd)	LR11 BA/FrEc
English Language (4 blynedd)	QR3C BA/ELFr
English Literature (4 blynedd)	06CD BA/FEL
Film Studies (4 blynedd)	PR31 BA/FSFr4
German (4 blynedd)	RR12 BA/G4F
History (4 blynedd)	RV11 BA/HFr
Italian (4 blynedd)	RR13 BA/FI
Linguistics (4 blynedd)	QR11 BA/LFr
Marketing (4 blynedd)	NR51 BA/MktFr
Music (4 blynedd)	RW13 BA/MuFr
Philosophy and Religion	VVR1 BA/PRF
Spanish (4 blynedd)	RR14 BA/FS
Sport Science	R1C6 BA/FrSpS

German and:

Accounting (4 blynedd)	NR42 BA/GA
Banking (4 blynedd)	NR32 BA/GB
Business Management (4 blynedd)	N2R2 BA/BMG
Chinese	T105 BA/CHG
Criminology and Criminal Justice (4 blynedd)	MR92 BA/GCr
Cymraeg 4 blynedd)	QR52 BA/GW
Economics (4 blynedd)	LR12 BA/GEc
English Language (4 blynedd)	QR3F BA/ELG
English Literature (4 blynedd)	3N7S BA/GEL
Film Studies (4 blynedd)	PR32 BA/FSGer
French (4 blynedd)	RR12 BA/G4F
History (4 blynedd)	RV21 BA/HG
Italian (4 blynedd)	RR23 BA/GI
Linguistics (4 blynedd)	QR12 BA/LG
Marketing (4 blynedd)	NR52 BA/MktGer4
Music (4 blynedd)	WR32 BA/MuGe
Philosophy and Religion	VVR2 BA/PRG
Spanish (4 blynedd)	RR24 BA/GS
Sport Science	R2C6 BA/GSpS

Health and Social Care and:

Criminology and Criminal Justice	LM52 BA/HSCCCJ
Cymdeithaseg	LM3Y BA/CCCJ
Polisi Cymdeithasol	LL5K BA/PCHSC
Social Policy	LL54 BA/HSCSP
Sociology	LL53 BA/HSCS

Hanes ac:

Athroniaeth a Chrefydd	VVV1 BA/PRH
Criminology and Criminal Justice	MVX1 BA/HCr
Cymdeithaseg	LVJ1 BA/HSW
Cymraeg	QV51 BA/HW
Economics	LV11 BA/HEc
English Literature	3QV1 BA/ELH
Ffrangeg (4 blynedd)	RV11 BA/HFr
German (4 blynedd)	RV21 BA/HG
Italian (4 blynedd)	RV31 BA/HIt
Polisi Cymdeithasol	LVK1 BA/SPWH
Spanish (4 blynedd)	RV41 BA/HSp

Hanes a Hanes Cymru a:

Cerddoriaeth	WV32BA/MuHWH

Hanes Cymru ac:

Athroniaeth a Chrefydd	VVV2 BA/PRWH
Cymdeithaseg	LVH1 BA/SWWH
Cymraeg	QVM2 BA/WHW
Film Studies	VP23/BA/WHFS
Polisi Cymdeithasol	LVL1 BA/SPWWH

History and:

Archaeology	V103 BA/HA
Criminology and Criminal Justice	MVX1 BA/HCr
Cymraeg	QV51 BA/HW
Economics	LV11 BA/HEc
English Literature	3QV1 BA/ELH
Film Studies	P3V1 BA/FSH
French (4 blynedd)	RV11 BA/HFr
German (4 blynedd)	RV21 BA/HG
Italian (4 blynedd)	RV31 BA/HIt
Philosophy and Religion	VVV1 BA/PRH
Social Policy	LV41 BA/SPH
Sociology	LV31 BA/SH
Spanish (4 blynedd)	RV41 BA/HSp

History and Welsh History and:

Music	WV32 BA/MuHWH

Italian and:

Accounting (4 blynedd)	NR43 BA/Alt
Banking (4 blynedd)	NR33 BA/Blt
Business Management (4 blynedd)	N2R3 BA/BMI
Chinese	T106 BA/CHIT
Criminology and Criminal Justice (4 blynedd)	MR93 BA/CrIt
Cymraeg (4 blynedd)	QR53 BA/ItCy
Economics (4 blynedd)	LR13 BA/EcIt
English Language (4 blynedd)	QR3H BA/ELIt
English Literature (4 blynedd)	09V3 BA/ELI
Film Studies (4 blynedd)	P0R3 BA/FSI
French (4 blynedd)	RR13 BA/FI
German (4 blynedd)	RR23 BA/GI
History (4 blynedd)	RV31 BA/HIt
Linguistics (4 blynedd)	QR13 BA/ItL
Marketing (4 blynedd)	NR53 BA/MktItal
Music (4 blynedd)	WR33 BA/Mult
Philosophy and Religion	VVR3 BA/PRI
Spanish (4 blynedd)	RR43 BA/SI
Sport Science	CR6H BA/ItSSc

Journalism and:

English Language	PQ53 BA/ELJO
Media Studies	PP53 BA/JMS

Linguistics and:

Chinese	T101 BA/CHL
Cymraeg	QQ15 BA/WL
English Language	Q140 BA/LEIa
English Literature	1Q3Q BA/ELL
French (4 blynedd)	QR11 BA/LFr
German (4 blynedd)	QR12 BA/LG
Italian (4 blynedd)	QR13 BA/ItL
Psychology	Q1C8 BA/LP
Sociology	LQ31 BA/SL
Spanish (4 blynedd)	QR14 BA/LSp

Marine Biology and:

Marine Biology and Oceanography	F17 BSc/MBO
Marine Biology and Zoology	CC13 BSc/BMZ

Marketing and:

French (4 blynedd)	NR51 BA/MktFr
German (4 blynedd)	NR52 BA/MktGer4
Italian (4 blynedd)	NR53 BA/MktItal
Spanish (4 blynedd)	NR54 BA/MktSp
Sport Science*	C6N5 BSC/SSM

Media Studies and:

Creative Writing	WP83 BA/CWMS
English Literature	3HPQ BA/MEN
Journalism	PP53 BA/JMS
Music	PW33 BA/MSMus
Professional Writing	P3W9 BA/PWM
Sociology	LP33 BA/MSSoc

Music and:

Creative Writing	WW38 BA/MusCW
Cymraeg (Welsh)	QW53 BA/MuW
Electronic Engineering	W3H6 BA/MEE
English Literature	32N6 BA/ELM
French (4 blynedd)	RW13 BA/MuFr
Film Studies	WW36 BA/MusFS
German (4 blynedd)	WR32 BA/MuGe
Hanes a Hanes Cymru	WV32 BA/MuHWH
Italian (4 blynedd)	WR33 BA/Mult
Media Studies	PW33 BA/MSMus
Philosophy and Religion	VVW3 BA/PRM
Spanish (4 blynedd)	WR34 BA/MuSp
Hanes Cymru	VW2H BA/WH

Philosophy and Religion and:

Cymraeg	VVQ5 BA/PRW
English Literature	3VQV BA/PREN
French	VVR1 BA/PRF
German	VVR2 BA/PRG
History	VVV1 BA/PRH
Italian	VVR3 BA/PRI
Music	VVW3 BA/PRM
Spanish	VVR4 BA/PRS
Hanes Cymru	VVV2 BA/PRWHH

Physical Geography and:

Oceanography	F840 BSC/PGO

Polisi Cymdeithasol ac:

Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid	X317 BA/APIPC
Criminology and Criminal Justice	LM49 BA/SPCr
Cymraeg	LQK5 BA/SPWW
Hanes	LVK1 BA/SPWH
Hanes Cymru	LVL1 BA/SPWWH
Health and Social Care	LL54 BA/HSCSP

Professional Writing and:

Film	W6W8 BA/PWF
Media	P3W9 BA/PWM

Psychology and:

Childhood and Youth Studies	X319 BA/CYP
Criminology and Criminal Justice	MC98 BA/CrP
English Language	CQ83 BA/ELPsy
Linguistics	Q1C8 BA/LP
Social Policy	CL84 BA/SPP
Sociology	CL83 BA/SP

Social Policy and:

Childhood and Youth Studies	X317 BA/CYSP
Criminology and Criminal Justice	LM49 BA/SPCr
Economics	LL14 BA/SPEc
Health and Social Care	LL54 BA/HSCSP
History	LV41 BA/SPH
Psychology	CL84 BA/SPP
Sociology	LL34 BA/SocSP

Sociology and:

Childhood and Youth Studies	X315 BA/CYSS
Criminology and Criminal Justice	LM39 BA/SCr
Cymraeg	LQ35 BA/SW
Economics	LL13 BA/SEc
English Language	LQ3J BA/ELSoc
English Literature	3L3Q BA/SEL
Health and Social Care	LL53 BA/HSCS
History	LV31 BA/SH
Linguistics	LQ31 BA/SL
Media Studies	LP33 BA/MSSoc
Psychology	CL83 BA/SP
Social Policy	LL34 BA/SocSP
Hanes Cymru	LVH3 BA/WHS

Spanish and:

Accounting (4 blynedd)	NR44 BA/ASp
Banking (4 blynedd)	NR34 BA/BSp
Business Management (4 blynedd)	N2R4 BA/BMS
Creative Studies (4 blynedd)	WR94 BA/CStSp
Chinese	BA/CHSp
Criminology and Criminal Justice (4 blynedd)	MR94 BA/CrSp
Cymraeg (4 blynedd)	QR54 BA/SpCy
Economics (4 blynedd)	LR14 BA/EcSp
English Language (4 blynedd)	QR3K BA/ELSp
English Literature (4 blynedd)	3YTS BA/EL1S
Film Studies (4 blynedd)	PR34 BA/FSSSpan4
French (4 blynedd)	RR14 BA/FS
German (4 blynedd)	RR24 BA/GS
History (4 blynedd)	RV41 BA/HSp
Italian (4 blynedd)	RR43 BA/SI
Linguistics (4 blynedd)	QR14 BA/LSp
Marketing (4 blynedd)	NR54 BA/MktSp
Music (4 blynedd)	WR34 BA/MuSp
Philosophy and Religion	VVR4 BA/PRS
Sport Scicence	CR6K BA/SpSSc

Sport Science and:

Business*	C6N1 BSC/SSB
Cymraeg	CQ65 BA/SpSW
French	R1C6 BA/FrSpS
German	R2C6 BA/GSpS
Italian	CR6H BA/ItSSc
Marketing*	C6N5 BSC/SSM
Spanish	CR6K BA/SpSSc

Welsh History and:

Cymraeg	QVM2 BA/WHW
Film Studies	VP23 BA/WHFS
Music	VW2H BA/WH
Philosophy and Religion	VVV2 BA/PRWH
Sociology	LVH2 BA/WHS

GWYDDORAU'R AMGYLCHEDD, COEDWIGAETH, DAEARYDDIAETH A CHADWRAETH

- **Applied Terrestrial and Marine Ecology BSc**
- **Conservation with Forestry BSc**
- **Environmental Conservation BSc**
- **Environmental Science BSc/MEnvSci**
- **Forestry BSc**
- **Geography BA/BSc/MGeog**
- **Geography with Environmental Forestry BSc**
- **Wildlife Conservation BSc**

Graddau Cysylltiedig

- Physical Geography and Oceanography (tud 95)
- Geological Oceanography (tud 94 a tud 99)
- Marine Environmental Studies (tud 97)
- Ocean Science (tud 96)
- Zoology with Animal Behaviour (tud 82)
- Zoology with Conservation (tud 83)
- Zoology with Marine Zoology (tud 85)
- Zoology with Climate Change Studies (tud 79)
- Zoology with Primatology (tud 80)
- Zoology with Ornithology (tud 81)

APPLIED TERRESTRIAL AND MARINE ECOLOGY
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C180 BSc/ATME; C183 BSc/ApTME (gyda lleoliad)
Hyd: 3 blynedd (4 blynedd gyda lleoliad)

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 120 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A i gynnwys gradd C mewn pwnc gwyddonol ar lefel A2 (e.e. Bioleg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddorau/Astudiaethau'r Amgylchedd, Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Economeg, Ystadegau, Seicoleg). Ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn pwnc gwyddonol)
- Mynediad: Cwrs Mynediad Gwyddonol/ Amgylcheddol
- Diploma BTEC Cenedlaethol/Estynedig mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reolaeth Anifeiliaid: DDM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reolaeth Anifeiliaid: Rhagoriaeth
- Diploma Technegol Estynedig Uwch City & Guilds mewn Rheolaeth Tir a Bywyd Gwyllt: Rhagoriaeth
- Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt mewn Sgiliau Labordy: DDM
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Bydd y radd hon yn eich dysgu i gymhwyso gwyddorau ecolegol i anghenion go iawn rheolaeth gynaliadwy a chadwraeth adnoddau naturiol ar draws ecosystemau daear a môr. Mae syniadau cyfredol ym maes rheolaeth amgylcheddol yn cydnabod yr angen am arferion cyfannol sy'n cydnabod bod cydberthynas rhwng amgylcheddau daearol a dyfrol. Yn ogystal ag astudio ecoleg sylfaenol, byddwch yn datblygu sgiliau sy'n eich galluogi i asesu effaith penderfyniadau polisi ar reolaeth. Byddwch yn barod ar gyfer y farchnad swyddi yn y dyfodol wrth i sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat roi sylw cynyddol i gynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol eu gweithrediadau.

PAM DEWIS BANGOR?
- Dyma'r unig gwrs o'i fath sy'n cael ei gynnig gan brifysgolion y Deyrnas Unedig, a gellir ei gynnal oherwydd bod Bangor yn flaenllaw o ran arbenigedd rhyngwladol ym maes gwyddorau'r ddaear a'r môr.
- Mae'r cwrs gradd yn cynnwys cyfuniad unigryw o fodiwlau'r Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth, Gwyddorau'r Eigion a Gwyddorau Biolegol.
- Mae ein lleoliad yn ddelfrydol ar gyfer gwaith maes - ychydig fetrau'n unig o'r môr, ac mae mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri'n gefnlen ysblennydd i'r ddinas.
- Mae gennym gysylltiadau agos â chyrff amgylcheddol e.e. Cymdeithas Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain sy'n ein helpu i hyfforddi graddedigion sy'n gallu mynd i'r afael â sylfaen wyddonol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac effaith ecolegol penderfyniadau polisi a rheoli ar y defnydd a wneir o dir a dŵr mewn diwydiant ac yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio 120 credyd bob blwyddyn, trwy amrywiaeth o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau a gwaith maes. Mae ein cyrsiau'n rhai modiwlaidd. Er bod rhai modiwlau'n orfodol, o anghenraid, mae eraill yn ddewisol, gan eich galluogi i ymestyn eich astudiaethau i feysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb arbennig i chi.

Blwyddyn 1

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Ecology and Evolution
- Dadansoddiad Data Amgylcheddol
- Tiwtorialau Academaidd
- Ecosystem Function and Services
- Environmental Management and Conservation
- Organismal Diversity

Blwyddyn 2

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Conservation Practice
- Marine Ecology
- Research Methods & GIS
- Cwrs Maes: Environmental Conflict

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- Principles of Conservation
- Behavioural Ecology
- Vertebrate Biology
- Introduction to Herpetology
- Marine Physiology and Behaviour
- Plant Diversity and Conservation

Y Flwyddyn Olaf
Bydd myfyrwyr yn cymryd Marine Conservation and Exploitation fel modiwl gorfodol, a hefyd yn gweithio gyda goruchwyliwr i lunio a chyflawni darn o waith ymchwil gwreiddiol. Mae amrywiaeth eang o fodiwlau dewisol gan gynnwys Forest Ecology, Environmental Policy, Freshwater Ecosystems, Wildlife Ecology and Conservation, Forest Ecology, Ornithology, Primatology, Human Aspects of Conservation. Mae gan fyfyrwyr yr opsiwn o fynd ar gwrs maes i Tenerife am wythnos neu ar gwrs maes trofannol hirach yn Affrica.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r modiwlau sy'n cael eu cynnig yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu yn amrywio o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol a gwaith maes i seminarau a thiwtorialau. Mae'r seminarau a'r tiwtorialau'n canolbwyntio ar ddatrys problemau, datblygu sgiliau astudio ac atgyfnerthu deunydd a addysgir mewn darlithoedd; mae'r awyrgylch hamddenol ac anffurfiol hefyd yn annog trafodaeth fywiog am faterion cyfoes a dadleuol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i asesu cyrsiau ac ar gyfartaledd mae'r rhaniad yn 60% gwaith cwrs a 40% arholiad. Mae pob modiwl yn gwneud defnydd helaeth o Blackboard, sef amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol, sy'n rhoi mynediad uniongyrchol at adnoddau dysgu, dogfennau'r cwrs a nodiadau darlithoedd. Os byddwch yn dewis blwyddyn ar leoliad, byddwch yn treulio eich trydedd flwyddyn yn gweithio gyda sefydliad perthnasol yn magu profiad gyrfa gwerthfawr.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio fel rheolwyr amgylcheddol, ecolegwyr neu ymgynghorwyr cadwraeth yng nghyd-destunau daear a dŵr, yn y Deyrnas Unedig a thramor.
Mae eraill wedi mynd ymlaen i astudiaethau pellach ac i wneud ymchwil. Mae'n bosibl cymryd y cwrs naill ai fel gradd tair blynedd neu dros bedair blynedd gyda blwyddyn ryngosod yn gweithio gyda sefydliad cadwraeth perthnasol yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

Mae 90% o fyfyrwyr yn fodlon gyda'r cwrs
(Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2020)

CONSERVATION WITH FORESTRY
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
5DKD BSc/CWF; 5DLD BSc/CWF4 (gyda blwyddyn ar leoliad)
Hyd: 3 blynedd (4 blynedd gyda lleoliad)

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A: i gynnwys gradd C mewn pwnc gwyddonol ar lefel A2 (e.e. Bioleg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddorau/ Astudiaethau'r Amgylchedd, Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Economeg, Ystadegau, Seicoleg). Ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn pwnc gwyddonol)
- Mynediad: Cwrs Mynediad Gwyddonol/ Amgylcheddol
- Diploma BTEC Cenedlaethol/Estynedig mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reolaeth Anifeiliaid: DMM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad neu Goedwigaeth a Choedyddiaeth: Teilyngdod
- Diploma Technegol Estynedig Uwch City & Guilds mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth neu Reolaeth Tir a Bywyd Gwyllt: Teilyngdod
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Coedwigoedd yw'r mwyaf bioamrywiol o holl ecosystemau'r tir, ac yndyn t ceir y mwyafrif helaeth o rywogaethau tir y byd. Mae'r radd hon yn darparu dealltwriaeth o'r fioamrywiaeth honno, o'r ffyrdd y mae pobl yn dylanwadu arni, ac o'r rôl y gall coedwigoedd ei chwarae wrth leihau effeithiau gweithgarwch dynol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. Mae'r radd yn canolbwyntio ar egwyddorion cadwraeth fiolegol, ecoleg coedwigoedd a swyddogaeth ecosystemau coedwigoedd, a'r ffyrdd y gellir rheoli coedwigoedd i gyflawni amcanion cadwraeth.
Mae cyfleoedd i astudio dramor yn yr ail flwyddyn a threulio hyd at 12 mis yn gweithio i sefydliad cadwraeth neu goedwigaeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Bangor yw un o'r prifysgolion mwyaf blaenllaw yn y Deyrnas Unedig ar gyfer coedwigaeth a chadwraeth.
- Mae'r Brifysgol yn addysgu ac yn gwneud ymchwil i sawl agwedd ar gadwraeth a rheoli adnoddau naturiol.
- Rydym wedi ein lleoli mewn lleoliad delfrydol ar gyfer astudio, yn agos at goetiroedd hynafol lled-naturiol a safleoedd eraill o bwysigrwydd cadwraethol.
- Mae'r Brifysgol yn berchen ar 82 hectar o goetiroedd a ddefnyddir wrth addysgu ac mae llawer ohonynt yn lled-naturiol.
- Mae gennym grŵp brwdfrydig o staff, a phenodwyd aelodau newydd o staff academaidd mewn nifer o ddisgyblaethau cadwraeth a choedwigaeth allweddol.
- Rydym yn cynnal cyrsiau maes wythnos o hyd ym mlwyddyn gyntaf, ail flwyddyn a blwyddyn olaf y radd.
- Mae gennym gysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gydag amrywiaeth o asiantaethau llywodraethol a chyrff anllywodraethol sy'n gweithio ar brojectau a materion cadwraeth.
- Rydym yn talu i fyfyrwyr fod yn aelodau o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio trwy amrywiaeth o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau a gwaith maes. Mae ein cyrsiau yn fodiwlaidd ac yn cynnwys cyfresi o fodiwlau gorfodol a dewisol. Mae'r modiwlau dewisol yn eich galluogi i ehangu eich astudiaethau i feysydd newydd neu i ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb i chi.

Blwyddyn 1
Dyma gyflwyniad i egwyddorion cadwraeth, coedwigaeth a rheolaeth.

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Ecosystem Function and Services
- Environmental Management and Conservation
- Forestry in the 21st Century
- Dadansoddiad Data Amgylcheddol
- Tiwtorialau Academaidd
- Cwrs Maes: Creu Eryri

Blwyddyn 2
Mae'r flwyddyn hon yn adeiladu ar waith y flwyddyn gyntaf ac yn datblygu eich dealltwriaeth o arferion cadwraeth. Byddwch yn cymryd modiwlau dewisol yn yr agweddau hynny ar goedwigaeth sydd fwyaf o ddiddordeb i chi.

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Silviculture and Inventory
- Principles of Conservation
- Conservation Practice
- Research Methods & GIS
- Cwrs Maes Coedwigaeth neu Gadwraeth

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- Silviculture
- Catchment Processes
- Forest and Woodland Management

Y Flwyddyn Olaf
Yn y flwyddyn olaf gallwch ddewis ysgrifennu cynllun rheoli cadwraeth, a byddwch yn cynnal project ymchwil annibynnol mewn pwnc sydd o ddiddordeb penodol i chi, dan oruchwyliaeth aelod o staff academaidd.

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Forest Ecology
- Forest Ecosystems
- Wildlife Ecology and Conservation

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- Cwrs Maes: Tenerife
- Materion Amgylcheddol
- Renewable Energy
- Environmental Policy
- The Forestry Profession
- Advanced GIS and Remote Sensing
- Tropical conserva field course

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu yn amrywio o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol a gwaith maes i seminarau a thiwtorialau. Mae'r seminarau a'r tiwtorialau'n canolbwyntio ar ddatrys problemau, datblygu sgiliau astudio ac atgyfnerthu deunydd a addysgir mewn darlithoedd; mae'r awyrgylch hamddenol ac anffurfiol hefyd yn annog trafodaeth fywiog am faterion cyfoes a dadleuol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i asesu cyrsiau gan gynnwys gwaith cwrs ac arholiadau. Mae pob modiwl yn gwneud defnydd helaeth o 'Blackboard', sef amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol, sy'n darparu mynediad uniongyrchol at adnoddau dysgu, dogfennau a nodiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd, gan gynnwys cadwraeth coetiroedd, rheoli coetiroedd ac ardystio coedwigoedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae galw cyson am raddedigion da mewn pynciau sy'n gysylltiedig â choedwigaeth, a phob blwyddyn rydym yn helpu ein myfyrwyr i ddod o hyd i ystod eang o swyddi ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
D447 BSc/ECon; D448 BSc/ECon4 (gyda lleoliad)
Hyd: 3 blynedd (4 blynedd gyda lleoliad)

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A: i gynnwys gradd C mewn pwnc gwyddonol ar lefel A2 (e.e. Bioleg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddorau/ Astudiaethau'r Amgylchedd, Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Economeg, Ystadegau, Seicoleg). Ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn pwnc gwyddonol)
- Mynediad: Cwrs Mynediad Gwyddonol/ Amgylcheddol.
- Diploma BTEC Cenedlaethol/Estynedig mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reolaeth Anifeiliaid: DMM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Rheolaeth Anifeiliaid neu Goedwigaeth a Choedyddiaeth: Teilyngdod
- Diploma Technegol Estynedig Uwch City & Guilds mewn Rheolaeth Tir a Bywyd Gwyllt: Teilyngdod
- Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt mewn Sgiliau Labordy: DMM
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith
Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Wrth i bryderon ynghylch yr amgylchedd gynyddu'n gyson, mae mwy a mwy o angen deall sut y gallwn ddiogelu rhywogaethau, cynefinoedd ac ecoleg yn effeithiol. Mae'r cwrs hwn yn darparu sylfaen ddamcaniaethol mewn sut mae poblogaethau a chymunedau'n gweithio, a dealltwriaeth ymarferol o'r materion yn ymwneud â chadwraeth amgylcheddol. Rydym yn addysgu'r sgiliau y mae ar weithwyr proffesiynol ym maes cadwraeth eu hangen i fonitro cynefinoedd a rhywogaethau, ac rydym yn dangos pwysigrwydd ffactorau economaidd a chymdeithasol i sicrhau cadwraeth lwyddiannus.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae lleoliad Bangor, rhwng y Fenai a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i ddysgu am ecoleg, cadwraeth a'r amgylchedd naturiol.
- Mae cadwraeth lwyddiannus yn dibynnu ar ddefnyddio dull rhyngddisgyblaethol. Mae ein staff yn gefnogol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt ac mae ganddynt amrywiaeth o arbenigeddau sy'n cwmpasu cadwraeth, ecoleg, gwyddor amgylcheddol, coedwigaeth, a gwyddorau cymdeithas.
- Mae gennym gysylltiadau agos â llawer o sefydliadau cadwraeth lleol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n helpu myfyrwyr i ddeall ymarfer cadwraeth.
- Mae gennym gysylltiadau ardderchog â sefydliadau cadwraeth ledled y byd. Ar hyn o bryd mae gennym staff a myfyrwyr yn gweithio ym Madagascar, Costa Rica, Indonesia, Bolivia, Kenya a Bangladesh.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio 120 credyd bob blwyddyn, trwy amrywiaeth o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau a gwaith maes. Mae ein cyrsiau'n rhai modiwlaidd. Er bod rhai modiwlau'n orfodol, o anghenraid, mae eraill yn ddewisol, gan eich galluogi i ymestyn eich astudiaethau i feysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb arbennig i chi.

Blwyddyn 1

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Ecosystem Function and Services
- Environmental Management and Conservation
- Ecology and Evolution
- Environmental and Data Analysis
- Tiwtorialau Academaidd
- Cwrs Maes: Creu Eryri

Blwyddyn 2

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Principles of Conservation
- Research Methods & GIS
- Cwrs Maes: Environmental Conflict

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- Conservation Practice
- Behavioural Ecology
- Catchment Processes
- Plant Diversity and Conservation
- Climate Change

Y Flwyddyn Olaf
Bydd y myfyrwyr yn cymryd modiwl gorfodol ar Human Aspects of Conservation yn ogystal â dewis o blith ystod eang o fodiwlau eraill, gan gynnwys Wildlife Ecology and Conservation, Marine Conservation and Exploitation, a Coping with a Changing Planet. Byddant hefyd yn gweithio gyda goruchwyliwr i gynllunio a chyflawni darn o waith ymchwil gwreiddiol. Mae'r cynllun rheoli - lle mae'r myfyrwyr yn datblygu cynllun ar gyfer ardal o Barc Cenedlaethol Eryri - yn nodwedd unigryw o radd Bangor ac yn hyfforddiant proffesiynol gwerthfawr. Mae gan fyfyrwyr yr opsiwn o fynd ar gwrs maes i Tenerife am wythnos neu ar gwrs maes trofannol hirach yn Affrica.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r modiwlau rydym yn eu cynnig yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu yn amrywio o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol a gwaith maes i seminarau a thiwtorialau. Mae seminarau a thiwtorialau yn canolbwyntio ar ddatrys problemau, datblygu sgiliau astudio ac atgyfnerthu deunydd a ddysgir mewn darlithoedd; mae eu hawyrgylch hamddenol ac anffurfiol hefyd yn annog trafodaeth fywiog am faterion cyfredol a dadleuol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i asesu cyrsiau, gyda rhaniad o 60% gwaith cwrs a 40% arholiad yn gyffredin. Mae'r holl fodiwlau'n gwneud defnydd helaeth o amgylchedd dysgu rhithwir Blackboard y Brifysgol, sy'n rhoi mynediad uniongyrchol at adnoddau dysgu, dogfennau cwrs a nodiadau darlithoedd. Os dewiswch y flwyddyn ar leoliad, byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn yn gweithio gyda sefydliad perthnasol yn ennill profiad gwerthfawr ar gyfer gyrfa.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae graddedigion y rhaglen hon wedi mynd ymlaen i fod yn rheolwyr cadwraeth neu amgylcheddol yn y DU a thramor yn ogystal â gwneud astudiaeth bellach ac ymchwil neu hyfforddiant athrawon. Mae'n bosibl dilyn y cwrs naill ai fel gradd tair blynedd neu dros bedair blynedd gyda blwyddyn ryngosod yn gweithio gyda sefydliad cadwraeth perthnasol yn y DU neu dramor.

Mae 95% o fyfyrwyr yn symud ymlaen i weithio ac/neu astudio o fewn 6 mis o raddio.

(Arolwg Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch 2020)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
F900 BSc/ES; F901 (gyda lleoliad)
F850 M/EnvSci
Hyd: 3 blynedd (BSc); 4 blynedd (MEnvSci)

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff ar gyfer BSc a 128 ar gyfer MEnvSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefelau A: yn cynnwys gradd C mewn pwnc gwyddoniaeth ar lefel A2 (e.e. Bioleg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddorau/ Astudiaethau Amgylcheddol, Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Economeg, Ystadegau, Seicoleg). Ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn pwnc gwyddonol)
- Mynediad: Cwrs Mynediad Gwyddoniaeth/ Amgylcheddol
- Diploma Cenedlaethol / Estynedig BTEC mewn Rheoli Cefn Gwlad, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reoli Anifeiliaid: DMM ar gyfer BSc, DDM ar gyfer MEnvSci
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheoli Cefn Gwlad, Rheoli Anifeiliaid neu Goedwigaeth a Choedyddiaeth: Teilyngdod ar gyfer BSc, Rhagoriaeth ar gyfer MEnvSci
- Diploma Estynedig Technegol Caergrawnt mewn Sgiliau Labordy: DMM ar gyfer BSc, DDM ar gyfer MEnvSci
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith
Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae angen gwyddonwyr amgylcheddol yn fwy nag erioed gan ddiwydiant, y llywodraeth a chymdeithas. Daw'r radd mewn Gwyddorau'r Amgylchedd â gwybodaeth berthnasol o ystod eang o bynciau ynghyd i archwilio rhai o'r materion amgylcheddol mwyaf fel newid hinsawdd, llygredd, cadwraeth a diogelu'r cyflenwad bwyd. Mae'n radd eang gyda'i gwreiddiau mewn bioleg (yn rhoi dealltwriaeth i chi o organebau, eu hamgylcheddau a'u cymunedau), cemeg (yn rhoi dealltwriaeth o lawer o brosesau amgylcheddol naturiol a llygredd), gwyddor daear (yn rhoi cefndir i chi mewn prosesau byd-eang), a rheoli adnoddau tir a dŵr. Mae cyfuno'r meysydd pwnc hyn, ynghyd â llawer o sesiynau ymarferol a theithiau maes, yn creu gradd sy'n hynod ddiddorol a buddiol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn adnabyddus yn rhyngwladol am ein gwaith mewn gwyddorau'r amgylchedd.
- Yn y radd defnyddir arbenigedd o'r Gwyddorau Biolegol, Gwyddorau'r Eigion a Chemeg.
- Mae lleoliad Bangor yn ei gwneud yn lle delfrydol i astudio gwyddorau'r amgylchedd gan fod mynediad i amrywiaeth eang o amgylcheddau naturiol yn amrywio o'r arfordir i dirwedd amrywiol Parc Cenedlaethol Eryri gyda'i hanes hir o ddefnydd tir amrywiol, mwyngloddio a chwarela.
- Mae teithiau maes yn ganolog trwy gydol ein gradd Gwyddorau'r Amgylchedd.
- Mae gennym gysylltiadau agos â sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cyflogi gwyddonwyr amgylcheddol, gan ein helpu i sicrhau bod ein gradd yn berthnasol ac yn gyfredol.
- Caiff ein graddau eu hachredu gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd.
- Bydd astudio gradd achrededig yn eich gwneud chi'n fwy cyflogadwy a chewch lawer o fuddion trwy gydol eich cwrs gradd.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio 120 credyd bob blwyddyn, trwy amrywiaeth o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau a gwaith maes. Mae rhai modiwlau'n orfodol gydag eraill yn ddewisol, gan eich galluogi i ymestyn eich astudiaethau i feysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb i chi.

Blwyddyn 1

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Ecosystem Services and Function
- Essential Chemistry*
- Ecology and Evolution
- Chemistry in Biology and the Environment
- Dadansoddiad Data Amgylcheddol
- Tiwtorialau Academaidd
- Cwrs Maes: Making Snowdonia

*Os nad oes gennych gefndir digonol mewn cemeg bydd rhaid cymryd y modiwl yma.

Blwyddyn 2

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Water, Air and Soil Pollution
- Catchment Processes
- Instrumental Methods for Non-Chemists
- Research Methods & GIS
- Cwrs Maes: DU

Blwyddyn 3
Byddwch yn cwblhau eich Project Anrhydedd; project ymchwil unigol ar bwnc sydd o ddiddordeb i chi, o bosibl ar y cyd â sefydliad allanol.

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Pollution and Environment
- Environmental Geochemistry
- Renewable Energy
- Materion Amgylcheddol
- Waste Management and Utilisation

Yn ogystal â'r modiwlau gorfodol, byddwch yn dewis o opsiynau dewisol gan gynnwys cwrs maes i Tenerife.

Blwyddyn 4
Os byddwch yn dewis dilyn y radd Meistr Gwyddorau'r Amgylchedd (MEnvSci) 4 blynedd, mae blwyddyn 1 a 2 yr un fath ag ar gyfer y radd BSc; ond ni fyddwch yn gwneud y Project Anrhydedd ym mlwyddyn 3 ac yn hytrach yn dewis rhagor o fodiwlau dewisol. Nod y bedwaredd flwyddyn yw datblygu eich sgiliau gwyddonol a chynyddu eich cyflogadwyedd. Gyda chefnogaeth aelodau staff, byddwch yn cwblhau project ymchwil annibynnol o'ch dewis ar lefel Meistr. Byddwch yn gwneud lleoliad gwaith o leiaf 4 wythnos mewn lleoliad o'ch dewis, i gael profiad proffesiynol. Byddwch hefyd yn astudio'r modiwl Business Planning for the Green Economy a Strategic Environmental Management fydd yn rhoi sgiliau a gydnabyddir yn broffesiynol i chi mewn maes cyflogaeth allweddol.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau dysgu o ddarlithoedd i sesiynau ymarferol. Mae'r rhan fwyaf o'r bedwaredd flwyddyn ar y radd MEnvSci yn ymarferol. Mae asesu yn cynnwys cyflwyniadau, cyfweliadau, gwaith cwrs, arholiadau ac adroddiadau ymarferol. Mae'r holl fodiwlau'n gwneud defnydd helaeth o amgylchedd dysgu rhithwir Blackboard y Brifysgol, sy'n rhoi mynediad uniongyrchol at adnoddau dysgu, dogfennau cwrs a nodiadau darlithoedd.

RHAGOLYGON GYRFA
Oherwydd ei sylfaen eang mae'r radd yn rhoi cryn hyblygrwydd o ran cyfleoedd gyrfa. Gallwch ddisgwyl cael gwaith mewn sefydliadau diwydiannol, asiantaethau cynghori, llywodraeth leol ac ym maes ymchwil a datblygu, yn Ewrop a thu hwnt.

BLWYDDYN SYLFAENOL
Cynigir Blwyddyn Sylfaen mewn Environmental Science. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ar gyfer ymgeiswyr sydd ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd neu fyfyrwyr a fyddai'n elwa o astudio blwyddyn ychwanegol. Ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen, caiff y myfyrwyr symud ymlaen i Flwyddyn 1 y rhaglen radd gysylltiedig. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
L700 BA/Geog; F800 BSc/Geog
L702 BA (gyda blwyddyn ar leoliad)
F806 BSc (gyda blwyddyn ar leoliad)
F801 MGeog/G
Hyd: 3 blynedd BA/BSc neu 4 blynedd gyda lleoliad a 4 blynedd ar gyfer MGeog

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Mathemateg ac laith Saesneg neu Gymraeg. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 pwynt tariff ar gyfer BA/BSc a 128 ar gyfer MSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:

- Lefel A: (yn cynnwys gradd C neu uwch mewn Daearyddiaeth A2).
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys gradd H5 neu uwch mewn Daearyddiaeth ar y Lefel Uwch).
- Mynediad: Cwrs Gwyddoniaeth neu'r Amgylchedd/Ymwneud â'r Tir neu'r Dyniaethau (angen gradd teilyngdod yn yr elfen Daearyddiaeth).
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Rheolaeth Cefn Gwlad neu Gwyddoniaeth Gymhwysol: DDM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad: Rhagoriaeth
- Diploma Estynedig Technegol Caergrawnt mewn Sgiliau Labordy: DDM
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae llawer o'r dysgu yn canolbwyntio ar yr amgylchedd ac mae daearyddiaeth yn ganolog i hyn. Os dewiswch astudio Daearyddiaeth ym Mangor byddwch yn astudio pwnc deinamig sy'n berthnasol yn fyd-eang mewn lleoliad heb ei ail. Mae myfyrwyr Daearyddiaeth yn datblygu gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy ar draws ffiniau pynciau traddodiadol ac yn dysgu am y prif heriau amgylcheddol sy'n wynebu dynolryw heddiw.
Rydym yn cynnig graddau Anrhydedd BA a BSc mewn Daearyddiaeth a gradd pedair blynedd integredig ar lefel Meistr (MGeog). Mae'r rhaglenni Daearyddiaeth yn archwilio'r broses ffisegol, gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd sy'n llunio'r byd o'n cwmpas. Mae ein cyrsiau yn rhoi pwyslais ar ymweliadau maes a gwaith maes ynghyd â chyfleoedd i wella cyflogadwyedd trwy leoliadau proffesiynol a datblygu sgiliau.

PAM DEWIS BANGOR?

- Mae ein rhaglenni BA/BSc ac MDaearyddiaeth yn cynnig hyblygrwydd i chi, cewch ddewis a dethol modiwlau sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar yr ochr gorfforol, yr ochr ddynol, neu'r cysylltiadau rhyngddynt.
- Fe'ch addysgir gan staff sydd wrthi'n gwneud ymchwil ac athrawon arobryn, a fydd yn eich cefnogi a'ch tywys trwy gydol eich astudiaethau mewn amgylchedd croesawgar.
- Mae gan ein tîm staff amlddisgyblaethol arbenigedd sy'n rhychwantu amgylcheddau rhewlifol ac afonol yn ogystal â daearyddiaethau bwyd a dad-ddofi tir.
- Mae llawer o'n modiwlau hefyd yn cynnig gwibdeithiau maes am hanner diwrnod a diwrnod llawn, gan fanteisio ar leoliad unigryw Bangor, a saif ar arfordir trawiadol y gogledd, nid nepell o Afon Menai, a mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri.
- Mae gwaith maes yn gyfle i chi fynd y tu hwnt i'r ddarlithfa. Rydym yn cynnal cyrsiau maes yn Eryri a de-orllewin Lloegr ym Mlynyddoedd 1 a 2, ac mae opsiwn i fynd i dde Sbaen neu Tenerife ym Mlwyddyn 3.
- Rhowch hwb i'ch cyflogadwyedd gyda lleoliad gwaith dewisol, naill ai drwy ein modiwl Lleoliad Proffesiynol neu trwy Leoliad am flwyddyn.
- Enillwch brofiad rhyngwladol trwy astudio yn un o'n partner sefydliadau tramor fel rhan o'ch gradd.
- Caiff ein graddau eu hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (gydag IBG).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer 120 credyd mewn blwyddyn. Mae'r rhaglenni i gyd ar ffurf modiwlau, a rhai modiwlau'n orfodol a rhai eraill yn ddewisol. Mae ein rhaglenni BA, BSc ac MDaearyddiaeth yn dechrau gyda sylfaen eang, gan rychwantu pynciau daearyddiaeth ddynol a chorfforol. Ym mlynyddoedd 2 a 3 mae dewis cynyddol o arbenigo yn y pynciau sydd o'r ddiddordeb pennaf ichi. Mae ein rhaglenni'n canolbwyntio ar heriau byd-eang allweddol, megis y Newid yn yr Hinsawdd, Peryglon Naturiol, Cynaliadwyedd a Llywodraethu. Mae ein rhaglenni yn eich cyflwyno i amryw o ddulliau ymchwil a sgiliau TG, GIS, ac ystadegol. Byddwch yn datblygu sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Yn ystod eich blwyddyn olaf byddwch yn cynnal eich ymchwil eich hun o dan arweiniad y staff, gan ganiatáu ichi arddangos y galluoedd a ddatblygasoch yn eich astudiaethau.

Blwyddyn 1
Mae'r flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau allweddol. Gall myfyrwyr drosglwyddo rhwng cyrsiau BA a BSc ar ddiwedd y flwyddyn os ydynt yn dymuno.

Gall modiwlau gorfodol gynnwys:

- Earth Systems and Processes
- Earth, Climate & Evolution
- Dearyddiaeth Ddynol
- Understanding Society
- Dadansoddiad Data Amgylcheddol
- Tiwtorialau Academaidd a Sgilliau Allweddol
- Cwrs Maes: Making Snowdonia

Blwyddyn 2
Nod yr ail flwyddyn yw dyfnhau eich gwybodaeth bwnc ac ehangu eich sylfaen sgiliau. Mae modiwlau'n ymdrin â meysydd allweddol mewn daearyddiaeth ffisegol a dynol ac yn ymchwilio i ddadleuon daearyddol mawr. Gall myfyrwyr drosglwyddo i'r MGeog ar ddiwedd Blwyddyn 2.

Gall modiwlau gorfodol gynnwys:

- Climate Change
- Geohazards
- Catchment Processes
- People, Space and Place
- GIS and Research Methods
- Cwrs Maes: DU

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:

- Water, Air and Soil Pollution
- Ice and Oceans
- Sustainable Development
- Identity & Diversity
- Daearyddiaeth Awyr agored
- Earth and Ocean Observation

Mae'n bosibl cymryd y graddau BA a BSc fel gradd 4 blynedd 'gyda blwyddyn ar leoliad' a fyddai'n cael ei chymryd yn ystod Blwyddyn 3.

Blwyddyn olaf BA/BSc
Yn eich blwyddyn olaf cewch ddewis o blith amrywiaeth o fodiwlau sy'n eich galluogi i arbenigo mewn meysydd sydd o'r diddordeb pennaf ichi. Byddwch yn cynnal eich ymchwil eich hun (Project Anrhydedd) o dan arweiniad y staff, gan ganiatáu ichi arddangos y galluoedd a ddatblygasoch yn eich astudiaethau.

Mae sgiliau maes a hyfforddiant uwch ar gael ar ein cyrsiau maes dewisol i Tenerife neu dde Sbaen (Barcelona).

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:

- Project Anrhydedd
- Rivers, Coasts and Oceans
- Settlement Systems
- Governing Society and Environment

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:

- Environmental Geochemistry
- Materion Amgylcheddol
- Geoarchaeology
- Current Issues in Human Geography
- Food Geographies
- Coping with a Changing Planet
- Environmental Policy
- Renewable Energy
- Professional Placement
- Catchment Modelling and Analysis
- Advanced GIS and Remote Sensing

Blwyddyn 4
Mae myfyrwyr y radd MDaearyddiaeth yn dilyn yr un rhaglen ym Mlwyddyn 1 a 2, ond maent yn ymgymryd â Phroject MDaearyddiaeth ym Mlwyddyn 3. Mae pedwaredd flwyddyn ein rhaglen MDaearyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar eich ymchwil eich hun sy'n eich galluogi i arbenigo yn ôl eich diddordebau, dysgu yn y gwaith a chynnig dealltwriaeth ddyfnach o ddulliau daearyddol.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Cewch eich dysgu mewn amrywiol leoliadau gan gynnwys darlithoedd a dosbarthiadau'r labordy a dosbarthiadau maes a seminarau a thiwtorialau mewn grwpiau bach. Mae'r seminarau'n gyfle i chi drafod a dadansoddi deunyddiau, syniadau a chysyniadau newydd gyda myfyrwyr eraill a'r tiwtor. Caiff sesiynau tiwtorial mewn grwpiau bach eu llunio i ddatblygu sgiliau astudio neu ddatrys problemau, ond maent hefyd yn gyfle i chi ofyn cwestiynau, codi materion neu archwilio'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn y darlithoedd. Mae gwaith maes yn rhan annatod o'n rhaglenni Daearyddiaeth, a bydd llawer o gyfleoedd i fynd allan i'r maes a dysgu sgiliau gwerthfawr. Cewch fynediad at amgylchedd dysgu rhithwir 'Blackboard' y Brifysgol, sy'n cynnal adnoddau dysgu, dogfennau cwrs a recordiadau o ddarlithoedd (os ydynt ar gael) ar gyfer eich modiwlau.

SUT BYDDAF YN CAEL FY ASSESU?
Cewch eich asesu mewn amrywiol ffyrdd: traethodau, cyflwyniadau llafar neu boster, adroddiadau, arholiadau, tasgau ymarferol, ac yn y blaen. Gall rhai asesiadau gynnwys gwaith grŵp. Yn gyffredinol, caiff y modiwlau eu rhannu rhwng asesu ar gyfartaledd o 60% yn waith cwrs a 40% yn arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae galw mawr am raddedigion Daearyddiaeth o ganlyniad i'r sgiliau trosglwyddadwy a'r wybodaeth bwnc y maent yn eu datblygu yn ystod eu hastudiaethau. Byddwch yn ennill gradd uchel ei pharch sy'n agor posibiliadau gyrfa yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae graddedigion Bangor wedi symud ymlaen i yrfaoedd ym meysydd ymgynghori ar yr amgylchedd, rheoli, dysgu a llawer mwy.
Mae graddau Daearyddiaeth hefyd yn rhoi sylfaen ar gyfer astudiaeth ôl-radd bellach ac ymchwil.
Gall myfyrwyr Daearyddiaeth wella eu siawns o gael swydd drwy gofrestru ar gyfer Gwobr Cyflogadwyedd Bangor.

Royal Geographical Society with IBG
Mae'r graddau BA, BSc ac Daearyddiaeth MGeog wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol.

ies
Mae'r graddau BSc ac MGeog Daearyddiaeth wedi'u hachredu'n broffesiynol gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd.









FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
F803 BSc/GEF
F804 BSc/GEF4 (gyda lleoliad)
Hyd: 3 blynedd (4 blynedd gyda lleoliad)

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Mathemateg ac Iaith Saesneg neu Gymraeg. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 pwynt tariff ar gyfer BA/BSc a 128 ar gyfer MSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:

- Lefel A: (yn cynnwys gradd C neu uwch mewn Daearyddiaeth A2).
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys gradd H5 neu uwch mewn Daearyddiaeth ar y Lefel Uwch).
- Mynediad: Cwrs Gwyddoniaeth neu'r Amgylchedd/Ymwneud â'r Tir neu'r Dyniaethau (angen gradd teilyngdod yn yr elfen Daearyddiaeth).
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Rheolaeth Cefn Gwlad neu Gwyddoniaeth Gymhwysol: DDM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad: Rhagoriaeth
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth: DDM
- Diploma Estynedig Technegol Caergrawnt mewn Sgiliau Labordy: DDM
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn cyfuno datblygu dealltwriaeth o'r prosesau ffisegol sy'n llunio'r byd gyda deall cysylltiadau rhwng y ddynoliaeth a'r amgylchedd a sut y gall rheoli adnoddau amgylcheddol yn gynaliadwy fod o fudd i gymdeithas. Mae coedwigoedd y byd, sy'n hanfodol i'r ecosystem fyd-eang ac yn gorchuddio 30% o arwynebedd tir y byd, yn allweddol i hyn.
Byddwch yn datblygu ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy yn barod ar gyfer yr her o reoli coedwigoedd ar gyfer y buddion niferus y maent yn eu darparu, ar adeg o newid amgylcheddol byd-eang sylweddol.

PAM DEWIS BANGOR?

- Mae arfordir trawiadol a mynyddoedd garw Gogledd Cymru, ynghyd â chyfleusterau adran brifysgol fodern, yn gwneud Bangor yn lle rhagorol i astudio Daearyddiaeth.
- Mae'r cwrs yn manteisio'n llawn ar ein lleoliad ardderchog, yn cynnwys arfordir a mynyddoedd Gogledd Cymru a'n hagosrwydd at Barc Cenedlaethol Eryri.
- Mae gennym gysylltiadau rhagorol â sefydliadau coedwigaeth yn y DU a thramor, a defnyddir y rhain yn ein rhaglenni dysgu.
- Mae gennym gasgliad llyfrgell cynhwysfawr ym Mangor, mannau arbrofol ar gyfer coedwigaeth gerllaw, ac rydym o fewn pellter teithio rhwydd i goedwigoedd cyhoeddus a phreifat.
- Mae'r Brifysgol yn berchen ar 82 hectar o goetir, a ddefnyddir ar gyfer dysgu.
- Mae cyfleoedd i astudio dramor (fel rheol yng Nghanada neu'r Ffindir) yn ystod yr ail flwyddyn.
- Rydym yn talu am aelodaeth myfyrwyr i Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio modiwlau gwerth 120 credyd ym mhob blwyddyn. Mae rhai modiwlau'n orfodol ac mae eraill yn ddewisol. Mae gwaith maes yn rhan annatod o'r cwrs gyda modiwlau astudio maes pwrpasol yn ogystal ag ymweliadau maes sy'n gysylltiedig â modiwlau pwnc. Gellir ennill sgiliau proffesiynol, profiad gwaith a rhwydweithiau gyda darpar gyflogwyr trwy'r modiwl Lleoliad Proffesiynol a'r opsiwn Blwyddyn ar Leoliad.

Blwyddyn 1

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:

- Earth Systems and Processes
- Forestry in the 21st Century
- Dadansoddiad Data Amgylcheddol
- Tiwtorialau Academaidd a Sgilliau Allweddol
- Cwrs Maes: Making Snowdonia
- Ecosystem Services & Function

Blwyddyn 2

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:

- GIS & Research Methods
- Climate Change
- Silviculture & Inventory
- Forest & Woodland Management
- Cwrs Maes: DU

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:

- Water, Air and Soil Pollution
- Datblygiad Cynaliadwy
- Earth and Ocean Observation
- Catchment Processes
- Geohazards

Blwyddyn 3
Bydd myfyrwyr yn cwblhau eu Project Anrhydedd (dan oruchwyliaeth aelod staff) sy'n gyfle i astudio'n fanwl, pwnc sydd o ddiddordeb arbennig i chi. Mae llawer o fyfyrwyr yn gweld y daith astudio ym mlwyddyn 3 i Ewrop yn uchafbwynt y cwrs. Mae gan fyfyrwyr hefyd yr opsiwn i gyfuno'r wybodaeth maent wedi'i dysgu yn ystod y ddwy flynedd gyntaf i ysgrifennu cynllun rheoli coedwig ar gyfer coedwig leol.

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:

- Project Anrhydedd
- Forest Ecology
- Rivers, Coasts & Oceans

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:

- Cwrs Maes: Tenerife
- Forest Ecosystems & Services
- Cynllun Rheoli
- Materion Amgylcheddol
- Environmental Policy
- Renewable Energy
- Waste Management
- Advanced GIS and Remote Sensing

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu yn amrywio o ddarlithoedd, gwaith labordy a gwaith maes i seminarau a thiwtorialau. Mae seminarau a thiwtorialau'n canolbwyntio ar ddatrys problemau, datblygu sgiliau astudio ac atgyfnerthu deunydd a ddysgwyd mewn darlithoedd. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i asesu cyrsiau, gyda rhaniad o 60% gwaith cwrs a 40% arholiad yn gyffredin. Mae amgylchedd dysgu rhithwir 'Blackboard' y Brifysgol yn rhoi mynediad uniongyrchol at adnoddau, dogfennau a nodiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae graddedigion y radd hon yn ddeniadol iawn i gyflogwyr. Mae hon yn radd uchel ei pharch sy'n agor posibiliadau gyrfa mewn sefydliadau cyhoeddus, preifat ac anllywodraethol yn y DU a thramor. Mae ein graddau hefyd yn rhoi sylfaen ar gyfer astudiaeth ôl-radd bellach ac ymchwil.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
D500 BSc/For; D501 BSc/F (gyda lleoliad)
Hyd: 3 blynedd (4 blynedd gyda lleoliad)

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:

- Lefel A: i gynnwys gradd C mewn pwnc gwyddonol ar lefel A2 (e.e. Bioleg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddorau/ Astudiaethau'r Amgylchedd, Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Economeg, Ystadegau, Seicoleg). Ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn pwnc gwyddonol)
- Mynediad: Cwrs Mynediad Gwyddonol/ Amgylcheddol.
- Diploma BTEC Cenedlaethol/Estynedig mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reolaeth Anifeiliaid: DMM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Rheolaeth Anifeiliaid neu Goedwigaeth a Choedyddiaeth: Teilyngdod
- Diploma Technegol Estynedig Uwch City & Guilds mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: sns@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Rydym wedi bod yn dysgu coedwigaeth am fwy na 110 o flynyddoedd ym Mangor, ac ni fu erioed amser mwy cyffrous i fynd i'r proffesiwn. Mae ein graddau'n eich paratoi ar gyfer yr her o reoli coedwigoedd ar gyfer y manteision niferus maent yn eu rhoi ar adeg o newid amgylcheddol byd-eang. Mae coedwigoedd, sy'n hanfodol i'r *ecosystem* fyd-eang, yn gorchuddio 30% o arwynebedd tir y byd. Mae coedwigaeth yn ymwneud â deall a rheoli'r coedwigoedd hyn yn gynaliadwy er budd cymdeithas.

PAM DEWIS BANGOR?

- Ni oedd y brifysgol gyntaf i gynnig graddau Coedwigaeth.
- Mae gennym gysylltiadau rhagorol â sefydliadau coedwigaeth yn y DU a thramor, a defnyddir y rhain yn ein rhaglenni dysgu.
- Mae gennym gasgliad llyfrgell cynhwysfawr ym Mangor, mannau arbrofol ar gyfer coedwigaeth gerllaw, ac rydym o fewn pellter teithio rhwydd i goedwigoedd cyhoeddus a phreifat.
- Mae gan y Brifysgol 82 hectar o goetir, llawer ohonynt yn lled-naturiol, a ddefnyddir ar gyfer dysgu.
- Mae gennym grŵp profiadol o staff, gyda phenodiadau newydd mewn coedwigaeth a nifer o ddisgyblaethau cysylltiedig, a rhyngweithio rhagorol â choedwigwyr proffesiynol lleol.
- Rydym yn cynnal cyrsiau maes am wythnos yn ystod y flwyddyn gyntaf, yr ail flwyddyn a blwyddyn olaf y radd.
- Mae cyfleoedd i astudio dramor (fel rheol yng Nghanada neu'r Ffindir) yn ystod yr ail flwyddyn.
- Os byddwch chi'n dewis y rhaglen pedair blynedd byddwch yn treulio blwyddyn yn gweithio yn y proffesiwn coedwigaeth, yn ennill profiad perthnasol ac yn gwella eich cyflogadwyedd.
- Rydym yn talu am aelodaeth myfyrwyr i Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio 120 credyd bob blwyddyn, trwy amrywiaeth o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau a gwaith maes. Mae'r cyrsiau'n rhai modiwlaidd ac mae modiwlau dewisol yn eich galluogi i ymestyn eich astudiaethau i feysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb i chi.

Blwyddyn 1 ac 2
Mae blwyddyn 1 yn rhoi cyflwyniad i'r egwyddorion ecolegol, economaidd ac amgylcheddol y mae coedwigaeth yn seiliedig arnynt. Ym mlwyddyn 2, byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o'r egwyddorion hyn ac yn eu cymhwyso i ymarfer coedwigaeth. Ymhlith y pynciau a astudir yn ystod y ddwy flynedd gyntaf mae Tree and Wood Identification, Site Assessment, Tree Measurement, Silviculture and Inventory, Forest Health, Forest Management a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol. Erbyn diwedd yr ail flwyddyn byddwch wedi cael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer blwyddyn ryngosod ar leoliad, pe byddech yn dymuno gwneud un.

Blwyddyn 3
Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i dysgu i ysgrifennu cynllun rheoli coedwig ar gyfer coedwig leol. Os mai hon yw eich blwyddyn olaf, byddwch yn gwneud project ymchwil annibynnol (Project Anrhydedd) ar bwnc sydd o ddiddordeb i chi, dan oruchwyliaeth staff academaidd. Ceir modiwlau dewisol mewn Forest Ecology, Forest Ecosystems, The Forestry Profession, Environmental Issues, Environmental Policy, Renewable Energy, ac Advanced GIS and Remote Sensing. Gallwch hefyd ddewis mynd ar gwrs maes am wythnos yn Tenerife.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Rydym yn cyfuno dysgu theori mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau gyda defnyddio theori mewn dosbarthiadau ymarferol yn y goedwig a chyrsiau maes am wythnos. Mae awyrgylch hamddenol ac anffurfiol seminarau a thiwtorialau yn annog trafodaeth fywiog am faterion cyfredol a dadleuol, ac mae cyfleoedd i drafod rhai o'r un materion gyda gweithwyr proffesiynol coedwigaeth yn ystod ymweliadau â choedwigoedd. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i asesu cyrsiau, yn cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau. Rydym yn gwneud defnydd helaeth o amgylchedd dysgu rhithwir 'Blackboard' y Brifysgol, sy'n rhoi mynediad uniongyrchol at adnoddau dysgu, dogfennau cwrs a nodiadau darlithoedd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae cyflogwyr bob amser yn chwilio am raddedigion da mewn coedwigaeth sy'n flaengar ac yn mwynhau gweithio gyda phobl. Mae cyfran uchel o'n graddedigion yn cael swydd sy'n gysylltiedig â choedwigaeth o fewn chwe mis ar ôl graddio, ac yn cael eu cyflogi gan sefydliadau cyhoeddus, preifat ac anllywodraethol yn y DU a thramor. Mae ein hanes unigryw, ein henw da a'n rhagoriaeth addysgu yn golygu bod graddedigion Coedwigaeth Bangor yn ddeniadol dros ben i gyflogwyr.

WILDLIFE CONSERVATION
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C328 BSc (Anrhydedd)
C332 BSc (Anrhydedd) gyda blwyddyn ar leoliad
Hyd: 3 blynedd (BSc); 4 blynedd (BSc gyda lleoliad gwaith)

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Mathemateg ac Iaith Saesneg neu Gymraeg.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A: (yn cynnwys gradd C neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth ar lefel A2).
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys gradd H5 neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth).
- Mynediad: Cwrs yn seiliedig ar Wyddoniaeth neu'r Amgylchedd
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reoli Anifeiliaid: DMM
- Diploma Estynedig City & Guilds mewn Rheolaeth Cefn Gwlad, Coedwigaeth a Choedyddiaeth, neu Reoli Anifeiliaid: Teilyngdod
- Diploma Estynedig Technegol City & Guilds mewn Rheoli Tir a Bywyd Gwyllt: Teilyngdod
- Diploma Estynedig Technegol Caergrawnt mewn Sgiliau Labordy: DDM
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Cydlynydd Mynediad

Ffôn: 01248 382281
E-bost: conservation@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/adnodd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Ein nod yw y bydd unigolion yn graddio gyda dealltwriaeth fanwl o bob agwedd ar wyddor cadwraeth, gan gynnwys egwyddorion sylfaenol ecoleg, esblygiad, rheolaeth amgylcheddol, a byddant yn gallu cymhwyso'r ddealltwriaeth hon i gadwraeth bywyd gwyllt.

Bydd y radd hon yn datblygu sgiliau deallusol ac ymarferol, ynghyd â medrau mewn rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth (TG), sgiliau ymwneud â phobl a hunanreolaeth a sgiliau proffesiynol mewn cyd-destun sy'n benodol i'r byd cadwraeth.

Rydym yn paratoi myfyrwyr at yrfa yng nghadwraeth bywyd gwyllt a phroffesiynau eraill sy'n gofyn am y gallu i gynnull amrywiaeth o gysyniadau a syniadau ac i gymryd safbwynt amlddisgyblaethol. Caiff myfyrwyr y cwrs gyfle i fynd ar daith maes i Tenerife neu Uganda.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae lleoliad Bangor, rhwng y Fenai a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i ddysgu am ecoleg, cadwraeth a'r amgylchedd naturiol.
- Mae cadwraeth lwyddiannus yn dibynnu ar ddefnyddio dull rhyngddisgyblaethol. Mae ein staff yn gefnogol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt ac mae ganddynt amrywiaeth o arbenigeddau sy'n cwmpasu cadwraeth, ecoleg, gwyddor amgylcheddol, coedwigaeth, a gwyddorau cymdeithas.
- Mae gennym gysylltiadau agos â llawer o sefydliadau cadwraeth lleol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n helpu myfyrwyr i ddeall ymarfer cadwraeth.
- Mae gennym gysylltiadau ardderchog â sefydliadau cadwraeth ledled y byd. Ar hyn o bryd mae gennym staff a myfyrwyr yn gweithio ym Madagascar, Costa Rica, Indonesia, Bolivia, Kenya a Bangladesh.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Environmental Data and Analysis
- Organismal Diversity
- Environmental Management and Conservation
- Ecosystem Function and Services
- Ecology and Evolution

Blwyddyn 2

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- GIS and Research Methods
- Principles of Conservation
- Conservation Practice

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- Sustainable Development
- Evolution and Genetics
- Marine Ecology
- Cwrs Maes: ACE
- Behavioural Ecology
- Plant Diversity and Conservation
- Vertebrate Biology
- Introduction to Herpetology
- Introduction to Ornithology
- Introduction to Primatology

Blwyddyn 3

Gall y modiwlau gorfodol gynnwys:
- Wildlife Ecology and Conservation
- Project Anrhydedd
- Advances in Conservation

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- Marine Conservation and Exploitation
- Freshwater Ecosystems
- Advances in Behaviour
- Marine Mammal Science
- Advanced GIS and Remote Sensing
- Life in Wetlands
- Primatology
- Ornithology
- Forest Ecosystems
- Forest Ecology
- Tropical Conservation Field Course
- Field Course: Tenerife
- Human Aspects of Conservation

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn astudio 120 credyd bob blwyddyn, trwy amrywiaeth o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau a gwaith maes. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i asesu cyrsiau gan gynnwys asesiad parhaus ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn datblygu sgiliau deallusol ac ymarferol, ynghyd â sgiliau rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth (TG), sgiliau rhyngbersonol a hunanreoli a sgiliau proffesiynol mewn cyd-destun sy'n benodol i'r byd cadwraeth.

Byddwch yn barod i weithio mewn amrywiaeth fawr o feysydd gan gynnwys cadwraeth bywyd gwyllt a phroffesiynau eraill lle mae gofyn am y gallu i syntheseiddio amrywiaeth o gysyniadau a syniadau ac i gymryd safbwynt amlddisgyblaethol.

"Roedd safon y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau a ddangoswyd gan y myfyrwyr yn glod i'r staff academaidd. Bydd [y graddedigion] yn cynnal enw da gradd o Fangor yn y byd Coedwigaeth"

Adroddiad Arholwr Allanol

BIOLEG A SŴOLEG

- **Biology BSc/MBiol**
- **Biology with Biotechnology BSc/MBiol (Biotechnology)**
- **Zoology BSc/MZool**
- **Zoology with Animal Behaviour BSc/MZool (Animal Behaviour)**
- **Zoology with Conservation BSc/MZool (Conservation)**
- **Zoology with Herpetology BSc/MZool (Herpetology)**
- **Zoology with Marine Zoology BSc/MZool (Marine Zoology)**
- **Zoology with Climate Change Studies BSc/MZool (Climate Change Studies)**
- **Zoology with Primatology BSc/MZool (Primatology)**
- **Zoology with Ornithology BSc/MZool (Ornithology)**

Graddau Cysylltiedig
- Applied Marine Biology (tud 88)
- Applied Terrestrial and Marine Ecology (tud 66)
- Biomedical Science (tud 117)
- Environmental Conservation (tud 68)
- Environmental Science (tud 69)
- Forestry (tud 73)
- Marine Biology (tud 89)
- Marine Biology and Oceanography (tud 92)
- Marine Biology and Zoology (tud 90)
- Marine Environmental Studies (tud 97)
- Marine Vertebrate Zoology (tud 91)
- Medical Biology (tud 118)
- Medical Sciences (tud 116)
- Wildlife Conservation (tud 74)

BIOLOGY
BSc [Anrh] / MBioleg

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C100 BSc/B BSc; C101 MBiol/Bio MBiol
Hyd: 3 blynedd BSc, 4 blynedd MBiol

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 128 ar gyfer MBiol o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A. Ar gyfer BSc - yn cynnwys gradd C mewn Bioleg os ydych yn astudio 1 pwnc gwyddoniaeth arall - Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Seicoleg, Gwyddor yr Amgylchedd, Daearyddiaeth, Daeareg; neu radd B mewn Bioleg os nad ydych yn astudio pwnc gwyddoniaeth arall. Ar gyfer MBiol - yn cynnwys gradd B mewn Bioleg.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol Ar gyfer BSc - yn cynnwys H5 mewn Bioleg. Ar gyfer MBiol - yn cynnwys H6 mewn Bioleg.
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC. Ar gyfer BSc -DMM yn cynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**. Ar gyfer MBiol -DDM yn cynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**.
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds (1080): Rhagoriaeth drwodd a thro yn cynnwys 4 modiwl Bioleg**
- Mynediad i AU yn y Gwyddorau**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gweler y wefan am restr o'r modiwlau / meysydd pwnc derbyniol yn y gwyddorau.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad

Ffôn: 01248 388616
E-bost: biology@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/natural-sciences

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Bydd y radd hon yn datblygu eich gwybodaeth am amrywiaeth ffurf a swyddogaeth o fewn byd planhigion ac anifeiliaid. Rydym yn rhoi pwyslais ar agweddau esblygiadol, ecolegol ac amgylcheddol, ac yn rhoi sylfaen gadarn i chi mewn bioleg celloedd a bioleg foleciwlaidd. Rydym yn manteisio i'r eithaf ar yr amgylcheddau lleol amrywiol - o fynyddoedd Eryri i arfordir Môr Iwerddon - ar gyfer cyrsiau maes a phrojectau blwyddyn olaf. Yn y drydedd flwyddyn mae cyfle i ddewis ystod eang o feysydd pwnc o fioleg amgylcheddol i fioleg feddygol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ymchwil wyddonol flaengar yn rhan annatod o'n rhaglenni ymchwil, ac yn treiddio i'n hamgylchedd dysgu. Mae ein harbenigedd mewn bioleg yn ymdrin ag agweddau ar fioleg straen, egnïaeth, addasu i newid, geneteg poblogaeth, bioddaearyddiaeth, ecoleg foleciwlaidd, newid yn yr hinsawdd a storfeydd carbon, bioleg celloedd a genomig, microbioleg amgylcheddol, niwrofioleg a datblygiad.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys: Gardd Fotaneg; ein Hamgueddfa Byd Natur ein hunain sy'n cynnwys casgliad cynhwysfawr o ddeunydd infertebratau a fertebratau ac acwaria môr a dŵr croyw helaeth; a Labordy Robert Edwards ar gyfer dysgu bioleg celloedd a moleciwlaidd.
- Mae lleoliad Bangor yn ei gwneud yn lle delfrydol i astudio bioleg - mae'r ystod o fathau o bridd, hinsawdd a thopograffeg yn darparu nifer o gynefinoedd amrywiol, pob un o fewn cyrraedd hwylus ar gyfer astudiaethau maes.
- Mae Bangor yn gartref i swyddfeydd adrannol Adnoddau Naturiol Cymru a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg ac mae gan y ddau ohonynt gysylltiadau agos â'r brifysgol ac â staff sy'n gysylltiedig â'r cwrs hwn.
- Mae rhaglenni cyfnewid a chyfleoedd i astudio dramor ar gael - gweler tudalennau rhagarweiniol y prosbectws hwn am fanylion.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Organismal Diversity
- Ecology and Evolution
- Sgiliau Ymarferol 1
- Principles of Life 1
- Tiwtorialau

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Medrau Biowyddionaeth
- Evolution & Genetics
- Principles of Life 2

Modiwlau dewisol:
- Cyrsiau Maes
- Invertebrates
- Plant Diversity and Conservation
- Principles of Conservation
- Introduction to Herpetology
- Behavioural Ecology
- Intergrated Zoology
- Human Immunology
- Medical Microbiology
- Vertebrate Biology

Blwyddyn 3

Modiwlau gorfodol:
- Traethawd Hir
- Science and Employability Skills

Modiwlau dewisol:
- Advances in Behaviour
- Molecular Ecology and Evolution
- Attack and Defence in Plants
- Medical Genetics
- Forest Ecosystems
- Chemical Biology
- Forest Ecology
- Freshwater Ecosystems
- Human Evolutionary Biology
- Fish Physiology
- Environmental Microbiology & Biotechnology
- Primatology
- Life in a Changing Climate
- Life in Wetlands
- Parasites and Pathogens
- Ornithology

Blwyddyn 4
Mae'r cwrs Meistr mewn Bioleg yn rhaglen israddedig estynedig sy'n caniatau i fyfyrwyr raddio naill ai gyda BSc (Anrh) ar ddiwedd y drydedd flwyddyn neu gyda gradd Meistr ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn. Rhaid cyrraedd safon ddigon uchel ar ddiwedd Blwyddyn 2 i drosglwyddo i'r flwyddyn Meistr ar ôl cwblhau Blwyddyn 3.

Modiwlau gorfodol:
- Sgiliau Ymchwil Uwch
- Project Ymchwil Meistr

Byddwn yn newid ein graddau'n gyson o ganlyniad i sylwadau myfyrwyr a datblygiadau newydd. Oherwydd hyn gall cynnwys modiwlau newid ym mhob blwyddyn.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych amrywiaeth o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol bob wythnos, ynghyd â chyrsiau maes 2-ddiwrnod a thiwtorialau ym mlynyddoedd 1 a 2. Mae'r flwyddyn olaf yn cynnwys project traethawd hir, dan oruchwyliaeth aelod staff, ar bwnc sydd o ddiddordeb i chi.
Asesir trwy arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae biolegwyr yn dilyn amrywiaeth o yrfaoedd o fod yn ymgynghorwyr amgylcheddol i weithio ym maes ymchwil a datblygu, y gwasanaeth iechyd ac addysg bellach.

Mae 88% o fyfyrwyr yn fodlon gyda'r cwrs
(Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2020)

BIOLOGY WITH BIOTECHNOLOGY
BSc [Anrh] / MBioleg [Biotechnology]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C511 BSc/BBio BSc; C510 MBiol/Biot MBiol
Hyd: 3 blynedd BSc, 4 blynedd MBiol

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 128 ar gyfer MBiol o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A. Ar gyfer BSc - yn cynnwys gradd C mewn Bioleg os ydych yn astudio 1 pwnc gwyddoniaeth arall - Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Seicoleg, Gwyddor yr Amgylchedd, Daearyddiaeth, Daeareg; neu radd B mewn Bioleg os nad ydych yn astudio pwnc gwyddoniaeth arall. Ar gyfer MBiol - yn cynnwys gradd B mewn Bioleg
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol Ar gyfer BSc - yn cynnwys H5 mewn Bioleg. Ar gyfer MBiol - yn cynnwys H6 mewn Bioleg.
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC. Ar gyfer BSc -DMM gan gynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg **. Ar gyfer MBiol -DDM yn cynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**.
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds (1080): Rhagoriaeth drwodd a thro yn cynnwys 4 modiwl Bioleg**
- Mynediad i AU yn y Gwyddorau**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gweler y wefan am restr o'r modiwlau /meysydd pwnc derbyniol yn y gwyddorau. website.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad

Ffôn: 01248 388616
E-bost: biology@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/natural-sciences

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Biotechnoleg yw defnyddio bioleg i wella ansawdd bywyd, ac iechyd ein planed, trwy ddefnydd arloesol o brosesau cellog a moleciwlaidd i ddatblygu technolegau a chynhyrchion buddiol. Byddwch yn astudio bioleg microbaidd, planhigion ac anifeiliaid.
Bydd yr elfen biotechnoleg yn datgelu sut y cafodd y biotechnolegwyr cynharaf effaith sylweddol ar fywyd dynol trwy ddefnyddio galluoedd eplesol micro-organebau i gynhyrchu cynhyrchion bwyd fel bara, caws, cwrw a gwin. Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth am y ffyrdd y mae biotechnoleg fodern yn cynnig cynhyrchion a thechnolegau arloesol i frwydro yn erbyn afiechydon, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, bwydo'r newynog, lleihau ein gofynion ynni, darparu ynni glanach, a chynhyrchu prosesau diwydiannol diogelach, glanach a mwy effeithlon.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ymchwil wyddonol flaengar yn rhan annatod o'n rhaglenni ymchwil, ac yn treiddio i'n hamgylchedd dysgu. Mae ein harbenigedd mewn bioleg a biotechnoleg yn cynnwys astudiaethau i ficrobioleg feddygol ac amgylcheddol, bioleg planhigion, biotechnoleg fôr, geneteg pysgodfeydd, bioleg celloedd a genom, niwrofioleg a datblygiad.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys dau labordy ymchwil microbioleg gyda'r offer diweddaraf; Gardd Fotaneg; ein Hamgueddfa Byd Natur ein hunain sy'n cynnwys casgliad cynhwysfawr o ddeunydd infertebratau a fertebratau; ac acwaria môr a dŵr croyw helaeth.
- Mae lleoliad Bangor yn darparu ystod o wahanol fathau o bridd, hinsawdd a thopograffeg, ac amrywiaeth o gynefinoedd, pob un o fewn cyrraedd hwylus ar gyfer astudiaethau maes.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Principles of Life
- Organismal Diversity
- Tiwtorialau
- Sgiliau ymarferol 1
- Sgiliau ymarferol 2
- Ecology and Evolution

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Medrau Biowyddionaeth
- Principles of Life 2
- Evolution and Genetics


Modiwlau dewisol:
- Cyrsiau maes: Sbaen/Florida
- Invertebrates
- Human Immunology
- Introduction to Herpetology
- Integrative Zoology
- Plant Diversity & Conservation
- Medical Microbiology
- Vertebrate Biology
- Cell Biology
- Genomic Instability & Disease

Blwyddyn 3

Modiwlau gorfodol:
- Environmental Microbiology & Biotechnology
- Drug Development
- Science and Employability Skills
- Traethawd Hir

Modiwlau dewisol:
- Molecular Ecology & Evolution
- Systematics & Diversity
- Medical Genetics
- Attack and Defence Plants
- Freshwater Ecosystems 2
- Forest Ecosystems
- Chemical Biology
- Primatology
- Life in a Changing Climate
- Life in Wetlands
- Ornithology
- Forest Ecology
- Parasites and Pathogens
- Human Evolutionary Biology

Gall teitlau a chyfuniadau modiwlau newid.



Blwyddyn 4
Mae'r cwrs Meistr mewn Bioleg (Biotechnoleg) yn rhaglen israddedig estynedig sy'n caniatáu i fyfyrwyr raddio naill ai gyda BSc (Anrh) ar ddiwedd y drydedd flwyddyn neu gyda gradd Meistr ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn. Rhaid cyrraedd safon ddigon uchel ar ddiwedd Blwyddyn 2 i drosglwyddo i'r flwyddyn Meistr ar ôl cwblhau Blwyddyn 3.

Modiwlau gorfodol:
- Sgiliau Ymchwil Uwch
- Project Ymchwil Meistr

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych amrywiaeth o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol bob wythnos, ynghyd â chyrsiau maes a thiwtorialau ym mlynyddoedd 1 a 2. Mae'r flwyddyn olaf yn cynnwys project traethawd hir, dan oruchwyliaeth aelod staff, ar bwnc sydd o ddiddordeb i chi. Asesir trwy arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd gan raddedigion mewn Bioleg gyda Biotechnoleg gyfoeth o sgiliau a gwybodaeth a fydd yn berthnasol i lawer o sectorau cyflogaeth gan gynnwys labordai ysbytai, sefydliadau ymchwil, cyrff ymgynghorol amlddisgyblaethol, cwmnïau diwydiannol, elusennau ymchwil, adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau addysgol, cynghorau ymchwil a'r sector preifat.

ZOOLOGY
BSc [Anrh] / MSŵoleg

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C300 BSc/Zoo BSc; C301 MZool/Zoo MZool
Hyd: 3 blynedd BSc, 4 blynedd MZool

GOFYNION MYNEDIAD
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 128 ar gyfer MBiol o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A. Ar gyfer BSc - yn cynnwys gradd C mewn Bioleg os ydych yn astudio 1 pwnc gwyddoniaeth arall - Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Seicoleg, Gwyddor yr Amgylchedd, Daearyddiaeth, Daeareg; neu radd B mewn Bioleg os nad ydych yn astudio pwnc gwyddoniaeth arall. Ar gyfer MBiol - yn cynnwys gradd B mewn Bioleg
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol Ar gyfer BSc - yn cynnwys H5 mewn Bioleg. Ar gyfer MBiol - yn cynnwys H6 mewn Bioleg.
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC. Ar gyfer BSc -DMM gan gynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**. Ar gyfer MBiol -DDM yn cynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**.
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds (1080): Rhagoriaeth drwodd a thro yn cynnwys 4 modiwl Bioleg**
- Mynediad i AU yn y Gwyddorau**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gweler y wefan am restr o'r modiwlau / meysydd pwnc derbyniol yn y gwyddorau.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad

Ffôn: 01248 388616
E-bost: biology@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/natural-sciences

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae sŵoleg yn ymwneud ag astudio anifeiliaid. Yn y radd hon byddwch yn edrych ar amrywiaeth ffurf a swyddogaeth anifeiliaid, ac esblygiad ac ecoleg y prif grwpiau anifeiliaid. Byddwch yn darganfod sut mae anifeiliaid yn rhyngweithio â'i gilydd ac â'u hamgylcheddau, ac yn dysgu am eu datblygiad.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ymchwil wyddonol flaengar yn rhan annatod o'n rhaglenni ymchwil, ac yn treiddio i'n hamgylchedd dysgu. Mae ein meysydd arbenigedd yn cynnwys: bioleg poblogaeth a geneteg; ymsymudiad ac egnïaeth; ffisioleg amgylcheddol; endocrinoleg; parasitiaid; bioamrywiaeth; datblygiad.
- Mae ein cyfleusterau addysgu rhagorol yn cynnwys Amgueddfa Byd Natur sy'n cynnwys casgliad eithriadol o gynhwysfawr o bryfed a deunydd fertebrata, ac acwaria môr a dŵr croyw helaeth gyda chyfres o ystafelloedd y rheolir eu tymheredd.
- Mae lleoliad Bangor yn ei gwneud yn lle delfrydol i astudio sŵoleg gan fod gennym ystod eang o gynefinoedd daear a dŵr lleol ar gyfer teithiau maes.
- Mae rhaglenni cyfnewid a chyfleoedd i astudio dramor ar gael - gweler y tudalennau rhagarweiniol am fanylion.

> "Rwy'n hapus iawn fy mod wedi dewis dod i astudio ym Mhrifysgol Bangor ac rwy'n hynod o ddiolchgar i'r staff am draddodi darlithoedd gafaelgar a llawn brwdfrydedd"
>
> Sonny Culkin
> Myfyriwr Graddedig

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Organismal Diversity
- Ecology and Evolution
- Sgiliau Ymarferol 1
- Sgiliau Ymarferol 2
- Tiwtorialau
- Principles of Life

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Medrau Biowyddionaeth
- Evolution & Genetics
- Vertebrate Biology
- Integrative Zoology

Modiwlau dewisol:
- Principles of Conservation
- Principles of Life 2
- Introduction to Herpetology
- Behavioural Ecology
- Invertebrates
- Primatology Field Course
- Cwrs Maes - Arizona, India, Florida, Sbaen
- Cwrs Maes Lleol

Blwyddyn 3

Modiwlau gorfodol:
- Science and Employability Skills
- Traethawd Hir

Modiwlau dewisol:
- Freshwater Ecosystems 2
- Molecular Ecology & Evolution
- Life in a Changing Climate
- Life in Wetlands
- Attack and Defence in Plants
- Human Evolutionary Biology
- Ornithology
- Primatology
- Parasites and Pathogens
- Advances in Behaviour
- Animal Survival Strategies
- Developmental Biology

Gall teitlau a chyfuniadau modiwlau newid.

Blwyddyn 4
Mae'r cwrs Meistr yn rhaglen israddedig estynedig sy'n caniatau i fyfyrwyr raddio naill ai gyda BSc (Anrh) ar ddiwedd y drydedd flwyddyn neu gyda gradd Meistr ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn. Os llwydda'r myfyriwr i gyrraedd safon ddigon uchel ar ddiwedd Blwyddyn 2, yna caniateir iddo/iddi drosglwyddo i'r flwyddyn Meistr ar ôl cwblhau Blwyddyn 3.

Modiwlau gorfodol:
- Advanced Research Skills
- Project Ymchwil Meistr

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych amrywiaeth o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol bob wythnos, ynghyd â chyrsiau maes a thiwtorialau ym mlynyddoedd 1 a 2. Mae'r flwyddyn olaf yn cynnwys project traethawd hir, dan oruchwyliaeth aelod staff, ar bwnc sydd o ddiddordeb i chi. Asesir trwy arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae sŵolegwyr yn cael gyrfaoedd ym maes rheoli bywyd gwyllt, gwaith ymgynghorol yn ymwneud â'r amgylchedd, a'r cyfryngau lleol a chenedlaethol, tra bod rhai'n mynd ymlaen i ddilyn gwahanol raglenni ôl-raddedig.

BLWYDDYN SYLFAENOL
Cynigir Blwyddyn Sylfaen mewn Zoology. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ar gyfer ymgeiswyr sydd ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd neu fyfyrwyr a fyddai'n elwa o astudio blwyddyn ychwanegol. Ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen, caiff y myfyrwyr symud ymlaen i Flwyddyn 1 y rhaglen radd gysylltiedig. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

ZOOLOGY WITH CLIMATE CHANGE STUDIES
BSc [Anrh] / MSŵoleg [Climate Change Studies]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C319 BSc; C321 MZool
Hyd: 3 blynedd BSc, 4 blynedd MZool

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 128 ar gyfer MZool o gymhwyster Lefel 3* e.e.
- Lefel A. Ar gyfer BSc - yn cynnwys gradd C mewn Bioleg os ydych yn astudio 1 pwnc gwyddoniaeth arall - Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Seicoleg, Gwyddor yr Amgylchedd, Daearyddiaeth, Daeareg; neu radd B mewn Bioleg os nad ydych yn astudio pwnc gwyddoniaeth arall. Ar gyfer MZool - yn cynnwys gradd B mewn Bioleg
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol Ar gyfer BSc - yn cynnwys H5 mewn Bioleg. Ar gyfer MZool - yn cynnwys H6 mewn Bioleg.
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC. Ar gyfer BSc -DMM gan gynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**. Ar gyfer MZool -DDM yn cynnwys Teilyngdod mewn 4 modiwl Bioleg**.
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds (1080): Rhagoriaeth drwodd a thro yn cynnwys 4 modiwl Bioleg**
- Mynediad i AU yn y Gwyddorau**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gweler y wefan am restr o'r modiwlau / meysydd pwnc derbyniol yn y gwyddorau.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad

Ffôn: 01248 388616
E-bost: biology@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/natural-sciences

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae Syr David Attenborough wedi dweud mai newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i ddynoliaeth, gan arwain at ddiflaniad gwareiddiadau a difodiant llawer o'r byd naturiol. Bydd y cwrs hwn yn rhoi i chi'r wybodaeth a'r sgiliau i fod yn rhan hanfodol o'r ateb y mae David Attenborough wedi galw amdano.

Mae sŵoleg yn ymdrin ag ystod enfawr o bynciau gan gynnwys tacsonomeg, ffisioleg, esblygiad, morffoleg, bioamrywiaeth ac ymddygiad. Mae'r cwrs hwn yn ymdrin ag un o'r meysydd pwysicaf ac amserol mewn gwyddoniaeth: newid hinsawdd. Ymdrinnir â gwahanol agweddau, o'r wyddoniaeth sydd y tu ôl i newid hinsawdd, i effeithiau economaidd-gymdeithasol newid amgylcheddol. Byddwch yn dysgu am y cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng sŵoleg a newid hinsawdd. Sut yr effeithir ar anifeiliaid? Sut maent yn ymaddasu? Pa oblygiadau y mae hyn yn eu cael ar fywyd gwyllt a chadwraeth ecosystemau? Sut mae gweithredoedd rhai anifeiliaid yn effeithio ar ein hinsawdd? Byddwch hefyd yn meithrin sgiliau helaeth mewn dadansoddi yn y maes, mewn labordai a dadansoddi data.

PAM DEWIS BANGOR?
- Ein lleoliad yw'r labordy naturiol gorau yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd rhaid i chi deithio i ymweld â'r safleoedd maes pwysicaf ac amrywiol - maent ar garreg ein drws.
- Mae Bangor yn gartref i swyddfeydd adrannol y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH), Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB) ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (NWWT). Mae gan y rhain i gyd gysylltiad agos â'r brifysgol ac â'r staff sy'n ymwneud â'r cwrs hwn.
- Mae'r Ysgol hefyd yn rhan o Ganolfan yr Amgylchedd Cymru, sydd yn fenter bartneriaeth newydd rhwng Prifysgol Bangor a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol.
- Mae Prifysgol Bangor un nodedig gan fod ganddi ei hamgueddfa sŵolegol, ei gardd fotanegol a'i fferm brifysgol ei hun - defnyddir pob un o'r rhain ar gyfer addysgu ac ymchwilio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Organismal Diversity
- Principles of Life 1
- Sgiliau Ymarferol
- Ecology and Evolution
- Tiwtorialau

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Evolution and Genetics
- Climate Change
- Medrau Biowyddoniaeth

Modiwlau dewisol:
- Conservation Practice
- Invertebrates
- Behavioural Ecology
- Principles of Life 2
- Vertebrate Biology
- Introduction to Herpetology
- Integrated Zoology
- Cwrs Maes - Arizona, India, Florida, Sbaen
- Primatology Field Course
- Cwrs Maes Lleol

Blwyddyn 3

Modiwlau gorfodol:
- Traethawd Hir mewn Gwyddorau Biolegol
- Science and Employability Skills
- Tystysgrif Lefel 5 FETAC QETI mewn Astudiaethau Nyrsio: Proffil Rhagoriaeth
- Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn sy'n cwblhau Diploma Mynediad AU neu sydd â thystiolaeth o astudio diweddar ar Lefel 3 neu'n uwch yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sy'n cwrdd â'n gofynion mynediad; sylwch nad ydym yn derbyn NVQ Lefel 3 / QCF Lefel 3 fel ffordd o fodloni ein cymwysterau mynediad.

*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r radd Baglor Nyrsio yn addas i yrfaoedd sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl o bob oed sy'n wynebu heriau iechyd corfforol a meddyliol neu'n byw gydag anableddau dysgu sydd angen gofal nyrsio proffesiynol. Mae nyrsio yn cynnig ystod o yrfaoedd diddorol a buddiol ym maes gofal iechyd. Gellir cael cyngor ar ofynion mynediad a gyrfaoedd yn: www.nhscareers.nhs.uk/explore-by-career/nursing/

Adult Nursing BN
Yr un gair allweddol y gellid ei ddefnyddio i ddisgrifio swydd nyrsys sydd wedi cofrestru ym maes oedolion yw amrywiaeth - mae disgwyl i nyrsys cofrestredig sydd wedi cofrestru ym maes oedolion (ac efallai bod ganddynt gymwysterau cofrestradwy ychwanegol, er enghraifft rhagnodi neu addysgu) ofalu am anghenion pobl ar hyd eu hoes, yn cynnwys diogelu iechyd mamau a babanod. Byddwch yn gallu profi'r amrywiaeth honno yn ystod lleoliadau mewn meysydd clinigol lle mae nyrsys oedolion yn ymarfer a allai gynnwys:
- Nyrsio meddygol a llawfeddygol cyffredinol ac arbenigol yn y sector acíwt
- Nyrsio gofal critigol (gofal dwys a dibyniaeth uchel, adran frys, theatrau ac adferiad)
- Nyrsio cymunedol yn amgylchedd y cartref a gofal sylfaenol

Children's Nursing BN
Mae nyrs plant yn gofalu am blant a phobl ifanc o bob oed, o fabi newydd-anedig i glasoed, a chydag ystod o anghenion iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Mae'r swydd yn rhoi llawer o foddhad a all fod yn heriol yn safleoedd gofal iechyd heddiw lle mae newidiadau yn digwydd yn gyflym. Gan weithio fel aelod o dîm gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mae nyrsys plant yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai, clinigau cymunedol, unedau arbenigol neu gartrefi cleifion. Mae nyrsys plant yn gweithio'n agos gydag aelodau o'r teulu a gofalwyr i leihau'r effaith o fod yn sâl neu yn yr ysbyty.

Mae'r cwrs hwn wedi ei leoli ar gampws Canolfan Archimedes Bangor yn Wrecsam.

Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau damcaniaethol mewn nyrsio generig a phynciau maes plant penodol; cynhelir lleoliadau ar draws y tair blynedd mewn ystod o feysydd clinigol fel ysbytai, unedau babanod gofal arbennig, hosbis, gwasanaethau iechyd meddwl, timau nyrsio plant cymunedol ac unedau gofal dwys pediatreg arbenigol yn Lloegr.

Mental Health Nursing BN
Mae nyrsio iechyd meddwl yn yrfa heriol sy'n rhoi llawer o foddhad. Mae nyrsys iechyd meddwl yn gweithio gyda phobl sy'n profi amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl mewn nifer o wahanol leoliadau gan roi sylw i'w hiechyd meddwl yn ogystal â'u hangenion corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol. Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle i gael gradd a chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae gan bob blwyddyn o'r rhaglen fodiwlau generig a modiwlau penodol i faes iechyd meddwl sy'n gyfystyr â 120 credyd y flwyddyn. Mae gennym ystod o leoliadau ar gael i fyfyrwyr sy'n cynnwys gwasanaethau plant a'r glasoed, unedau cleifion mewnol, timau iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau gofal i'r henoed, unedau diogelwch canolig a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Learning Disability Nursing BN
Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle i ennill cymhwyster a fydd yn eich galluogi i gael gyrfa sy'n rhoi llawer o foddhad yn gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n byw gydag anableddau dysgu ac sydd angen cefnogaeth nyrs anabledd dysgu. Gellir gweld nyrsys anabledd dysgu yn gweithio mewn gwahanol leoliadau yn ogystal ag ar gyfer ystod o wahanol gyflogwyr sy'n cynnwys y GIG a'r sector annibynnol. Mae nyrsys anabledd dysgu yn aml yn cyfrannu at weithio amlbroffesiwn, ac yn ymwneud ag iechyd eu cleientiaid yn y cyd-destun ehangaf. Maent yn helpu cleientiaid o bob oed i fyw eu bywydau mor llawn ac annibynnol â phosibl, tra'n parchu eu hawliau a'u hurddas.
Treulir rhywfaint o amser y cwrs ar leoliad, mewn ystod o wahanol leoliadau. Pwrpas lleoliadau yw rhoi profiad i chi o weithio gyda chleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth o dan oruchwyliaeth nyrsys cofrestredig ac eraill.
O'r flwyddyn gyntaf mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar faes penodol, yn ogystal â rhai modiwlau cyffredin.

PAM DEWIS BANGOR?
- Safle uchel ar gyfer rhagolygon graddedigion gyda llawer o fyfyrwyr yn sicrhau cynigion swydd cyn graddio.
- Cysylltiadau rhagorol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cynnig lleoliadau gwaith ar draws gogledd Cymru.
- Mae gan ein staff ystod eang o brofiad clinigol yn eu meysydd proffesiynol.
- Campws ym Mangor a Wrecsam sy'n galluogi hyblygrwydd i fyfyrwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau ddewis ar ba gampws i astudio o leiaf rhan o'u cwrs
- Yn y 10 uchaf ar gyfer ymchwil cysylltiedig â Nyrsio a Bydwreigiaeth *(The Complete University Guide 2020).*

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Gallwch astudio un o'n pedwar maes ymarfer; Nyrsio Oedolion, Nyrsio Iechyd Meddwl, Nyrsio Anabledd Dysgu neu Nyrsio Plant. Mae'r cwrs yn seiliedig yn gyfartal ar theori ac ymarfer – 50% ar astudio damcaniaethol a threulir 50% mewn ymarfer clinigol yn datblygu'r cymhwysedd sydd ei angen i gael mynediad i gofrestr y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth. Byddwch yn datblygu sgiliau ac ymddygiad proffesiynol, y gwerthoedd a'r agweddau a ddisgwylir gan nyrs i sicrhau diogelwch pobl o bob oed, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Mae cyfleoedd i astudio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd eraill sy'n



fyfyrwyr ac mae gennym strategaeth ar gyfer cyfleoedd dysgu ar y cyd fel bod pob maes yn medru dysgu gyda'i gilydd am anatomeg a ffisioleg, seicoleg, cymdeithaseg, cyfathrebu, adfyfyrio, y gyfraith a moeseg.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd yn orfodol i chi wneud astudiaeth ddamcaniaethol a lleoliadau clinigol mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol a/neu breswyl yng ngogledd Cymru. Cewch eich cefnogi gan diwtor personol sy'n nyrs gofrestredig ac yn aelod o'r staff academaidd a chewch oruchwyliaeth fentora gan nyrs gofrestredig weithredol yn y lleoliad. Caiff gwaith theori ac ymarferol ei asesu drwy aseiniadau, arholiadau, cyflwyniadau a phortffolio Asesu Ymarfer Clinigol Cymru gyfan.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae cymhwyso fel Nyrs Gofrestredig yng Nghymru yn golygu y gallwch gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Gellir cael gyrfa gyda chyflogwyr mawr, er enghraifft byrddau iechyd GIG, neu sefydliadau annibynnol yn y sector a all arwain at gyfleoedd mewn arbenigeddau clinigol, rheolaeth, ymchwil neu addysg.

NMC Nursing & Midwifery Council

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
B720 BM/MW
Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn rhoi cyfle i gofrestru a gweithredu fel bydwraig a chael Gradd Anrhydedd mewn Bydwreigiaeth.
Bydd elfennau o'r cyrsiau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
I gael gwybodaeth am ein darpariaeth ddwyieithog ewch i: **www. bangor.ac.uk/healthcaresciences/bilingual_provision**

Lleoliad: Cynhelir y cwrs hwn ar y cyd ar ein campws ym Mangor ac yn Wrecsam.
Hyd: 3 blynedd llawn-amser
Mae'r cwrs yn cychwyn ym mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD:
Y gofynion mynediad a nodir ar y dde yw isafswm y gofynion addysgol sydd eu hangen. Os byddant yn cael eu dewis, disgwylir i ymgeiswyr ddod am gyfweliad a chael eu sgrinio ymhellach cyn dechrau ar y cwrs bydwreigiaeth.

Ar adeg argraffu'r llyfryn hwn, mae'r cwrs wedi ei ddilysu yn erbyn y Safonau Nyrsio a Bydwreigiaeth Addysg Cyn-gofrestru, 2010.
Bydd cyrsiau'n cael eu dilysu i'r Safonau Hyfedredd newydd ar gyfer Nyrsys Cofrestredig yn 2021, a'u haddasu fel sy'n briodol. Gweler y wefan am y manylion diweddaraf.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Gofal Iechyd

Ffon: 01248 383189
e-bost: iechyd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraugofaliechyd

GWYDDORAU IECHYD
Gweler tudalen 126 am wybodaeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gan ein staff ystod eang o brofiad clinigol cyfoes yn eu meysydd proffesiynol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr iechyd lleol, yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i sicrhau bod yr hyn y mae ein myfyrwyr yn ei ddysgu o'r ansawdd uchaf un.
- Mae bydwreigiaeth ym Mangor yn achrededig gan UNICEF UK Baby Friendly Initiative.
- Yn y 10 uchaf ar gyfer ymchwil cysylltiedig â Nyrsio a Bydwreigiaeth *(The Complete University Guide 2020).*

GOFYNION MYNEDIAD:
Proses Mynediad ar gyfer Cyrsiau Proffesiynol
5 TGAU ar radd C/4 neu uwch ac mae'n rhaid eu bod yn cynnwys Saesneg a Mathemateg, mae pynciau gwyddoniaeth yn ddymunol. Gall rhai ymgeiswyr Diploma Mynediad AU gael eu heithrio rhag cyflawni'r gofynion TGAU yn llawn.

Rhaid i bob ymgeisydd fodloni ystod o feini prawf mynediad – darllenwch Safonau Addysg Nyrsio Cyn-gofrestru y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu e-bostiwch â admissions health@bangor.ac.uk; i gael rhagor o gyngor neu wybodaeth. Mae gofynion mynediad yr NMC yn cynnwys dangos iechyd da a chymeriad da. Mae'r Ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael gwiriad cofnod troseddol a gofynion eraill ar gyfer dangos cymeriad da; bydd y Bwrdd Iechyd lleol yn gyfrifol am osod y gofynion am iechyd da. Bydd rhaid i ymgeiswyr gyda chymwysterau mynediad hŷn na 5 oed ddangos tystiolaeth o astudiaeth ddiweddar a aseswyd ar lefel briodol.

Gofynion academaidd:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg/Iaith Gymraeg a Mathemateg neu'r hyn sy'n cyfateb mewn Sgiliau Hanfodol Rhifedd a Chyfathrebu, lefel 2. O leiaf 04 o'r Irish Leaving Certificate. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DDM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Cymhwyster Project Estynedig
- Mynediad: 30 Rhagoriaeth, 15 gradd Teilyngdod
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE: Gradd B
- Bagloriaeth Cymru
- Irish Leaving Certificate: 120 pwynt o fan leiaf 4 pwnc uwch
- Tystysgrif Lefel 5 FETAC QETI mewn Astudiaethau Nyrsio: Proffil Rhagoriaeth
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol.
- Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn sy'n cwblhau Diploma Mynediad AU neu sydd â thystiolaeth o astudio diweddar ar Lefel 3 neu'n uwch yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sy'n cwrdd â'n gofynion mynediad; sylwch nad ydym yn derbyn NVQ Lefel 3 / QCF Lefel 3 fel ffordd o fodloni ein cymwysterau mynediad.

*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Byddwch yn cael cyfle i gael profiad clinigol mewn unedau mamolaeth sy'n cynnig gofal i ferched beichiog a'u teuluoedd yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl hynny. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau bydwreigiaeth yn y gymuned a darparu gofal parhaus. Byddwch yn cael cyfle hefyd i gael profiad o weithio mewn tîm amlddisgyblaethol gan ddarparu gwasanaeth cyfannol i ferched a'u teuluoedd.

PAM DEWIS Y CWRS HWN?
- Mae gennym hanes maith o hyfforddi bydwragedd i safon uchel.
- Mae'r darparwyr bydwreigiaeth glinigol yn rhoi cyfleoedd amrywiol a chyffrous i chi weithio gyda mentoriaid yn y gymuned ac mewn ysbytai.
- Telir ffioedd y cwrs gan GIG ynghyd â mynediad i gynllun bwrsariaeth GIG Cymru - ewch i: **http://www.nwssp.wales.nhs.uk/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr**

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae'r cwrs yn seliedig ar egwyddorion arweiniol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd wedyn yn gosod yr athroniaeth a'r gwerthoedd sy'n sail i'r gofynion ar gyfer mynediad i ran bydwreigaeth y gofrestr.
- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ferched
- Ymrwymiadau moesegol a chyfreithiol
- Parch tuag at unigolion a chymunedau
- Ansawdd a rhagoriaeth mewn gofal bydwreigiaeth
- Dysgu gydol oes
- Natur a chyd-destun cyfnewidiol ymarfer bydwreigiaeth
- Ymarfer a dysgu wedi ei seilio ar dystiolaeth

Noder bydd cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu a'i ddilyn o fis Medi 2020 er mwyn cydymffurfio â rhaglen safonau a hyfydreddau newydd y CNB bydd yn cael eu cyhoeddi Tachwedd 2019 ar gyfer addysg bydwreigiaeth.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Cyflwynir rhan theori y cwrs yn bennaf yn ein canolfan astudio ym Mangor a hefyd yn Wrecsam ynghyd ag astudio mewn lleoliadau eraill yng ngogledd Cymru a'r canolbarth ac astudiaeth breifat. Bydd y lleoliadau ymarfer gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ceir asesu parhaus drwy gydol y cyrsiau. Mae'n cynnwys asesu theori a chlinigol, ynghyd â gwaith cwrs a gwaith grŵp.

Nursing & Midwifery Council

Accredited as Baby Friendly by unicef

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
B821 BSc/DR Lleoliad: Capmws Canolfan Archimedes, Wrecsam.
Nid yw'r cwrs hwn yn cael ei ddysgu ym Mangor.
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
(Gweler y golofn nesaf hefyd)
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg/Iaith Gymraeg a Mathemateg neu'r hyn sy'n cyfateb mewn Sgiliau Hanfodol Rhifedd a Chyfathrebu, lefel 2. O leiaf 04 o'r Irish Leaving Certificate. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A: Yn cynnwys H6 mewn Bioleg neu Ffiseg
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DDM mewn Pwnc lechyd neu Wyddoniaeth
- Mynediad: 30 Rhagoriaeth a 15 gradd Teilyngdod mewn llwybr Gwyddoniaeth
- Irish Leaving Certificate: Lleiafswm o 5 Pwnc Uwch ar radd H3 (yn cynnwys Bioleg neu Ffiseg)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol: Yn cynnwys H6 mewn Bioleg neu Ffiseg
- Cymhwyster Project Estynedig
- Bagloriaeth Cymru
- Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn sy'n cwblhau Diploma Mynediad AU neu sydd â thystiolaeth o astudio diweddar ar Lefel 3 neu uwch yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sy'n cwrdd â'n gofynion mynediad; sylwch nad ydym yn derbyn NVQ Lefel 3 / QCF Lefel 3 fel ffordd o fodloni ein cymwysterau mynediad.

*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Gofal Iechyd

Ffon: 01248 383189
e-bost: iechyd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraugofaliechyd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae radiograffeg yn un o'r proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth. Mae radiograffeg ddiagnostig yn gymorth amhrisiadwy i wneud diagnosis o glefyd. Mae radiograffwyr diagnostig yn gyfrifol am gynhyrchu delweddau gan ddefnyddio pelydrau-X a dulliau eraill yn cynnwys uwchsain, tomograffeg gyfrifiadurol (CT), delweddu radioniwclid (RNI) a delweddu cyseiniant magnetig (MRI). Mae radiograffwyr yn rhoi sylwadau ar ddelweddau i'r sawl sy'n cyfeirio ar ôl cwblhau archwiliad; gallant hefyd wneud adroddiadau llawn ar ôl cael hyfforddiant ôl-radd arbenigol.

Y broses mynediad i gyrsiau proffesiynol (Gweler y golofn flaenorol hefyd)
5 TGAU ar radd C/4 neu'n uwch ac mae'n rhaid eu bod yn cynnwys Saesneg a Mathemateg, mae pynciau gwyddoniaeth yn ddymunol. Gall rhai ymgeiswyr Diploma Mynediad AU gael eu heithrio rhag cyflawni'r gofynion TGAU yn llawn.
Disgwylir i ymgeiswyr ddod am gyfweliad os byddant yn cael eu dewis a chael eu sgrinio ymhellach cyn dechrau mewn radiograffeg.
Mae'r Cyngor Proffesiynau lechyd a Gofal yn nodi gofynion mynediad cyffredinol ar gyfer cael eich derbyn ac yn nodi bod rhaid i bob ymgeisydd ddangos eu bod mewn iechyd da ac o gymeriad da.
Mae'r Ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael gwiriad cofnod troseddol a gofynion eraill i ddangos cymeriad da; mae gofynion hefyd o ran iechyd da, a gaiff ei asesu trwy sgrinio iechyd galwedigaethol. Gall tîm derbyniadau'r cwrs roi mwy o wybodaeth ar gais (e-bostiwch rdse01@bangor.ac.uk gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych).
Bydd rhaid i ymgeiswyr gyda chymwysterau mynediad hŷn na 5 oed ddangos tystiolaeth o astudiaeth ddiweddar ar lefel briodol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn y safle uchaf yn y DU am Radiograffeg gyda chyfradd gyflogaeth o 100% *(Good University Guide 2020)*
- Bydd y rhaglen hon yn eich galluogi i ennill gradd anrhydedd a bod yn gymwys i wneud cais i gofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau lechyd a Gofal.
- Mae gan ein graddedigion record ragorol o gael gwaith cyn graddio.
- Bydd tua hanner eich dysgu'n digwydd mewn amgylchedd clinigol – mae'r holl leoliadau mewn gweithleoedd modern gydag offer da. Nid oes yr un brifysgol arall yn cynnig mwy o wythnosau clinigol drwy gydol y cwrs.
- Rydym yn cynnig cymorth ac arweiniad o'r radd flaenaf ac yn dysgu mewn grwpiau bach lle bo'n bosib.
- 5ed yn y DU ar gyfer Radiograffeg a 4ydd am ansawdd ymchwil cysylltiedig *(The Times Good University Guide 2020).*

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Cyflwynir y cynnwys hyfforddedig yng Nghanolfan Archimedes, Wrecsam.

Blwyddyn 1
Mae'r flwyddyn hon yn cynnwys 17 wythnos academaidd a 21 wythnos glinigol. Mae profiad clinigol yn cychwyn yn wythnos 9 felly byddwch yn ymgyfarwyddo'n gyflym ag agweddau proffesiynol ar y cwrs.

Blwyddyn 2
Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio gwybodaeth yn y maes clinigol.
Yn ogystal ag 16 wythnos academaidd byddwch yn treulio 25 wythnos ar leoliad clinigol, yn cynnwys lleoliadau dewisol.
Byddwch hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer y Project Ymchwil ym Mlwyddyn 3.

Blwyddyn 3
Bydd 10 wythnos academaidd a 22 wythnos glinigol. Byddwch yn cymhwyso'ch dysgu i broject ymchwil ac yn datblygu sgiliau mewn uwch gymwysiadau a dulliau. Trwy gydol eich cwrs byddwch yn ymdrin â nifer o feysydd astudio fel: Gwyddoniaeth y Corff Dynol, Theori ac Ymarfer Radiograffeg, Dehongli Delweddau, Ymarfer Gofal lechyd a Gwerthuso a Pharatoi ar gyfer Ymarfer.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Fel rheol byddwch yn treulio 35 awr yr wythnos ar y cwrs pan fyddwch ar leoliad clinigol (gan gynnwys hanner diwrnod o astudio) a 25 awr pan fyddwch yn gwneud astudiaeth academaidd. Disgwylir i chi gwblhau aseiniadau/projectau a rhywfaint o waith ymarferol yn eich amser eich hun a pharatoi ar gyfer asesiadau clinigol. Mae gwaith ymarferol yn hynod bwysig a datblygir sgiliau gwerthuso mewn sesiynau clinigol ymarferol. Mae'r asesu yn cynnwys aseiniadau ysgrifenedig, cyflwyniadau poster, arbrofion ymarferol, asesiadau clinigol, cyflwyniadau llafar, dysgu drwy ddatrys problemau a phroject ymchwil.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae rhagolygon gyrfa mewn Radiograffeg Diagnostig yn parhau i fod yn dda. Ers yr 11 mlynedd ddiwethaf mae ein graddedigion wedi cael cyflogaeth 100%, yn bennaf o fewn y GIG. Mae datblygu gyrfa yn gysylltiedig â datblygiad proffesiynol parhaus gyda'r cyfle i gael cymwysterau ôl-radd.
Ar ôl cymhwyso, mae'n bosibl arbenigo mewn modd delweddu penodol neu ddatblygu eich gyrfa ymhellach o fewn Radiograffeg fel uwch ymarferwr neu ymarferwr ymgynghorol.

hcpc health & care professions council

HEALTH AND SOCIAL CARE
BA [Anrh] / MSocSci

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
L510 BA/HSC;
L514 MSOCSCI/HSC
Hyd: 3 blynedd (BA); 4 blynedd (MSocSci)

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer graddau cydanrhydedd dylech hefyd edrych ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall a ddewiswyd gennych. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 pwynt tariff ar gyfer BA, 112 pwynt ar gyfer MSocSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:

- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt (DMM yn ofynnol ar gyfer MSocSci)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Irish Leaving Certificate: 96 pwynt o fan leiaf 4 pwnc uwch
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE (Gradd B yn ofynnol ar gyfer MSocSci)
- Bagloriaeth Cymru

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Gofal Iechyd

Ffon: 01248 383189
e-bost: iechyd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraugofaliechyd

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn rhoi llwybr amlddisgyblaethol, wedi'i seilio ar wyddor cymdeithas, at gymhwyster ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Yn wahanol i hyfforddiant clinigol, rhoddir pwyslais ar brofiadau cymdeithasol iechyd a gofal, yn cynnwys y materion polisi, darparu a rheoli gwasanaethau, a gwerthuso tystiolaeth. Mae rhai modiwlau, yn ogystal â rhai pynciau mewn cyfuniadau graddau cyd-anrhydedd, hefyd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r manylion yn y prosbectws.

PAM DEWIS BANGOR?

- Yn y 20 uchaf yn y DU ar gyfer Boddhad Myfyrwyr *(Complete University Guide 2020).*
- Ein nod yw rhoi awyrgylch dysgu cyfeillgar ac anffurfiol.
- Mae strwythur y radd yn hyblyg ac yn cynnig ystod o arbenigeddau a llawer o ddewis.
- Dysgir y radd gan arbenigwyr yn y pwnc a'u nod yw bod yn arloesol a darparu at anghenion gwirioneddol.
- Bwriad gwaith y flwyddyn ragarweiniol yw rhoi cyfle i chi fagu eich hyder, beth bynnag fo'ch cefndir.
- Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu. Yn ogystal â datblygu sgiliau personol, rydym yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau ymarferol mewn arsylwi, dehongli, prosesu a chyflwyno gwybodaeth - pethau sydd i gyd yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.
- Bydd cyfle i chi dreulio semester dramor fel rhan o'r radd.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Mae'n rhoi cyflwyniad i'r cysyniadau allweddol, cefndir hanesyddol a materion cyfoes yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â rhagarweiniad i sgiliau ymchwil. Bydd modiwlau yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:

- Health and Welfare Issues
- Social Research
- Criminology and Criminal Justice
- Social Science
- Cymdeithaseg a'r Byd Cyfoes

Blwyddyn 2
Mae modiwlau yn rhoi sylfaen drwyadl mewn safbwyntiau damcaniaethol allweddol, astudiaethau cymharol mewn polisi iechyd a lles, a methodolegau ymchwil. Bydd y pynciau dan sylw yn cynnwys:

- Personal Social Services
- Dulliau Ymchwil
- Sociology of Health
- Social Psychology
- Trosedd a Chyfiawnder
- Social Work
- Quality and Compliance
- Ageing and Well-being
- Public Health

Blwyddyn 3
Yn ogystal â phroject ymchwil yn canolbwyntio ar faes diddordeb, byddwch yn cwblhau'ch gradd gydag astudiaeth fanylach a all gynnwys pynciau fel:

- Global Health & Social Care
- Mental Health & Society
- Policing and Society
- Crime
- Addiction
- Health Leadership
- Epidemiology
- Health Economics
- Health Policy
- Housing

Blwyddyn 4 (MSocSci)
Gall myfyrwyr ymestyn eu hastudiaethau israddedig ar ôl Blwyddyn 3 (BA) i Flwyddyn 4 (MSocSci). Amcan y rhaglen yw rhoi cyfleoedd i ehangu gwybodaeth am y ddisgyblaeth trwy ddefnyddio ymchwil gyfoes, yn ogystal â gwneud project grŵp. Mae modiwlau'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:

- Research Processes and Strategy
- Social Policy
- Health Policies
- Social Work
- Social Science

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn gwneud gwaith darllen, ymchwil, chwilio llyfrgelloedd, gwaith project a pharatoi ar gyfer cyflwyniadau. Mae rhai modiwlau'n cynnwys gwaith project neu weithio mewn grŵp bach. I wneud eich traethawd hir bydd angen i chi ymchwilio yn y maes o'ch dewis. Mae gennym gysylltiadau da gyda phrifysgolion yn Nenmarc, Sbaen, Gwlad Pwyl, yr Almaen a'r Ffindir, a gellwch dreulio hyd at un semester dramor.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, yn cynnwys gwaith cwrs, arholiadau a'r traethawd hir. Caiff rhai modiwlau eu hasesu'n gyfan gwbl drwy waith cwrs.

RHAGOLYGON GYRFA
Drwy astudio'r pwnc hwn byddwch yn cael cefndir da ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd fel rheoli gwasanaethau iechyd, ymchwil, hybu iechyd a gwaith cymdeithasol a chymunedol.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd cydanrhydedd gydag amrywo bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

SEICOLEG

- **Psychology BSc/MSci**
- **Psychology with Clinical and Health Psychology BSc/MSci**
- **Psychology with Neuropsychology BSc**
- **Psychology with Forensic Psychology BSc**
- **Psychology with Business Management BSc**
- **Neuropsychology BSc (Intercalated)**

Graddau Cysylltiedig

- French with Psychology (tu 226)
- German with Psychology (tud 228)
- Sport and Exercise Psychology (tud 140)
- Marketing with Psychology (tud 159)
- Childhood & Youth Studies and Psychology (tud 63)
- Criminology & Criminal Justice and Psychology (tud 63)
- Linguistics and Psychology (tud 64)
- Sociology and Psychology (tud 64)
- Social Policy and Psychology (tud 64)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C800 BSc/PS Psychology
C807 MSci/PS Psychology
C880 BSc/PHS Psychology with Clinical and Health Psychology
C808 MSci/PHS Psychology with Clinical & Health Psychology
C801 BSc/PsyN Psychology with Neuropsychology
2R87 BSc/PWB Psychology with Business
Hyd: 3 blynedd (BSc); 4 blynedd (MSci)

Neuropsychology (Intercalated) B140
BSc/CN (Hyd 1 flwyddyn)

Am godau cyd-anrhydedd gweler tudalennau 63-64

GOFYNION MYNEDIAD
Gweler tudalennau cyrsiau unigol am ofynion mynediad.

MWY O WYBODAETH
Seicoleg

Ffôn: 01248 388453
E-bost: seicoleg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/seicoleg

BETH YW NATUR SEICOLEG?
Fel myfyriwr seicoleg ym Mhrifysgol Bangor cyflwynir seiliau gwyddonol ymddygiad dynol i chi a byddwch yn astudio'r ymddygiad hwnnw. Ymhlith llawer o bynciau hynod ddiddorol eraill, byddwch yn ymchwilio i wahaniaethau rhwng unigolion, gwybyddiaeth, dylanwad yr ymennydd ar ymddygiad, hanes seicoleg, effaith bywyd mewn byd cymdeithasol, a byddwch yn dysgu casglu a dadansoddi data fel gwyddonydd.

Bydd y sgiliau a'r treiddgarwch y byddwch yn eu meithrin yn ddefnyddiol mewn llawer o gyd-destunau gwaith, ac yn eich paratoi ar gyfer hyfforddiant pellach fel seicolegydd proffesiynol, ymchwilydd gwyddonol, neu fel gweithiwr graddedig mewn ystod amrywiol o yrfaoedd eraill.

PAM DEWIS BANGOR?
Mae'r cyfuniad o safleoedd uchel yn y tair agwedd allweddol ar foddhad gyda chwrs, ansawdd ymchwil a rhagolygon graddedigion gyda phrofiadau dysgu anarferol yn gwneud astudio seicoleg ym Mangor yn brofiad unigryw.

- 3ydd o ran profiad myfyrwyr *(Times Good University Guide 2020).*
- 93% mewn gwaith neu addysg bellach o fewn 6 mis *(Psychology, Unistats 2019).*
- Yn safle 17 am ymchwil o ansawdd uchel *(Complete University Guide 2020)*
- Cafodd 89% o ymchwil Seicoleg ei hystyried naill ai 'gyda'r gorau yn y byd' neu'n 'rhagorol yn rhyngwladol' *(REF 2014).*
- Rydym yn un o'r adrannau Seicoleg mwyaf yn y DU gydag un o'r niferoedd mwyaf o fyfyrwyr tramor sy'n rhoi naws gosmopolitaidd fywiog i ni.
- Mae tiwtoriaid arbenigol, gan gynnwys tiwtoriaid gyrfaoedd, anabledd a rhyngwladol, yma i'ch helpu chi i gyflawni'ch potensial.
- Ceir yma nifer fawr o labordai ymchwil arbenigol gan gynnwys sganiwr MRI 3Tesla, TMS, ERP, EEG, Meithrinfa a labordy Anatomeg yr Ymennydd.

CYFLOGADWYEDD
Mae cyflogadwyedd yn thema allweddol yn y rhaglen seicoleg y byddwch yn ei dilyn ym Mangor ac rydym wedi ymgorffori nifer fawr o gyfleoedd yn ein gradd i roi CV mor gryf â phosibl i raddedigion a'u harfogi â llu o sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i yrfaoedd mewn seicoleg ac mewn meysydd eraill. Gall myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar unrhyw raglen radd israddedig yn yr Ysgol ddewis newid eu gradd i radd 'gyda Blwyddyn Lleoliad Gwaith'. Cefnogir myfyrwyr i ddod o hyd i brofiad gwaith eu hunain. Bydd lleoliad gwaith yn para rhwng 7 a 12 mis rhwng yr 2il flwyddyn ar 3edd flwyddyn.

Mae'r ffaith syml y byddwch yn graddio o adran seicoleg o fri rhyngwladol, sy'n adnabyddus am ei gwaith ymchwil, yn ychwanegu gwerth ychwanegol at eich gradd ac yn gwella'r siawns o gael swydd dda.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn dysgu am y pynciau y byddech chi'n disgwyl eu gwneud ar radd sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain *(BPS).* Y gwahaniaeth yw y byddwch ym Mangor yn dysgu rhai o'r pethau hyn trwy brofiadau a thechnegau dysgu nad ydynt ar gael yn unman arall.

Rydym yn cynnig profiadau dysgu unigryw, gan gynnwys: anatomeg ymarferol yr ymennydd yn y flwyddyn gyntaf lle byddwch yn cael gweld, cyffwrdd a gafael mewn ymennydd dynol go iawn; modiwl a gyflwynir trwy gyfrwng gemau yn yr ail flwyddyn, yn cynnwys actorion, gwisgoedd, cyrchoedd bychain a hyd yn oed sombiod; a modiwl cymhwysol yn y drydedd flwyddyn ar seicoleg ysgogol a chadarnhaol a allai, ar y diwedd, beri i chi ddweud "Dwi'n barod i redeg marathon".

Wrth gwrs, ceir yr ystod arferol o ddarlithoedd, seminarau, tiwtorialau a sesiynau ymarferol ac rydym yn gwneud defnydd helaeth o dechnoleg er mwyn gwella'ch profiad dysgu gan gynnwys blogiau, podlediadau, deunyddiau ar-lein etc. Cewch eich asesu drwy gymysgedd o waith cwrs ac arholiadau diwedd semester ac yn y drydedd flwyddyn byddwch yn cyflawni eich project ymchwil mawr eich hun mewn maes sydd o ddiddordeb i chi.

Mae gennym academyddion ag ystod eang o arbenigeddau ymchwil, llawer ohonynt gydag enw da yn rhyngwladol, ac mae ein graddedigion yn ystyried eu projectau fel un o rannau mwyaf heriol ond gwerth chweil y cwrs. Mae hyn yn sicrhau bod gan ein graddedigion sgiliau datblygedig iawn.

CYNNAL DYSGU
Rydym yn buddsoddi'n helaeth i sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at gyfleusterau technoleg o ansawdd uchel sydd wedi'u cynllunio ar gyfer dysgu effeithiol a difyr. Mae gan ein prif adeilad Seicoleg dros 100 o gyfrifiaduron i fyfyrwyr sy'n rhoi mynediad rhwydd at yr holl feddalwedd y bydd ei angen arnoch ac mae nifer o gyfleusterau cyfrifiadurol yn agored 24/7.

accredited by: The British Psychological Society

Labordai a Chyfleusterau o'r radd flaenaf
Ceir ystod o gyfleusterau labordy ar gyfer sesiynau ymarferol a phrojectau. Mae'r labordai'n cynnwys rhai ar gyfer astudio canfyddiad gweledol a rheolaeth echddygol, caffael iaith, dal sylw babanod, ac anhwylderau gwybyddol-emosiynol. Mae'r labordai hyn yn cynnwys offer soffistigedig, e.e. offer electroffisiolegol a gynlluniwyd i gofnodi gweithgaredd yr ymennydd, systemau olrhain symudiadau is-goch a gynlluniwyd i gofnodi symudiadau llygaid ac aelodau'r corff a sganiwr MRI .

Mae myfyrwyr sy'n gweithio gyda phlant yn cael mynediad i'n Meithrinfa Gofal Dydd; mae gan hon fannau ymchwil gyda'r offer diweddaraf, sy'n cynnwys ystod o gyfleusterau cyfrifiadurol ac arsylwi. Mae gennym hefyd gyfleusterau arbenigol ar gyfer gwaith mewn canfyddiad lleferydd a datblygiad plant.

Yn ogystal, mae gan y prif adeilad seicoleg i fyfyrwyr ystafelloedd arbrofol cyffredinol sydd ar gael at ddefnydd myfyrwyr; eto, mae gan y rhain ystod o gyfarpar arbrofol. Mae Adeilad Wheldon yn cyfuno gwasanaethau ar gyfer addysgu, ymchwilio ac astudio mewn un adeilad ac yn ein galluogi i ddatblygu ystod o strategaethau addysgu cyffrous ac archwilio ffyrdd arloesol o gyflwyno'r cwricwlwm seicoleg.

MEYSYDD ARBENIGEDD
Mae gennym dimau academaidd o fri byd-eang sy'n gweithio yn y meysydd arbenigeddau ymchwil eang canlynol:

Canfyddiad, Gweithredu a Chof
Mae'r grŵp hwn yn ymdrin â'r ffordd rydym yn tynnu gwybodaeth o'r amgylchedd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein gweithredoedd, a sut mae rhyngweithiadau o'r fath yn arwain at ddysgu a'r cof. Mae astudiaethau'n ymchwilio i lif gwybodaeth o ganfyddiad (e.e. golwg, clyw, cyffwrdd), i sut mae sylw a symudiadau llygaid yn arwain y broses o ddewis gweithredoedd, sut y gellir newid ymatebion rhwng gwahanol dasgau, sut mae gweithredoedd yn cael eu cyfeirio trwy ofod 3D a sut mae systemau cof yn rhyngweithio â'i gilydd.

Seicoleg Ymddygiad, Iechyd a Chlinigol
Yr hyn sydd wrth wraidd y grŵp ymchwil Seicoleg Glinigol, Iechyd ac Ymddygiad (CHBP) yw defnyddio gwybodaeth seicolegol i ddeall a rhoi sylw i ymddygiad dynol a lles seicolegol ehangach. Mae amrywiaeth o gwestiynau cymhwysol yn arwain yr ymchwil yn y grŵp hwn, gyda llawer yn rhoi sylw i Newid Ymddygiad, ond hefyd brosesau datblygu nodweddiadol ar draws y rhychwant oes. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau seicolegol, rydym yn ceisio gwneud newidiadau gwirioneddol i ymddygiad sydd o fudd i unigolion ac i ganlyniadau seicolegol ac ansawdd bywyd eraill. Mae seicoleg iechyd hefyd yn ganolbwynt pwysig ar gyfer ymchwil. Yn y grŵp bywiog hwn fe wnaethom sefydlu rhaglen gradd doethur gyntaf Prydain mewn seicoleg glinigol.

Iaith, Dwyieithrwydd a Datblygiad Gwybyddol
Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymddygiadol, niwroseicolegol a niwrowyddoniaeth wybyddol i astudio'r rhyngweithio rhwng iaith a gwybyddiaeth. Mae projectau ymchwil yn cynnwys ymchwil ar lefel sylfaenol a thrafodol gyda babanod uniaith a dwyieithog, plant ac oedolion. Mae pynciau ymchwil cyfredol yn cynnwys datblygiad ffonolegol a geirfaol, adnabod geiriau, prosesu semantig, llythrennedd, rhaglenni triniaeth ar gyfer affasia pobl dwyieithog, manteision gwybyddol i ddwyieithrwydd, preimio traws-iaith ac ymyrraeth mewn pobl ddwyieithog.

Niwrowyddoniaeth Gymdeithasol
Yn fras, mae ein cwestiynau ymchwil yn y maes hwn yn ymwneud â sut mae'r ymennydd yn gwneud synnwyr o'r byd cymdeithasol. Canolbwyntir yn arbennig ar ganfyddiad pobl eraill - eu hwynebau, eu cyrff, eu lleisiau; deall ystyr gweithredoedd eraill; dysgu cymdeithasol; anhwylderau gwybyddiaeth gymdeithasol; ac emosiwn a chof.

CYRSIAU ANRHYDEDD SENGL
Rydym yn cynnig dewis o gyrsiau BSc anrhydedd sengl a dau gwrs MSci israddedig estynedig. Achredwyd yr holl raglenni hyn gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) fel rhai sy'n gwneud myfyriwr yn gymwys i gael Aelodaeth Siartredig i Raddedigion, ar yr amod y ceir o leiaf anrhydedd ail ddosbarth yn y radd. Dyma'r cam cyntaf tuag at ddod yn Seicolegydd Siartredig ac mae'n hanfodol os dymunwch barhau â hyfforddiant proffesiynol pellach mewn seicoleg. Oherwydd natur ddeinamig ein rhaglenni gradd, mae pynciau astudio penodol yn newid o bryd i'w gilydd, felly edrychwch ar y wefan i gael y rhestr ddiweddaraf o fodiwlau sydd ar gael.

CYFLEOEDD ÔL-RADD
Mae llawer o'n myfyrwyr yn mwynhau bod ym Mangor gymaint nes eu bod yn dewis aros yma a mynd ymlaen i astudio fel myfyrwyr ôl-raddedig. Mae gennym gymuned fywiog o dros 200 o fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n mwynhau'r heriau academaidd a'r rhagoriaeth ymchwil sy'n gysylltiedig â Seicoleg ym Mangor.

ASTUDIO SEICOLEG GYDA PHWNC ARALL
Os oes gennych ddiddordeb arbennig mewn Seicoleg Chwaraeon, yna mae'r Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer ym Mangor yn cynnig gradd BSc Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer - sydd wedi'i hachredu gan y BPS (gweler tudalen 140).

Rydym hefyd yn cynnig graddau cyd-anrhydedd (ni fydd y rhain yn eich galluogi i gael Aelodaeth Siartredig i Raddedigion o Gymdeithas Seicolegol Prydain).Gweler tudalennau 63-64 am godau UCAS ar gyfer Seicoleg gydag: Astudiaethau Plentyndod, Criminology and Criminal Justice, English Language, Linguistics a graddau Cymdeithaseg. Gellwch hefyd astudio Seicoleg fel cydran o gynlluniau gradd eraill: French with Psychology (tudalen 226), German with Psychology (tudalen 228).

> "Wrth astudio Seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg cefais gyfle i ymchwilio a thrafod pynciau o fewn maes sydd â ddiddordeb i mi gan ddefnyddio'r iaith yr wyf fwyaf cyfforddus ynddi. Yn ogystal, roedd yn fy ngalluogi i gwrdd â phobol o bob cwr o Gymru sy'n rhannu'r un brwdfrydedd â mi am Seicoleg."
>
> **Gwennan Mai Evans**
> **Cyn-fyfyriwr Seicoleg**

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C800 BSc/PS; C807 MSci/PS
Hyd: 3 blynedd (BSc); 4 blynedd (MSci)

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 136 o bwyntiau ar gyfer MSci o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (dymunir yn gryf i ymgeiswyr gael o leiaf un pwnc gwyddonol perthnasol – Mathemateg, Bioleg, Bioleg Ddynol, Ffiseg, Cemeg, Ystadegau, Seicoleg a Gwyddoniaeth)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: O leiaf DMM ar gyfer BSc; DDD ar gyfer MSci
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: 21 gradd Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod a 6 Llwyddo ar gyfer BSc; 30 gradd Rhagoriaeth a 15 Teilyngdod ar gyfer MSci
- Bagloriaeth Cymru
- Derbynnir Cymhwyster Project Estynedig mewn pwnc perthnasol
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol a Sgiliau Allweddol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Seicoleg

Ffôn: 01248 388453
E-bost: seicoleg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/seicoleg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Bydd y cwrs 'seicoleg bur' hwn yn rhoi dealltwriaeth wyddonol i chi o'r prosesau sylfaenol sy'n ein galluogi i ddysgu, meddwl, teimlo ac ymaddasu i'n hamodau cymdeithasol. Mae'r cwrs yn ymdrin ag ymchwilio i ymddygiad o fabandod i henaint, ac mae'n delio â'r ffactorau biolegol, cymdeithasol ac unigol sy'n effeithio ar seicoleg ddynol. Mae'r cwrs hwn yn cynnig y dewis ehangaf posibl o fodiwlau, sy'n eich galluogi i addasu'r hyn rydych yn ei astudio wrth i'ch diddordebau ddatblygu.

Cynlluniwyd blwyddyn gyntaf y cwrs i roi rhagarweiniad eang i astudio seicoleg. Ei bwriad yw rhoi sylfaen drylwyr yn y pwnc i rai heb unrhyw gefndir seicoleg a hefyd alluogi rhai sydd eisoes wedi astudio seicoleg i gynyddu ehangder a dyfnder eu dealltwriaeth. Mae'r ail flwyddyn yn parhau ar yr un sail, gan alluogi graddedigion i ymdrin â'r holl bynciau craidd sy'n ofynnol i gael Aelodaeth Siartredig i Raddedigion o'r BPS. Mae blwyddyn pedwar yn cwblhau'r radd MSci gyda phroject ymchwil uwch a modiwl dulliau ymchwil ar lefel ôl-raddedig, ynghyd ag astudio tri phwnc ar lefel ôl-raddedig a ddewisir o ystod o fodiwlau.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae pob modiwl yn y flwyddyn 1af a'r 2il flwyddyn yn orfodol, gyda myfyrwyr yn rhydd i ddewis o nifer fawr o fodiwlau yn y 3edd flwyddyn a'r 4edd flwyddyn os ydynt yn ymgymryd â'r radd MSci. Bob blwyddyn, rydych yn astudio cyfanswm o 120 credyd ac mae'r modiwlau'n crynhoi dros y blynyddoedd i roi ehangder a dyfnder dealltwriaeth.

Blwyddyn 1
Yn ogystal â modiwlau'n ymdrin â dulliau ymchwil ac ysgrifennu gwyddonol a chyfathrebu, byddwch yn astudio ystod eang o bynciau mewn meysydd fel:
- Psychology as a Science
- Stress and Distress
- Happiness
- Faith and Culture
- Applied Psychology
- Brain and Mind

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau â modiwlau dulliau ymchwil, gan adeiladu eich set sgiliau a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau craidd yn cynnwys:
- Seicoleg Gymdeithasol
- Cognitive Psychology
- Biological Psychology
- Behavioural Psychology
- Seicoleg Datblygiad
- Personality and Individual Differences
- Clinical Psychology
- Concepts in Psychology

Blwyddyn 3
Yn ogystal â gwneud eich project mewn maes sy'n gysylltiedig â'ch prif ddiddordebau, byddwch yn manteisio ar arbenigedd ein staff academaidd gan ein bod yn cynnig modiwlau sy'n cwmpasu ystod fawr ac amrywiol o feysydd gan gynnwys:
- Applied Behaviour Analysis
- Psychology of Addictive Behaviours
- Evolution and Human Social Behaviour
- Cognitive Neuroscience
- Consumer Psychology
- Perception
- Health Psychology
- Social Cognition
- Memory
- Control of Mental Processes
- Behavioural Methods in Education
- Mindfulness
- Brain and Language
- Plant, Teuluoedd a'r Gymdeithas
- Dwyieithrwydd
- Disorders of Literacy
- Brain Development and Degeneration
- Forensic Psychology
- Stress, Anxiety and Health
- Counselling Skills
- Positive Psychology & Goal Setting
- Niwroastheteg
- Plant a Cham-drin Sylweddau

Blwyddyn 4 – MSci yn unig
Yn ogystal ag ymestyn eich project a datblygu eich sgiliau ymchwil ymhellach, byddwch yn dewis modiwlau fel:
- Clinical Neuropsychology
- Behaviour Change
- Neuroimaging
- Neurodevelopmental Disorders
- Bilingualism
- Cognition and Brain Research
- Practical Programming
- Clinical Psychology
- Childhood

Mae hwn yn gwrs deinamig ac mae modiwlau'n cael eu hadolygu'n gyson, felly edrychwch ar y wefan am y rhestr ddiweddaraf o fodiwlau.

EICH YMCHWIL
Rydym yn rhoi pwyslais ar ddatblygu eich sgiliau ymchwil. Fel rhan o'r modiwlau **Dulliau Ymchwil**, byddwch yn cymryd rhan mewn sesiynau ymarferol lle byddwch yn rhan o amrywiaeth o brojectau ymchwil. Byddwch yn dadansoddi data ac adrodd y canlyniadau ar ffurf adroddiad ymchwil seicolegol. Yn raddol, byddwch yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnoch i gynllunio a chynnal eich project ymchwil eich hun ym mlwyddyn 3. Bydd cyfleoedd i gynnal ymchwil mewn diwydiant, ysbytai, ysgolion, meithrinfeydd a sefydliadau eraill y mae gennym gysylltiadau ymchwil cryf â hwy. Mae gennym hefyd ystod eang o labordai ymchwil arbenigol gan gynnwys MRI, ERP, TMS etc.

RHAGOLYGON GYRFA
Hon yw'r radd ehangaf ei natur a gynigiwn, felly mae'n addas ar gyfer myfyrwyr sydd am ddilyn unrhyw un o'r prif broffesiynau seicolegol (seicoleg glinigol, seicoleg addysg, seicoleg cwnsela, seicoleg iechyd, etc.) Yn ogystal, mae yna yrfaoedd sy'n agored i raddedigion ac ôl-raddedigion o unrhyw ddisgyblaeth. Mae'r rhain yn cynnwys, e.e. gyrfaoedd mewn hyfforddiant rheoli, cyfrifeg, addysgu, nyrsio, gwaith cymdeithasol, yr heddlu a'r lluoedd arfog.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C880 BSc/PHS; C808 MSci/PHS
Hyd: 3 blynedd (BSc); 4 blynedd (MSci)

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 136 o bwyntiau ar gyfer MSci o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (dymunir yn gryf i ymgeiswyr gael o leiaf un pwnc gwyddonol perthnasol – Mathemateg, Bioleg, Bioleg Ddynol, Ffiseg, Cemeg, Ystadegau, Seicoleg a Gwyddoniaeth)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: O leiaf DMM ar gyfer BSc; DDD ar gyfer MSci
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: 21 gradd Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod a 6 Llwyddo ar gyfer BSc; 30 gradd Rhagoriaeth a 15 Teilyngdod ar gyfer MSci
- Bagloriaeth Cymru
- Derbynnir Cymhwyster Project Estynedig mewn pwnc perthnasol
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol a Sgiliau Allweddol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Seicoleg

Ffôn: 01248 388453
E-bost: seicoleg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/seicoleg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Ar y cwrs hwn, yn ogystal ag astudio modiwlau seicoleg cyffredinol, byddwch yn arbenigo mewn deall y ffactorau seicolegol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a chorfforol. Mewn seicoleg glinigol, byddwch yn astudio problemau ymddygiad mewn plant, salwch meddwl mewn oedolion, a phroblemau seicolegol mewn henaint. Bydd hyn yn cynnwys materion cyfoes pwysig fel anhwylderau bwyta a chamddefnyddio cyffuriau. Byddwch yn dadansoddi nid yn unig yr hyn sy'n achosi'r problemau hyn ond hefyd sut y gellir eu trin, neu, hyd yn oed yn well, eu hatal. Mewn seicoleg iechyd, byddwch yn archwilio'r ffactorau seicolegol sy'n arwain rhai unigolion i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n niweidiol i iechyd, megis bwyta bwydydd afiach, peidio â gwneud digon o ymarfer corff, neu ymddwyn yn rhywiol anniogel. Byddwch yn astudio beth sy'n digwydd pan fydd unigolion yn mynd yn sâl neu'n anabl, gyda chlefydau fel clefyd y galon, canser a HIV/AIDS. Yn ogystal â deall sut y gall pethau fynd o'i le, byddwch yn dadansoddi sut y gellir gwella'r sefyllfa trwy ymyriadau seicolegol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Ym mlwyddyn 1 a 2 byddwch yn cymryd yr holl fodiwlau sy'n orfodol i fyfyrwyr seicoleg anrhydedd sengl. Yn ogystal, byddwch yn cymryd modiwlau craidd seicoleg glinigol ac iechyd ym mlwyddyn 3. Bob blwyddyn, byddwch yn astudio cyfanswm o 120 credyd ac mae'r modiwlau'n crynhoi dros y blynyddoedd i roi ehangder a dyfnder dealltwriaeth sy'n canolbwyntio ar faterion clinigol ac iechyd.

Blwyddyn 1
Yn ogystal â modiwlau'n ymdrin â dulliau ymchwil ac ysgrifennu gwyddonol a chyfathrebu, byddwch yn astudio ystod eang o bynciau mewn meysydd fel:
- Psychology as a Science



- Stress and Distress
- Happiness
- Faith and Culture
- Applied Psychology
- Brain and Mind

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau â modiwlau dulliau ymchwil, gan adeiladu eich set sgiliau a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Seicoleg Gymdeithasol
- Cognitive Psychology
- Biological Psychology
- Behavioural Psychology
- Seicoleg Datblygiad
- Personality
- Clinical Psychology
- Psychological Concepts

Blwyddyn 3
Rhoddir sicrwydd y cewch wneud project yn ymwneud â meysydd Clinigol ac Iechyd dan oruchwyliaeth arbenigwr yn y maes hwnnw. Bydd gofyn i chi ddewis rhai modiwlau o'r rhai sy'n gysylltiedig â Seicoleg Glinigol ac Iechyd a byddwch hefyd yn cael cyfle i ddewis eraill o'r ystod eang a amlinellwyd dan flwyddyn 3 yn y disgrifiad o'r radd BSc/MSci Psychology ar y dudalen flaenorol.

Blwyddyn 4 – MSci yn unig
Yn ogystal ag ymestyn eich project a datblygu eich sgiliau ymchwil ymhellach, byddwch yn gwneud modiwl gorfodol mewn Clinical Psychology ac yn dewis eraill o'r ystod eang a amlinellwyd dan flwyddyn 4 yn y disgrifiad o'r radd BSc/MSci Psychology ar y dudalen flaenorol.

EICH YMCHWIL
Bydd eich project BSc (ac MSci) ar bwnc seicoleg glinigol neu iechyd. Mae projectau diweddar myfyrwyr wedi ymdrin â phynciau fel personoliaeth, cymhelliant a nodau yn ymwneud ag ysmygu, yfed, gweithgaredd corfforol ac ymdopi â straen, salwch meddwl a chorfforol.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae graddau BSc ac MSci yn canolbwyntio ar y maes ond maent yn dal i fod yn addas i fyfyrwyr sydd am ddilyn unrhyw un o'r prif broffesiynau seicolegol (seicoleg glinigol, seicoleg addysg, seicoleg cwnsela, seicoleg iechyd etc). Yn ogystal, mae yna yrfaoedd sy'n agored i raddedigion ac ôl-raddedigion o unrhyw ddisgyblaeth. Mae'r rhain yn cynnwys, e.e. gyrfaoedd mewn hyfforddiant rheoli, cyfrifeg, addysgu, nyrsio, gwaith cymdeithasol, yr heddlu a'r lluoedd arfog. Mae cyflogwyr fel rheol yn chwilio am sgiliau cyffredinol neu drosglwyddadwy, a gellir dadlau bod gradd mewn seicoleg yn darparu cyfuniad unigryw o'r rhain gan ei bod yn ddisgyblaeth lythrennog a rhifog.

PSYCHOLOGY WITH NEUROPSYCHOLOGY
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
C801 BSc/PsyN
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (dymunir yn gryf i ymgeiswyr gael o leiaf un pwnc gwyddonol perthnasol – Mathemateg, Bioleg, Bioleg Ddynol, Ffiseg, Cemeg, Ystadegau, Seicoleg a Gwyddoniaeth)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM fan leiaf
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: 21 gradd Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod a 6 Llwyddo
- Bagloriaeth Cymru
- Derbynnir Cymhwyster Project Estynedig mewn pwnc perthnasol
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol a Sgiliau Allweddol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Seicoleg

Ffôn: 01248 388453
E-bost: seicoleg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/seicoleg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Yn y cwrs hwn, yn ogystal ag astudio modiwlau seicoleg cyffredinol, byddwch yn arbenigo mewn deall strwythur yr ymennydd dynol, a sut mae'n gweithredu i effeithio ar ganfyddiad, meddwl, emosiwn, iaith ac ymddygiad. Byddwch yn dadansoddi'r hyn sy'n digwydd pan fydd yr ymennydd wedi'i niweidio neu â nam arno, er enghraifft, mewn anaf i'r pen, strôc, clefyd Parkinson neu glefyd Alzheimer. Byddwch yn astudio nid yn unig effeithiau'r cyflyrau hyn, ond hefyd sut y gellir helpu cleifion o'r fath trwy adsefydlu. Yn ystod y cwrs, byddwch yn dod yn gyfarwydd â thechnegau uwch fel delweddu cyseiniant magnetig swyddogaethol (fMRI) a photensialau cysylltiedig â digwyddiadau (ERPs) ar gyfer arsylwi gweithgaredd yr ymennydd a gwneud diagnosis o broblemau.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Ym mlwyddyn 1 a 2 byddwch yn cymryd modiwlau gorfodol fel yn achos seicoleg anrhydedd sengl. Yn ogystal, byddwch yn cymryd modiwlau niwroseicoleg yn eich trydedd flwyddyn. Bob blwyddyn, byddwch yn astudio cyfanswm o 120 credyd ac mae'r modiwlau'n crynhoi dros y blynyddoedd i roi ehangder a dyfnder dealltwriaeth i chi, gan ganolbwyntio ar niwroseicoleg.

Blwyddyn 1
Yn ogystal â modiwlau'n ymdrin â dulliau ymchwil ac ysgrifennu gwyddonol a chyfathrebu, byddwch yn astudio ystod eang o bynciau mewn meysydd fel:
- Language and its Disorders
- Stress and Distress
- Learning to be Happy
- Faith and Culture
- Applied Psychology
- Brain and Mind

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau â modiwlau dulliau ymchwil, gan adeiladu eich set sgiliau a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:



- Seicoleg Gymdeithasol
- Cognitive Psychology
- Biological Psychology
- Behavioural Psychology
- Seicoleg Datblygiad
- Personality and Individual Differences
- Clinical Psychology
- Concepts in Psychology

Blwyddyn 3
Rhoddir sicrwydd y cewch wneud project yn ymwneud â Niwroseicoleg dan oruchwyliaeth arbenigwr yn y maes hwnnw. Bydd gofyn i chi ddewis rhai modiwlau o'r rhai sy'n gysylltiedig â Seicoleg Glinigol ac lechyd a byddwch hefyd yn cael cyfle i ddewis eraill o'r ystod eang a amlinellwyd dan flwyddyn 3 yn y disgrifiad o'r radd BSc/MSci Psychology ar dudalen 130.

EICH YMCHWIL
Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae elfen Gwyddor Chwaraeon y graddau hyn yn darparu sgiliau deallusol ac ymarferol (labordy/profi) i fyfyrwyr a fydd yn eu galluogi i ofyn cwestiynau perthnasol mewn gwyddor chwaraeon a chymhwyso sgiliau ymchwil priodol. Bydd hyn yn eu galluogi ymhellach i gydnabod sut y gallent gymhwyso eu sgiliau academaidd ac ymarferol i weithio yn y gymuned ehangach, gan ddatblygu eu galluoedd trwy brofiadau newydd.

Mae'r radd ar y cyd â **Business Management** yn cynnwys astudio sefydliadau, eu rheolaeth a'r amgylchedd allanol newidiol y maent yn gweithredu ynddi. Byddwch hefyd yn astudio amryw o feysydd swyddogaethol arbenigol fel gwneud penderfyniadau busnes a rheolaethol, yn cynnwys marchnata, cynllunio busnes, rheoli gweithrediadau, strategaeth gorfforaethol, rheoli adnoddau dynol, strwythur a dyluniad sefydliadol, rheolaeth ariannol a rheoli risg.

Prif amcanion graddau ar y cyd gyda **Marketing** yw datblygu gwybodaeth a sgiliau arbenigol ar draws ystod eang o gymwysiadau marchnata, gan gynnwys rheoli brand a theyrngarwch, gwasanaeth cwsmeriaid, cysylltiadau cyhoeddus, ymchwil i'r farchnad, ymddygiad defnyddwyr, seicoleg marchnata a strategaeth hysbysebu. Byddwch hefyd yn astudio sefydliadau, eu rheolaeth a'r amgylchedd allanol cyfnewidiol y maent yn gweithredu ynddo, ynghyd â meysydd rheoli busnes swyddogaethol arbenigol eraill.

Bydd yr elfen iaith mewn graddau cyd-anrhydedd gydag **leithoedd Modern** yn rhoi sgiliau uwch i chi yn eich dewis iaith, ac amrywiaeth eang o wybodaeth arbenigol a manwl am ddiwylliant, cymdeithas a hanes yr iaith honno. Mae iaith yn ganolog i'r cyrsiau hyn, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Treulir y bedwaredd flwyddyn o raddau cyd-anrhydedd gydag iaith mewn gwlad yn dibynnu ar yr iaith sy'n cael ei hastudio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer 120 credyd ym mhob blwyddyn o'ch gradd gyda hanner y credydau wedi'u cwblhau mewn Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer a hanner yn y pwnc cyd-anrhydedd. Treulir y bedwaredd flwyddyn o raddau cyd-anrhydedd gydag iaith mewn gwlad yn dibynnu ar yr iaith sy'n cael ei hastudio.

Mae modiwlau Gwyddor Chwaraeon yn cynnwys modiwlau craidd/gorfodol mewn Sgiliau Ymchwil, Dulliau Ymchwil a Phroject / Traethawd Hir a wneir gan fyfyrwyr ar bob rhaglen, ynghyd â dewis o fodiwlau dewisol sy'n ymdrin â: Cynnig Project, Rheolaeth Echddygol a Dysgu, Seicoleg Chwaraeon Gymhwysol, Canfyddiad a Gweithredu, Straen a Pherfformiad, Gwyddor Chwaraeon Cymhwysol Perfformiad Elit, Ffisioleg Amgylcheddol, Biocemeg Ymarfer, Ymarfer ar gyfer Poblogaethau Clinigol.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd yr elfen Gwyddor Chwaraeon o raglenni ar y cyd yn rhoi cyfle i raddedigion ddilyn gyrfa academaidd neu broffesiynol mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth benodol a enillir a'r sgiliau trosglwyddadwy yn gwella cyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau fel y diwydiannau ffitrwydd ac iechyd, y fyddin a busnes.

Mae'r graddau cyd-anrhydedd Rheoli Busnes a Marchnata yn eich galluogi i ddatblygu ystod o wybodaeth a sgiliau busnes penodol, ynghyd â gwell hunanymwybyddiaeth a datblygiad personol sy'n briodol i raddedigion gyda'r posibilrwydd o symud ymlaen i yrfaoedd proffesiynol ym myd busnes, rheolaeth neu farchnata. Mae hyn yn cynnwys annog agweddau cadarnhaol a beirniadol tuag at newid a menter. Mae astudio leithoedd Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd.

Mae llawer o raddedigion leithoedd Modern Bangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfleithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, busnes a masnach, diwydiant a'r cyfryngau. Mae'r sgiliau a ddysgwch wrth astudio leithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol – i gyd yn cael eu prisio'n uchel gan gyflogwyr o bob sector o'r economi.

SPORT SCIENCE [OUTDOOR RECREATION] GRADD DDILYNIANT / GRADDAU RHYNGOSODOL

FFEITHIAU AM Y CWRS SPORT SCIENCE (OUTDOOR RECREATION) TOP-UP DEGREE
Cod cwrs UCAS:
C605 BSc/SSOR:
Hyd: blwyddyn (ar ben Gradd Sylfaen addas)

GOFYNION MYNEDIAD:
- Byddwch wedi cwblhau Gradd Sylfaen gysylltiedig lle cafwyd o leiaf 70% ar gyfer 30% neu fwy o'r modiwlau, ac o leiaf 60% yn hanner y modiwlau. Mae angen TGAU Mathemateg a Saesneg ar radd C (neu gyfwerth) a byddai Addysg Gorfforol a Gwyddorau TGAU yn fanteisiol.

GRADDAU RHYNGOSODOL (BSc)
Codau cwrs UCAS:
C603 BSc/SPSc: Sport Science
C883 BSc/CLSPS: Clinical Sports Science
Hyd: blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
- Bydd gofynion mynediad yn cael eu gosod rhyngoch chi ac Ysgol Feddygol Phrifysgol Bangor. Cysylltwch â'r Ysgol Feddygol am fanylion pellach.

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

GRADD DDILYNIANT

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Os ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf mynediad (gweler y gofynion mynediad ar y chwith), gallwch wneud **Gradd Ddilyniant** fel y gallwch raddio ar ôl tair blynedd gyda Gradd BSc Anrh. mewn Sport Science (Outdoor Recreation).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Gyda'r Radd Ddilyniant byddwch yn astudio ar gyfer cyfanswm o 120 credyd yn cynnwys project ymchwil a modiwlau sy'n ymdrin â phynciau gan gynnwys:
- Stress and Performance
- Group Dynamics
- Applied Sport Science of Elite Performance
- Environmental Physiology – Extremes
- Research in Psychological Skills
- Personality and Individual Differences
- Motor Behaviour
- Healthy Aging
- Disability, Sport and Rehabilitation
- Environmental Physiology – High Altitude
- Skill Acquisition
- Exercise for Clinical Populations

RHAGOLYGON GYRFA
Gallwch ddefnyddio eich gradd ddilyniant fel paratoad ar gyfer gyrfa mewn gweithgareddau awyr agored/rheoli ffitrwydd/ hamdden, gweinyddu chwaraeon, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd, datblygu chwaraeon, ymchwil, therapi/ ffisiotherapi chwaraeon, dysgu, teithiau, a hyfforddiant datblygu awyr agored, addysg, hamdden, datblygu chwaraeon a therapi.

GRADDAU RHYNGOSODOL

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r graddau hyn wedi eu hanelu at fyfyrwyr meddygol sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus y nifer gofynnol o flynyddoedd mewn Ysgol Feddygol ac sy'n dymuno cael BSc i arbenigo neu gael profiad yn y meysydd canlynol:

- Gwyddor Chwaraeon
- Gwyddor Chwaraeon Clinigol

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer 120 credyd yn ystod y flwyddyn. Bydd pob myfyriwr yn astudio Sgiliau Ymchwil ar gyfer Meddygon (20 credyd) ac yn gwneud Project Ymchwil (40 credyd).

Yn dibynnu ar y cwrs a ddewiswyd, byddwch hefyd yn gwneud 60 credyd dewisol a ddewiswyd o ystod o fodiwlau, rhoddir enghreifftiau isod. Gall modiwlau eraill a gynigir gan Seicoleg a Gwyddorau Meddygol fod ar gael os gellir eu cynnwys yn yr amserlen:

Gwyddor Chwaraeon
- Perception and Action (10 credyd)
- Stress and Performance (10 credyd)
- Research in Psychological Skills (10 credyd)
- Personality and Individual Differences (10 credyd)
- Environmental Physiology (10 credyd)
- Applied Sport Science of Elite Performance (10 credyd)
- Disability, Sport and Rehabilitation (10 credyd)
- Skill Acquisition (10 credyd)
- Biochemistry of Exercise (10 credyd)
- Sports Injury Rehabilitation (10 credyd)
- Psychology of Injury and Rehabilitation (10 credyd)

Ffisioleg Ymarfer Corff
- Exercise Psychology (10 credyd)
- Applied Sport Science of Elite Performance (10 credyd)
- Environmental Physiology (10 credyd)
- Disability, Sport and Rehabilitation (10 credyd)
- Exercise for Clinical Populations (10 credyd)
- Biochemistry of Exercise (10 credyd)
- Sports Injury Rehabilitation (10 credyd)
- Psychology of Injury and Rehabilitation (10 credyd)

Ymarfer Corff, Newid Ymddygiad ac Atal Clefydau
- Biological Psychology (10 credyd)
- Exercise Psychology (10 credyd)
- Research in Psychological Skills (10 credyd)
- Personality & Individual Differences (10 credyd)
- Environmental Physiology (10 credyd)
- Disability, Sport and Rehabilitation (10 credyd)
- Exercise for Clinical Populations (10 credyd)
- Exercise is Medicine (30 credyd)
- Sports Injury Rehabilitation (10 credyd)
- Psychology of Injury and Rehabilitation (10 credyd)

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r graddau rhyngosodol hyn yn galluogi myfyrwyr meddygol i gael persbectif gwyddonol o chwaraeon ac ymarfer corff; er enghraifft fel math o driniaeth ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau yn ogystal â sut i newid ymddygiad er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran adsefydlu ac atal clefydau (e.e. diabetes).

Yn ychwanegol at y cyfleoedd gyrfa gwell sydd ar gael fel rheol i fyfyrwyr meddygol sy'n rhyngosod, gall yr hyfforddiant ychwanegol hwn hefyd ddarparu sylfaen gref ar gyfer astudiaeth ôl-radd (MSc, MPhil neu PhD) a swyddi ymchwil clinigol yn y GIG.

CYFRIFEG, BANCIO, BUSNES, ECONOMEG, CYLLID, MARCHNATA A RHEOLI

- **Accounting and Banking BSc**
- **Accounting and Economics BSc**
- **Accounting and Finance BSc**
- **Banking and Finance BSc**
- **Financial Economics BSc**
- **Marketing BSc**
- **Business BA**
- **Business Management BSc**
- **Business Management and Finance BSc**
- **Business and Law BA**
- **Business Management and Marketing BSc**
- **Business Economics BSc**
- **Management with Accounting BSc**
- **Business Subjects plus Another Subject**
- **Banking with Financial Technology BSc**
- **Business Analytics with Financial Technology BSc**
- **Marketing with Psychology BSc**

Graddau Cysylltiedig

- Business Related Subjects Plus a Modern Language (tud 236)
- French/German with Business Management/Marketing (tud 226, 228)
- Computer Information Systems for Business (tud 107)
- Italian and Business Related Subjects (tud 230)
- Law with Accounting and Finance (tud 166)
- Law with Business Management (tud 166)
- Spanish with Business Management/Marketing (tud 224)
- Sport Science and Business Management (tud 143)
- Spanish with Business Studies/Marketing (tud 224)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
NN43 BSc/AccB
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol): www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae cyfrifeg wedi ei ddiffinio fel y gwaith o fesur a datgelu gwybodaeth ariannol a ddefnyddir gan reolwyr, buddsoddwyr ac eraill i wneud penderfyniadau'n ymwneud â dyrannu adnoddau mewn sefydliadau.

Mae'r radd hon yn darparu'r holl sgiliau y bydd eu hangen arnoch i sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer gyrfa broffesiynol mewn amrediad eang o feysydd. Mae gradd mewn Bancio yn rhoi cyfle i chi astudio elfennau damcaniaethol ac ymarferol gwasanaethau a marchnadoedd ariannol, ac i ddadansoddi rôl ehangach y sector ariannol mewn economïau cenedlaethol a byd-eang. Mae gwasanaethau ariannol a bancio yn sector cystadleuol iawn sy'n newid yn gyflym ym mhob economi fodern. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae grymoedd megis globaleiddio, newid technolegol, dadreoleiddio ac integreiddio rhyngwladol wedi gweddnewid y sector gwasanaethau ariannol a bancio.

Mae'r cwrs hwn wedi'i achredu gan ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig), y corff byd-eang ar gyfer cyfrifwyr proffesiynol. Mae nifer yr eithriadau rhag arholiad yn dibynnu ar y dewis o fodiwlau dewisol, ond gallai fod hyd at uchafswm o saith. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i hachredu gan CIMA (Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli) sy'n golygu y gallai myfyrwyr gael eu heithrio o lawer o'r arholiadau craidd y cyrff hyn. Mae hyn yn fantais enfawr i chi gan y byddwch yn sefyll llai o arholiadau sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu eich gyrfa.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes, gan gynnwys cyfrifeg, bancio, cyllid, economeg, rheolaeth, marchnata ac entrepreneuriaeth.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig graddau ôl-radd (MA, MSc ac MBA) mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Management Accounting; Cyfrifeg Ariannol; Cyllid Personol a Bancio; Corporate Finance a Bank Management. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai o fewn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd. Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau e.e. casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol/rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llawer o raddedigion wedi mynd ymlaen i gael gwaith ym maes cyfrifeg, gan gynnwys cynlluniau i raddedigion gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r pedwar cwmni cyfrifeg mawr. Mae graddedigion hefyd wedi cael gwaith yn y sectorau bancio, buddsoddi, yswiriant a rheoli risg.

CIMA

ACCREDITED PROGRAMME

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
NL41 BSc/AccEc
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol): www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae cyfrifeg wedi ei ddiffinio fel y gwaith o fesur a datgelu gwybodaeth ariannol a ddefnyddir gan reolwyr, buddsoddwyr ac eraill i wneud penderfyniadau'n ymwneud â dyrannu adnoddau mewn sefydliadau.

Mae'r radd hon yn darparu'r holl sgiliau y bydd eu hangen arnoch i sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer gyrfa broffesiynol mewn amrediad eang o feysydd.

Mae economeg wedi cael ei ddiffinio fel astudiaeth o ddewis dynol, ac effaith y dewis ar gynhyrchu, dosbarthu a defnyddio adnoddau prin. Mae micro-economeg yn delio â'r dewis ar lefel yr unigolyn, ac mae macro-economeg yn dadansoddi'r economi yn gyffredinol.

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys micro-economeg a macro-economeg fel elfennau craidd, ac arbenigedd sy'n canolbwyntio ar gyd-destun economaidd gwneud penderfyniadau busnes. Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o sut y gellir cymhwyso economeg i feysydd yn cynnwys rheolaeth busnes, cyllid a pholisi cyhoeddus.

Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig), y corff byd-eang ar gyfer cyfrifwyr proffesiynol. Bydd nifer yr eithriadau rhag arholiad yn dibynnu ar y dewis o fodiwlau dewisol, ond gallai fod hyd at uchafswm o saith. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i hachredu gan CIMA (Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli) sy'n golygu y gallai myfyrwyr gael eu heithrio o lawer o'r arholiadau craidd y cyrff hyn. Mae hyn yn fantais enfawr i chi gan y byddwch yn sefyll llai o arholiadau sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu eich gyrfa.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes, gan gynnwys cyfrifeg, bancio, cyllid, economeg, rheolaeth, marchnata ac entrepreneuriaeth.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd (MA, MSc ac MBA) mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Microeconomics; Macroeconomics, Cyfrifeg Ariannol, Management Accounting a Applied Economics. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai o fewn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill. Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd. Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau e.e. casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol/rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llawer o raddedigion cyfrifeg wedi mynd ymlaen i gael gwaith ym maes cyfrifeg, gan gynnwys cynlluniau i raddedigion gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r pedwar cwmni cyfrifeg mawr. Mae graddedigion hefyd wedi cael gwaith yn y sectorau bancio, buddsoddi, yswiriant a rheoli risg.

CIMA

ACCREDITED PROGRAMME

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
NN4H BSc/AccFin
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol): www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae Cyfrifeg wedi ei ddiffinio fel y gwaith o fesur a datgelu gwybodaeth ariannol a ddefnyddir gan reolwyr, buddsoddwyr ac eraill i wneud penderfyniadau'n ymwneud â dyrannu adnoddau mewn sefydliadau. Felly mae cyfrifeg yn cynnwys llawer mwy na thrin data ariannol yn fecanyddol i gynhyrchu cyfrifon cwmnïau.

Rhaid i'r dulliau o baratoi gwybodaeth gyfrifo gael eu defnyddio'n ddoeth, gan ddeall at ba ddiben y defnyddir yr wybodaeth. Wrth astudio am y radd hon, byddwch yn dysgu sgiliau sy'n allweddol i reoli sefydliadau, i fesur perfformiad a chynnal y llif arian sy'n hanfodol ar gyfer ffyniant unrhyw gwmni preifat neu sefydliad o fewn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig), y corff byd-eang ar gyfer cyfrifwyr proffesiynol. Mae achrediad yn eich eithrio yn awtomatig rhag gorfod sefyll arholiadau yn rhai o bynciau ACCA Rhan Un. Mae graddedigion y radd hon yn cael eu heithrio rhag arholiadau hyd at saith pwnc.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog a bydd modd i chi ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd mewn busnes a chyllid.
- Gan ddibynnu ar y modiwlau y byddwch yn eu hastudio, gallwch gael eich eithrio rhag elfennau o arholiadau proffesiynol rhai o'r prif gyrff cyfrifeg.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Cyfrifeg Ariannol; Corporate Finance; Management Accounting; Investment; Taxation a Auditing. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai yn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae gan bob myfyriwr anrhydedd sengl sy'n dilyn gradd yn yr Ysgol Busnes hyblygrwydd llwyr i newid rhwng unrhyw un o'n graddau Busnes ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y semester cyntaf ac mae newid hefyd yn bosibl, yn amodol ar ychydig o waith dal i fyny, hyd at ddechrau'r ail flwyddyn.

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N391 BSc/BFin
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol): www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae gwasanaethau ariannol a bancio yn sector cystadleuol iawn sy'n newid yn gyflym ym mhob economi fodern. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae elfennau megis globaleiddio, newidiadau technolegol, dadreoleiddio ac integreiddio rhyngwladol wedi gweddnewid y sector gwasanaethau bancio a chyllido yn llwyr. Mae bancïau wedi ymateb i bwysau cystadleuol cynyddol trwy arallgyfeirio i wneud gweithgareddau newydd. Mae cwmnïau yswiriant a chronfeydd pensiwn hefyd wedi tyfu'n gyflym ac mae sefydliadau nad bancïau mohonynt, er enghraifft archfarchnadoedd a chwmnïau telathrebu, bellach yn cystadlu'n uniongyrchol mewn marchnadoedd gwasanaethau ariannol.

Mae'r radd yn rhoi cyfle i chi astudio theori ac ymarfer gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol, a dadansoddi rôl ehangach y sector ariannol o ran economïau cenedlaethol a byd-eang.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym ymysg y 25 sefydliad uchaf yn y byd am ymchwil ym maes Bancio (RePEc).
- Mae gennym arbenigwyr byd-enwog ym maes Bancio yn addysgu ar y cwrs hwn.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes, gan gynnwys cyfrifeg, bancio, cyllid, economeg, rheolaeth, marchnata ac entrepreneuriaeth.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog a bydd modd i chi ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Bank Management; Cyllid Personol a Bancio; Market Risk Analytics; Portfolio Management; Corporate Finance; Buddsoddiant ac International Banking. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai o fewn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd graddedigion bancio yn gymwys i ddilyn gyrfaoedd mewn meysydd megis cyfrifeg, bancio, buddsoddi, yswiriant a rheoli risg. Mae ein graddedigion wedi cael eu cyflogi gan gwmnïau megis HSBC, JN Financial a Banc Cenedlaethol Bahrain.

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FINANCIAL ECONOMICS
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
L111 BSc/FinEc
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn cynnig cyfle i chi astudio economeg yng nghyd-destun y byd go iawn, gan ddatblygu sgiliau dadansoddi cryf a chymhwyster mewn economeg sy'n berthnasol i yrfa ac y gellir ei gymhwyso i gyllid byd-eang. Mae'r rhaglen yn cynnwys elfennau craidd mewn economeg a chyllid.

Trwy astudio micro-economeg a macro-economeg, byddwch yn datblygu dealltwriaeth gadarn o economeg ar lefel unigol ac ar lefel yr economi yn ei chyfanrwydd. Mae'r elfen gyllid yn rhoi sylw manwl i bynciau megis y system ariannol, cynhyrchion a marchnadoedd ariannol, cyllido cwmnïau a swyddogaeth buddsoddi.

Mae'r amrediad eang o fodiwlau dewisol yn eich galluogi i deilwra eich rhaglen astudio i'ch diddordebau a'ch dyheadau eich hun o ran gyrfa. Byddwch yn datblygu portffolio o sgiliau dadansoddi a fydd yn ddeniadol i amrediad eang o gyflogwyr yn y sector ariannol a thu hwnt.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes, gan gynnwys cyfrifeg, bancio, cyllid, economeg, rheolaeth, marchnata ac entrepreneuriaeth.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog a bydd modd i chi ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig ystod ddeniadol o raddau ôl-radd mewn pynciau busnes a chyllid, os ydych yn dymuno astudio am flwyddyn ychwanegol ar ôl cwblhau eich gradd BSc.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Microeconomics; Macroeconomics; Statistical Methods; Applied Economics; Behavioural Finance; Investment; Corporate Finance; Portfolio Management a Financial Economics. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai yn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar gymhwyso economeg i ddeall yr amgylchedd busnes. Byddwch chi'n datblygu sgiliau fydd yn werthfawr ar gyfer gyrfa mewn busnes a sefydliadau eraill.

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

DATBLYGIADAU NEWYDD
Mae rhaglen ddwyieithog newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd o'r enw BSc in Astudiaethau Economi a Chyllid Cymru. Mi fydd y cwrs yn cael ei gynnig yn 2021, yn amodol ar ddilysiad. Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

MARKETING
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N501 BSc/MKt
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau a gwybodaeth am brif agweddau strategol a gweithredol marchnata, a byddwch yn meithrin ymwybyddiaeth o'r amgylchedd farchnata allanol.

Mae agweddau strategol a gweithredol marchnata'n cynnwys llunio strategaethau marchnata, rheoli'r swyddogaeth farchnata a'i lleoli mewn perthynas â swyddogaethau busnes allweddol eraill, hysbysebu a brandio, rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, cymwysiadau technoleg gwybodaeth, ac e-farchnata. Mae'r amgylchedd farchnata allanol yn cynnwys ymddygiad defnyddwyr a seicoleg defnyddwyr, cyfathrebu marchnata, cysylltiadau cyhoeddus ac ymchwil marchnad.

Mae'r rhaglen hon hefyd yn cynnwys yr amrywiaeth ehangach o bynciau busnes a rheoli, gan ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am sefydliadau, sut y cânt eu rheoli a'r amgylchedd allanol newidiol y gweithredant ynddi.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd (MA, MSc ac MBA) mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy trylwyr. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n raddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Consumer Behaviour; Ymchwil Marchnata; Cyfathrebu Marchnata; e-Marketing; Brand Management; Marketing Strategy and Management a International Marketing.
Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai yn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llwybrau gyrfa nodweddiadol ein graddedigion yn cynnwys: swyddi megis Swyddogion Marchnata a Rheolwyr Marchnata, cynlluniau hyfforddi graddedigion ym maes rheolaeth a swyddi Gweinyddiaeth Busnes. Mae cynnydd yn y galw am raddedigion Marchnata yn y sector cyhoeddus a'r sector di-elw hefyd.

CIM Graduate Gateway

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N200 BSc/BM
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Byddwch yn datblygu dealltwriaeth eang o sefydliadau busnes. Byddwch yn dysgu sut mae busnesau'n datblygu strategaethau, yn gwneud penderfyniadau, yn trefnu eu hadnoddau mewnol, ac yn rheoli risg ac ansicrwydd.

Mae astudiaethau achos busnes a marchnata yn rhan greiddiol o nifer o'r modiwlau, yn enwedig yn ystod camau olaf eich rhaglen. Mewn astudiaeth achos, cyflwynir gwybodaeth am gynhyrchion, marchnadoedd, strwythur ariannol, adnoddau dynol a ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar lwyddiant busnes. Byddwch yn trafod ac yn dadansoddi strategaethau a chamau gweithredu y dylai'r cwmni eu cymryd yn y dyfodol.

Bydd eich gradd yn eich helpu i ddeall a datblygu arbenigedd mewn swyddogaethau busnes penodol megis marchnata, rheoli adnoddau dynol, cyfrifeg a chyllid. Byddwch yn astudio pynciau arbenigol megis entrepreneuriaeth a rheolaeth strategol. Byddwch hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ehangach y mae busnesau'n gweithredu ynddo, trwy astudio pynciau megis economeg busnes a llywodraethu corfforaethol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadleathau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, conomeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Systemau Gwybodaeth Busnes; Leadership & Human Resource Management (HRM); Operations Strategy; Entrepreneuriaeth, Cyfalaf a'r Cwmni ac International Business Competency. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai o fewn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae ein rhaglen wedi'i llunio'n ofalus i ddarparu amrediad eang o sgiliau cyflogadwyedd a ddylai wella rhagolygon gyrfa ein graddedigion. Gall myfyrwyr fynd yn eu blaenau i amrediad eang o swyddi, rolau a diwydiannau. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i sefydlu busnesau cychwynnol llwyddiannus, gweithio mewn rolau allweddol mewn diwydiant a hyd yn oed ddatblygu'n ysgolheigion rhyngwladol pan gyhoeddwyd eu gwaith.

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N107
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Trwy ddilyn y rhaglen radd hon, byddwch yn datblygu dealltwriaeth eang o sefydliadau busnes, eu swyddogaethau mewnol a'r amgylcheddau y gweithredant ynddynt.

Bydd llawer o fyfyrwyr yn dewis y rhaglen radd hon os ydynt yn awyddus i ennill gradd sy'n gysylltiedig â busnes ond yn ansicr pa ddisgyblaethau busnes penodol yr hoffent eu dilyn.

Bydd myfyrwyr ar y cynllun gradd hwn yn gallu trosglwyddo i unrhyw un o'n cynlluniau gradd arbenigol ar unrhyw adeg yn ystod eu blwyddyn gyntaf o astudio os dymunant.
Fel arall, bydd llawer o fyfyrwyr yn parhau â'r rhaglen yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, er mwyn dilyn maes llafur ehangach, mwy cyffredinol, y gallant ei deilwra i'w diddordebau penodol eu hunain.

PAM DEWIS BANGOR?
- Byddwch yn astudio mewn Ysgol amlddisgyblaethol lle mae arbenigwyr yn gweithio mewn ystod eang o bynciau busnes, gan gynnwys cyfrifeg, bancio, cyllid, economeg, rheolaeth, marchnata ac entrepreneuriaeth.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadleathau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd (MA ac MSc) mewn pynciau busnes a chyllid.



- Mae myfyrwyr Ysgol Busnes Bangor yn cynnal cangen myfyrwyr o'r Sefydliad Marchnata Siartredig sy'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau marchnata, gan roi cyfle i fyfyrwyr ymarfer yr hyn maent yn ei ddysgu mewn darlithoedd.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yn ystod blwyddyn gyntaf eich astudiaethau, byddwch yn dilyn cyrsiau rhagarweiniol a fydd yn eich cyflwyno i holl feysydd pwnc yr Ysgol - rheolaeth, marchnata, economeg, cyfrifeg, cyllid a bancio.

Yn eich ail a'ch trydedd flwyddyn, bydd gennych wedyn ryddid i ddewis o blith holl fodiwlau'r* Ysgol Busnes, gan gynllunio eich rhaglen unigol eich hun sy'n diwallu eich anghenion a'ch diddordebau chi.

*Yn amodol ar rai rhagofynion a chyfyngiadau amserlennu. I wneud rhai modiwlau (yn enwedig yn y drydedd flwyddyn) bydd yn ofynnol i chi eisoes fod wedi astudio rhai modiwlau penodol. Bydd eich tiwtor personol, ac aelodau staff eraill yr Ysgol, yn eich helpu i gynllunio eich rhaglen er mwyn bodloni'r gofynion hynny ac osgoi gwrthdaro yn eich amserlen.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Yn ystod y cwrs byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llawer o raddedigion o Ysgol Busnes Bangor yn dilyn gyrfaoedd mewn meysydd megis cyfrifeg, bancio, buddsoddi, yswiriant, rheoli risg, marchnata, rheoli adnoddau dynol a rheoli adwerthu.

Prifysgol Bangor yw'r darparwr pennaf yng Nghymru ym maes Busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
NN23 BSc/BMF
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Addysgir y cyrsiau'n bennaf drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau a thiwtorialau unigol. Mewn llawer o'r modiwlau hefyd defnyddir Blackboard, sef cyfrwng dysgu ar-lein y brifysgol. Yn ystod pob semester byddwch yn astudio modiwlau sy'n cyfateb i 60 credyd, sef cyfanswm o 120 credyd y flwyddyn.

Rydym yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu, yn cynnwys traethodau, adolygu llyfrau, astudiaethau achos, adroddiadau, cyflwyniadau ac arholiadau ysgrifenedig. Yn yr ail flwyddyn gellwch gymryd modiwl astudiaeth annibynnol, lle gellwch ddewis testun sydd o ddiddordeb arbennig i chi a chyflawni astudiaeth annibynnol arno dan arweiniad goruchwyliwr.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd gradd mewn athroniaeth a chrefydd yn rhoi cyfleoedd i chi mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys addysgu, cyfathrebu, cyhoeddi, gwaith cymdeithasol, llyfrgelldiaeth, y cyfryngau etc. Mae llawer o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i wneud graddau uwch sy'n arwain at MA, MRes neu PhD.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd cydanrhydedd gydag amrywiaeth o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

IEITHOEDD A DIWYLLIANNAU MODERN

- Spanish BA
- Spanish with Another Subject BA
- French BA
- French with Another Subject BA
- German BA
- German with Another Subject BA
- Italian and Another Subject BA
- Chinese with Another Subject BA
- Three Language Honours BA
- Joint Language Honours BA
- Another Subject plus a Modern Language

Graddau Cysylltiedig
- Pwnc Busnes gydag laith Fodern (tud.63)
- Law with European Experience (French, German, Italian, Spanish (tud.166)
- Astudiaethau'r Cyfryngau gydag laith Fodern (tud.63)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C mewn Sbaeneg)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn Sbaeneg)
- Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn Sbaeneg.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?

SPANISH
Bydd y radd hon yn rhoi sgiliau uwch i chi yn yr iaith Sbaeneg, a byddwch yn datblygu dealltwriaeth arbenigol a manwl o ddiwylliant, cymdeithas a hanes y byd Sbaenaidd. Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Mae gradd anrhydedd sengl yn eich galluogi i ddilyn ystod lawn o opsiynau, a fydd yn eich arfogi â gwybodaeth helaeth am dreftadaeth a bywyd y gwledydd Sbaenaidd modern ar lefel a fydd yn caniatáu ichi ystyried dilyn astudiaethau ôl-radd. Byddwch hefyd yn cael y fantais ychwanegol o astudio Galiseg yn eich ail flwyddyn.

Cod UCAS y cwrs: R400 BA/Sp4

SPANISH WITH ANOTHER SUBJECT
Mae'r cyrsiau anrhydedd sengl hyn yn seiliedig ar yr un egwyddorion â Sbaeneg anrhydedd sengl, ond maent yn gadael ichi dreulio cyfran sylweddol o'ch cwrs yn astudio pwnc arall. Sbaeneg yw'r prif bwnc sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'ch gradd, a'r pwnc arall yw'r is bwnc sy'n cyfrif am y traean sy'n weddill.

Isod ceir rhestr o gyrsiau cydanrhydedd sydd wedi eu pwysoli'n gyfartal.

Codau cwrs UCAS:

Spanish w. Business Management	R4N2BA/SBM
Spanish w. Creative Writing	R4W8 BA/SPCW
Spanish w. Chinese	T110 BA/SPCH
Spanish w. French	R4R1 BA/SpFr
Spanish w. German	R4R2 BA/SPG
Spanish w. Italian	R4R3 BA/SPI
Spanish w. Journalism	R4P5 BA/SpJO
Spanish w. Marketing	R4N5 BA/SpMkt
Spanish w. Media Studies	R4P3 BA/SpMS

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor yn gyson ymhlith yr ysgolion â'r sgôr uchaf yn y maes pwnc hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng y Sbaeneg, ac eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

I gael gwybodaeth am Sbaeneg fel rhan o radd Anrhydedd 3 laith, gweler tudalen 232.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

SPANISH
Yn ogystal ag iaith, mae'r maes llafur Sbaeneg yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous; trwy wneud gradd anrhydedd sengl cewch gyfle i wneud yr ystod lawn o opsiynau, fwy neu lai. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop. Mae opsiynau'r ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig rhagor o gyfle i arbenigo. Mae'r opsiynau sydd ar gael yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol gan gynnwys sinema gyfoes Sbaenaidd, hanes dinas Barcelona, llên teithio Sbaenaidd a diwylliant ac iaith gyfoes Galisia.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio mewn gwlad Sbaeneg ei hiaith. Eich prif opsiynau yw:
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion. Fel arfer mae ein myfyrwyr yn llwyddo i gael eu dewis cyntaf o leoliad, naill ai yn Sbaen neu mewn gwlad arall sy'n Sbaeneg ei hiaith megis yr Ariannin neu Chile.
- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys; Universidad de Salamanca, Universitat de València, Universidade de Santiago de Compostela, Universitat d'Alacant, Universidade da Coruña, Universidad de Granada, Universidade de Vigo ac Universitat de Girona, Universidad de las Islas Baleares.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

Ymhob achos byddwch hefyd yn dechrau ymchwilio i bwnc eich traethawd hir tra byddwch dramor, a fydd yn cyfrif tuag at eich gradd ym Mangor.

SPANISH WITH ANOTHER SUBJECT
Bydd 40 o'ch 120 credyd bob blwyddyn yn yr is bwnc. Byddwch yn astudio Sbaeneg i'r un graddau o ran cwmpas a nifer y credydau â phe byddech yn astudio gradd Sbaeneg anrhydedd sengl; byddwch yn cymryd llai o opsiynau Sbaeneg yn yr ail flwyddyn ac yn y flwyddyn olaf.

Byw Dramor:
Os nad yw eich pwnc arall yn iaith, byddwch yn mynd i wlad Sbaeneg ei hiaith drwy gydol y drydedd flwyddyn ac mae'r un opsiynau i'w cael ag ar gyfer gradd Sbaeneg anrhydedd sengl. Os mai iaith yw eich pwnc arall, gallwch wneud yr un peth, neu gallwch rannu'r flwyddyn rhwng dwy wlad fel y mae myfyrwyr cydanrhydedd yn ei wneud os ydynt yn astudio dwy iaith (gweler tudalen 234). Os mai dyna'r achos, mae'n debygol y byddwch yn astudio mewn prifysgol yn y ddwy wlad.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ynghyd â dosbarthiadau yn y modiwlau eraill y byddwch wedi eu dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio Ieithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd.
Mae llawer o raddedigion Ieithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.





FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C mewn Ffrangeg)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn Ffrangeg)
- Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn Ffrangeg.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?

FRENCH
Bydd gradd BA (Anrh) yn rhoi sgiliau uwch i chi yn yr iaith Ffrangeg, a byddwch yn datblygu dealltwriaeth arbenigol a manwl o ddiwylliant, cymdeithas a hanes y Ffrainc fodern. Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Mae gradd anrhydedd sengl yn eich galluogi i ddilyn ystod lawn o opsiynau, a fydd yn eich arfogi â gwybodaeth helaeth am dreftadaeth a bywyd y Ffrainc fodern, ac ymwybyddiaeth o'r byd Ffrangeg yn ehangach, ar lefel a fydd yn caniatáu ichi ystyried dilyn astudiaethau ôl-radd.

Cod UCAS y cwrs: R101 BA/F4

FRENCH WITH ANOTHER SUBJECT
Mae'r cyrsiau anrhydedd sengl hyn yn seiliedig ar yr un egwyddorion â Ffrangeg anrhydedd sengl, ond maent yn gadael ichi dreulio cyfran sylweddol o'ch cwrs yn astudio pwnc arall. Ffrangeg yw'r prif bwnc sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'ch gradd, a'r pwnc arall yw'r is bwnc sy'n cyfrif am y traean sy'n weddill.

Isod ceir rhestr o gyrsiau cydanrhydedd sydd wedi eu pwysoli'n gyfartal.

Codau cwrs UCAS:

French w. Business Management	R1N2 BA/FBM
French w. Creative Writing	R1W8 BA/FrCW
French w. Italian	R1R3 BA/Fi4
French w. Journalism	R1P5 BA/FrJO
French w. Marketing	R1N1 BA/FrMkt
French w. Media Studies	R1P3 BA/FrMS
French w. Psychology	R1C8 BA/FPsy
French w. Spanish	R1R4 BA/Fs4
French w. German	R1R2 BA/FRWGER
French w. Chinese	T108 BA/FrCH

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor yn gyson ymhlith yr ysgolion â'r sgôr uchaf yn y maes pwnc hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng y Ffrangeg, ac eraill drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

I gael gwybodaeth am Ffrangeg fel rhan o radd Anrhydedd 3 laith, gweler tudalen 232.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

FRENCH
Yn ogystal ag iaith, mae'r maes llafur Ffrangeg yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous; trwy wneud gradd anrhydedd sengl cewch gyfle i wneud yr ystod lawn o opsiynau, fwy neu lai. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop. Mae opsiynau'r ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig rhagor o gyfle i arbenigo. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol, gyda phwyslais penodol ar y cyfnod modern, agweddau ar hanes Ffrainc, llenyddiaeth Ffrangeg, sinema Ffrengig, a'r cyfryngau.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio mewn gwlad Ffrangeg ei hiaith. Eich prif opsiynau yw:
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion. Fel arfer mae ein myfyrwyr yn llwyddo i gael eu dewis cyntaf o leoliad, naill ai yn Ffrainc neu mewn gwlad arall megis Gwlad Belg neu Canada.
- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys: Université Jean Moulin Lyon 3, Lyon, Ffrainc; Université de Bretagne Occidentale, Brest, Ffrainc; Université Charles-de-Gaulle, Lille 3, Ffrainc; Université de Corse, Corsica, Ffrainc; Université des Antilles, Martinique, Martinique Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys; Université de Lausanne, y Swistir; Université de Perpignan, Via Domita, Perpignan, Ffrainc; Université de Nantes, Nantes, Ffrainc; ISTI, Brwsel, Gwlad Belg.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

Ymhob achos byddwch hefyd yn dechrau ymchwilio i bwnc eich traethawd hir tra byddwch dramor, a fydd yn cyfrif tuag at eich gradd ym Mangor.

FRENCH WITH ANOTHER SUBJECT
Bydd 40 o'ch 120 credyd bob blwyddyn yn yr is bwnc.
Byddwch yn astudio Ffrangeg i'r un graddau o ran cwmpas a nifer y credydau â phe byddech yn astudio gradd Ffrangeg anrhydedd sengl; byddwch yn cymryd llai o opsiynau Sbaeneg yn yr ail flwyddyn ac yn y flwyddyn olaf, wrth i chi fod yn astudio 40 credyd mewn pwnc arall.

Byw Dramor:
Os nad yw eich pwnc arall yn iaith, byddwch yn mynd i wlad Ffrangeg ei hiaith drwy gydol y drydedd flwyddyn ac mae'r un opsiynau i'w cael ag ar gyfer gradd Ffrangeg anrhydedd sengl. Os mai iaith yw eich pwnc arall, gallwch wneud yr un peth, neu gallwch rannu'r flwyddyn rhwng dwy wlad fel y mae myfyrwyr cydanrhydedd yn ei wneud os ydynt yn astudio dwy iaith (gweler tudalen 234). Os mai dyna'r achos, mae'n debygol y byddwch yn astudio mewn prifysgol yn y ddwy wlad.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ynghyd â dosbarthiadau yn y modiwlau eraill y byddwch wedi eu dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.



"Roedd blwyddyn dramor yn rhan o fy nghwrs, ac felly yn ystod y drydedd flwyddyn fe dreuliais semester yn Llydaw a semester yn Galisia yn Sbaen. Roedd yn brofiad anhygoel cael byw bywyd bob dydd mewn dau ddiwylliant gwahanol, a dwi'n teimlo bod fy Ffrangeg a fy Sbaeneg wedi gwella llawer tra oeddwn i yno.

Yn ystod fy ail flwyddyn, roeddwn yn Llysgennad Iaith ac yn ymweld ag ysgolion uwchradd i siarad â disgyblion blwyddyn 9, er mwyn ceisio eu hannog i barhau i astudio iaith fodern fel TGAU. Roedd hynny yn brofiad gwerthfawr iawn..."

Elin Wallace
Cyn-fyfyriwr BA French & Spanish

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C mewn Almaeneg)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn Almaeneg)
- Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo **
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn Almaeneg.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?

GERMAN
Bydd gradd BA (Anrh) yn rhoi sgiliau uwch i chi yn yr iaith Almaeneg, a byddwch yn datblygu dealltwriaeth arbenigol a manwl o ddiwylliant, cymdeithas a hanes gwledydd Almaeneg eu hiaith.

Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Bydd y cwrs anrhydedd sengl hwn yn rhoi gwybodaeth helaeth i chi am dreftadaeth a diwylliant yr Almaen fodern. Byddwch hefyd yn cael y fantais ychwanegol o astudio Iseldireg yn eich ail flwyddyn sy'n agor gorwelion pellach yn Ewrop.

Cod UCAS y cwrs: R200 BA/Ger

GERMAN WITH ANOTHER SUBJECT
Mae'r cyrsiau anrhydedd sengl hyn yn seiliedig ar yr un egwyddorion ag Almaeneg anrhydedd sengl, ond maent yn gadael ichi dreulio cyfran sylweddol o'ch cwrs yn astudio pwnc arall. Almaeneg yw'r prif bwnc sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'ch gradd, a'r pwnc arall yw'r is bwnc sy'n cyfrif am y traean sy'n weddill.

Isod ceir rhestr o gyrsiau cydanrhydedd sydd wedi eu pwysoli'n gyfartal.

Codau cwrs UCAS:

German w. Business Management	R2N2 BA/GBM
German w. Creative Writing	R2W8 BA/GerCW
German w. Italian	R2R3 BA/Gi4
German w. Journalism	R2P5 BA/GJO
German w. Marketing	R2N1 BA/GerMkt
German w. Media Studies	R2P4 BA/GMST
German w. Psychology	R2C8 BA/GPsy
German w. Spanish	R2R4 BA/Gs4
German w. French	R2R1 BA/GerWFr
German w. Chinese	T109 BA/Gch

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor yn gyson yn cael canlyniadau rhagorol yn y maes pwnc hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng Almaeneg, ac eraill drwy gyfrwng y Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

I gael gwybodaeth am Almaeneg fel rhan o radd Anrhydedd 3 Iaith, gweler tudalen 232.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

GERMAN
Yn ogystal â'r modiwlau iaith craidd, mae'r maes llafur Almaeneg yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous; gall myfyrwyr anrhydedd sengl astudio ystod lawn ohonynt. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop. Mae opsiynau'r ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig rhagor o gyfle i arbenigo. Mae'r pynciau'n ymdrin ag ystod o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol ac yn adlewyrchu arbenigeddau ymchwil staff. Mae'r maes llafur cyfredol yn cynnwys modiwlau sy'n edrych ar ffilmiau Almaeneg, hunaniaeth genedlaethol yr Almaen, hanes Dwyrain yr Almaen.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio mewn gwlad Almaeneg ei hiaith. Eich opsiynau yw:
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion. Fel arfer mae ein myfyrwyr yn llwyddo i gael eu dewis cyntaf o leoliad, naill ai yn yr Almaen neu yn Awstria.
- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys; Berlin (Humboldt), Heidelberg; Leipzig, Passau, Bayreuth, Tübingen, Mainz a Jena yn yr Almaen; Innsbruck a Fienna yn Awstria.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

Ymhob achos byddwch hefyd yn dechrau ymchwilio i bwnc eich traethawd hir tra byddwch dramor, a fydd yn cyfrif tuag at eich gradd ym Mangor.

GERMAN WITH ANOTHER SUBJECT
Bydd 40 o'ch 120 credyd bob blwyddyn yn yr is bwnc.
Byddwch yn astudio Almaeneg i'r un graddau o ran cwmpas a nifer y credydau â phe byddech yn astudio gradd Almaeneg anrhydedd sengl; byddwch yn cymryd llai o opsiynau Almaeneg yn yr ail flwyddyn ac yn y flwyddyn olaf, wrth i chi fod yn astudio 40 credyd mewn pwnc arall.

Byw Dramor:
Os nad yw eich pwnc arall yn iaith, byddwch yn mynd i wlad Almaeneg ei hiaith drwy gydol y drydedd flwyddyn ac mae'r un opsiynau i'w cael ag ar gyfer gradd Almaeneg anrhydedd sengl. Os mai iaith yw eich pwnc arall, gallwch wneud yr un peth, neu gallwch rannu'r flwyddyn rhwng dwy wlad fel y mae myfyrwyr cydanrhydedd yn ei wneud os ydynt yn astudio dwy iaith (gweler tudalen 234). Os mai dyna'r achos, mae'n debygol y byddwch yn astudio mewn prifysgol yn y ddwy wlad.


SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ynghyd â dosbarthiadau yn y modiwlau eraill y byddwch wedi eu dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.





FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C mewn iaith berthnasol. Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn iaith berthnasol)
- Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn iaith berthnasol. Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Gellir astudio Eidaleg ar lefel cydanrhydedd mewn cyfuniad ag iaith arall neu amrywiaeth o bynciau eraill, gan astudio'r un faint o'r ddau bwnc (gweler isod am restr o'r cyfuniadau sydd ar gael a'u codau UCAS). Bydd y cyrsiau hyn yn rhoi sgiliau uwch i chi mewn Eidaleg a byddwch yn datblygu deralltwriaeth arbenigol a manwl o ddiwylliant, cymdeithas a hanes yr Eidal fodern, gyfoes. Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen.

Codau cwrs UCAS:
Italian and:

Accounting	NR43 BA/Alt
Banking	NR33 BA/Blt
Business Management	N2RJ BA/BMI
Criminology and Criminal Justice	MR93 BA/CrIt
Economics	LR13 BA/EcIt
English Language	QR3H BA/ELIt
English Literature	09V3 BA/ELI
Film Studies	P0R3 BA/FSI
French	RR13 BA/FI
German	RR23 BA/GI
History	RV31 BA/HIt
Linguistics	QR13 BA/ItL
Marketing	NR53 BA/MktItal
Music	WR33 BA/Mult
Philosophy and Religion	VVR3 BA/PRI
Spanish	RR43 BA/SI
Sport Science	CR6H BA/ItSSc
Cymraeg	QR53 BA/ItCy

I gael gwybodaeth am Eidaleg fel rhan o radd Anrhydedd 3 laith, gweler tudalen 232.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor yn gyson yn cael canlyniadau rhagorol yn y maes pwnc hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu trwy gyfrwng Eidaleg, eraill trwy gyfrwng iaith fodern arall yn dibynnu ar eich dewis o gyfuniad pwnc, ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yn ogystal â'r iaith mae'r maes llafur yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop. Mae opsiynau'r ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig rhagor o gyfle i arbenigo. Mae'r maes llafur cyfredol yn cynnwys modiwlau ar hanes a diwylliant modern yr Eidal, sinema gyfoes yr Eidal a chynrychiolaeth a realiti'r maffia yn yr Eidal.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio naill ai'n gyfan gwbl yn yr Eidal neu, os ydych yn astudio dwy iaith, yn yr Eidal ac mewn gwlad lle siaredir yr iaith arall. Eich prif opsiynau yw:
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion.
- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys; Università di Udine (Gorizia), Università di Trieste, Università di Milano La Cattolica, IULM (Milano), Università di Torino, Università di Bologna, Università di Firenze, Università di Cagliari (Sardinia), Università di Perugia.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

Ymhob achos byddwch hefyd yn dechrau ymchwilio i bwnc eich traethawd hir tra byddwch dramor, a fydd yn cyfrif tuag at eich gradd ym Mangor.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ynghyd â dosbarthiadau yn y modiwlau eraill y byddwch wedi eu dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion leithoedd Modern Bangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfleithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, busnes a masnach, diwydiant a'r cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
Dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Yn achos Tsieinëeg ac iaith arall -yn cynnwys gradd C neu uwch mewn Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg neu iaith berthnasol (gradd B Cymraeg ar gyfer Tsieinëeg a Chymraeg). Ar gyfer Tsieinëeg a phwnc arall nad yw'n iaith - mae iaith yn ddymunol ond nid yn ofynnol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (ar gyfer Tsieinëeg ac iaith arall - yn cynnwys gradd H5 mewn Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg neu iaith berthnasol; yn achos Tsieinëeg a phwnc arall nad yw'n iaith - mae iaith yn ddymunol ond nid yn ofynnol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Yn achos Tsieinëeg a phwnc arall nad yw'n iaith a Tsieinëeg a Chymraeg - dylai fod gan ymgeiswyr ddiddordeb amlwg mewn Tsieinëeg.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg neu iaith berthnasol.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Gellir astudio Tsieinëeg ar lefel gydanrhydedd mewn cyfuniad ag iaith arall neu amrywiaeth o bynciau eraill, gan astudio'r un faint o'r ddau bwnc (gweler isod am restr o'r cyfuniadau sydd ar gael a'u codau UCAS). Bydd y cyrsiau hyn yn rhoi sgiliau uwch i chi yn yr iaith Mandarin a byddwch yn datblygu deralltwriaeth arbenigol a manwl o ddiwylliant, cymdeithas a hanes Tsieina. Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen.

Codau cwrs UCAS:
Chinese and:

Linguistics	T101
Cymraeg	T102
Creative Studies	T103
English Language	T123
English Literature	T124
Film Studies	T125
French	T104
German	T105
Italian	T106
Spanish	T107

I gael gwybodaeth am raddau Tsieinëeg a phynciau sy'n gysylltiedig â busnes, gweler tudalen 63-64.

Gellir astudio Tsieinëeg hefyd gyda Phwnc Arall, pan mai'r pwnc arall yw'r prif bwnc (dwy ran o dair o'ch gradd), a phan mai Tsieinëeg yw'r is bwnc (y traean sy'n weddill).

French with Chinese	T108 (page 228)
German with Chinese	T109 (page 228)
Spanish with Chinese	T110 (page 230)

I gael gwybodaeth am Tsieinëeg fel rhan o radd Anrhydedd 3 laith, gweler tudalen 232.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor yn gyson yn cael canlyniadau rhagorol yn y maes pwnc hwn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda Sefydliad Confucius Prifysgol Bangor er mwyn cynnal digwyddiadau cyffrous sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant Tsieina.
- Mae gan raddedigion leithoedd Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yn ogystal â'r iaith mae'r maes llafur yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i astudiaethau Tsieineaidd. Mae opsiynau'r ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig rhagor o gyfle i arbenigo. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol, hanesyddol a llenyddol o amrywiol ganrifoedd a fydd yn eich galluogi i ddeall Tsieina fodern a sut y datblygodd Tsieina i fod y wlad ydy hi heddiw.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio'n gyfan gwbl yn Tsieina, neu, os ydych yn astudio dwy iaith, yn Tsieina ac mewn gwlad lle siaredir yr iaith arall. Bydd eich amser yn Tsieina yn cynnwys lleoliad mewn prifysgol o'r radd flaenaf, gan gynnwys opsiynau mewn sefydliadau yn Beijing a Shanghai.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ymhob un o'r ieithoedd yr ydych wedi'u dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion leithoedd Modern Bangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfleithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, busnes a masnach, diwydiant a'r cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf.
Hyd: 4 blynedd
Sylwch na ddylai unrhyw un o'r ieithoedd yr ydych yn eu dewis fod yn famiaith i chi.

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn iaith berthnasol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H6 mewn iaith berthnasol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ystyried ar y cyd â gradd B mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn iaith berthnasol.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r cyrsiau hyn wedi'u llunio i fyfyrwyr sydd am feithrin lefel uchel o arbenigedd mewn tair iaith ac eithrio eu mamiaith. Maent yn darparu ar gyfer rhai y mae'n well ganddynt ganolbwyntio'n llwyr ar ddysgu iaith. Bwriedir iddynt apelio at bobl o wahanol wledydd yn y byd, yn dod i gydweithio mewn cymdeithas ddysg amlieithog. Gyda sgiliau iaith pedairieithog, bydd graddedigion y cyrsiau hyn wedi'u paratoi i lwyddo yn y proffesiwn a ddewisant ar bob cyfandir. Rydych yn dewis tair iaith o blith Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg neu Tsieinëeg, gyda'r amod na chewch astudio eich mamiaith/iaith gyntaf.

Gellwch ddewis astudio eich tair iaith mewn dau fformat:
- tair iaith i lefel prif bwnc, neu
- dwy iaith i lefel prif bwnc ac un i lefel is bwnc.

O fewn y ddau fformat uchod, mae'r testun canlynol yn dangos sut mae'r strwythur yn wahanol yn dibynnu ar y fformat.

CODAU UCAS A FFORMAT Y CWRS

3 IAITH I LEFEL PRIF BWNC

French+German+Spanish	R912 BA/FGS4
French+German+Italian	R916 BA/FGI4
French+Italian+Spanish	R917 BA/FIS4
German+Italian+Spanish	R925 BA/GIS4

Fformat y cwrs:
- Astudir y tair iaith trwy gydol pedair blynedd y cwrs, ac mae'r ffocws yn gyfan gwbl ar iaith ymarferol
- Treulir tri semester mewn prifysgolion y tu allan i'r Deyrnas Unedig, pob un mewn gwlad lle siaredir un o'r ieithoedd a astudir.
- Ceir ffrydiau gwahanol ar gyfer newydd-ddyfodiaid sydd eisoes â rhywfaint o wybodaeth a dechreuwyr / dechreuwyr uwch ym mlwyddyn 1
- Cyrhaeddir lefel anrhydedd lawn yn y tair iaith erbyn diwedd blwyddyn 4

2 BRIF BWNC AC 1 IS BWNC:

French+German w. Italian	R901 BA/FGi4
French+German w. Spanish	R913 BA/FGs4
French+Italian w. German	R918 BA/FIg4
French+Italian w. Spanish	R919 BA/FIs4
French+Spanish w. German	R914 BA/FSg4
French+Spanish w. Italian	R915 BA/FSi4
German+Italian w. French	R921 BA/GIf4
German+Italian w. Spanish	R924 BA/GIs4
German+Spanish w. French	R922 BA/GSf4
German+Spanish w. Italian	R923 BA/GSi4
Italian+Spanish w. French	R926 BA/ISf4
Italian+Spanish w. German	R927 BA/ISg4
Chinese+French w. German	T111 BA/ChFG
Chinese+French w. Italian	T112 BA/CHFI
Chinese+French w. Spanish	T113 BA/CHFS
Chinese+German w. French	T114 BA/CHGF
Chinese+German w. Italian	T115 BA/CHGI
Chinese+German w. Spanish	T116 BA/CHGS
Chinese+Italian w. French	T117 BA/CHIF
Chinese+Italian w. German	T118 BA/CHIG
Chinese+Italian w. Spanish	T119 BA/CHIS
Chinese+Spanish w. French	T120 BA/CHSF
Chinese+Spanish w. German	T121 BA/CHSG
Chinese+Spanish w. Italian	T122 BA/CHSI

Fformat y cwrs:
- Astudir y tair iaith trwy gydol pedair blynedd y cwrs, ac mae'r ffocws yn gyfan gwbl ar iaith ymarferol
- Treulir dau semester mewn prifysgolion y tu allan i'r Deyrnas Unedig, pob un mewn gwlad lle siaredir un o'r ieithoedd a astudir.
- Ceir ffrydiau gwahanol ar gyfer newydd-ddyfodiaid sydd eisoes â rhywfaint o wybodaeth a dechreuwyr / dechreuwyr uwch ym mlwyddyn 1
- Diwedd blwyddyn 4: safon anrhydedd lawn ym mhob maes sgiliau ar gyfer y prif ieithoedd; mewn sgiliau ysgrifenedig ar gyfer yr is iaith

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Bangor yn cael canlyniadau rhagorol yn gyson am foddhad myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Arloesodd Bangor gyda'r rhaglen Gradd mewn Tair Iaith.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng Ffrangeg/ Almaeneg/Tsieinëeg/Sbaeneg/ Eidaleg, ac eraill drwy gyfrwng y Saesneg.
- Bydd myfyrwyr sy'n astudio tair iaith i lefel prif bwnc yn treulio tri semester dramor mewn tair gwlad wahanol
- Mae gan raddedigion Ieithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yr un strwythur sydd i bob cwrs yn y flwyddyn gyntaf.

Blwyddyn 1 (ym Mangor)
- 40 credyd mewn sgiliau ysgrifenedig, clywedol a llafar ym mhob un o'ch tair iaith, gan ddechrau ar lefel sy'n briodol i'ch gwybodaeth ym mhob un
- Cyrsiau carlam mewn iaith (ieithoedd) nad oes gennych lawer o wybodaeth amdanynt, os o gwbl
- Cyrsiau cadarnhau ac ymestyn mewn ieithoedd y mae gennych Lefel A neu gymhwyster cyfwerth ynddynt

Blwyddyn 2
Yr un strwythur sydd i bob cwrs yn semester un yn yr ail flwyddyn.

Semester Un (ym Mangor)
- 20 credyd mewn sgiliau ysgrifenedig, clywedol a llafar ym mhob un o'ch tair iaith

O'r pwynt hwn mae'r cyrsiau'n dilyn fformat gwahanol.

3 IAITH I LEFEL PRIF BWNC

Blwyddyn 2

Semester Dau
(mewn prifysgol yng ngwlad rhif 1)
- Project yn iaith gwlad Rhif 1
- Dosbarthiadau/ymarferion ym mhob un o'r 3 iaith

Blwyddyn 3

Semester Un
(mewn prifysgol yng ngwlad rhif 2)
- Project yn iaith gwlad Rhif 2
- Dosbarthiadau/ymarferion ym mhob un o'r 3 iaith

Semester Dau
(mewn prifysgol yng ngwlad rhif 3)
- Project yn iaith gwlad Rhif 3
- Dosbarthiadau/ymarferion ym mhob un o'r 3 iaith

Blwyddyn 4 (ym Mangor)
- 40 credyd mewn sgiliau ysgrifenedig, llafar a chlywedol ym mhob un o'ch 3 iaith, gyda dosbarthiadau/ymarferion mewn ysgrifennu estynedig; dadansoddi testun, fideo a chlywedol; cyfieithu; mynegiant llafar ffurfiol ac anffurfiol

2 BRIF BWNC AC 1 IS BWNC:

Blwyddyn 2

Semester Dau
(ym Mangor)
- 20 credyd mewn sgiliau ysgrifenedig, clywedol a llafar ym mhob un o'r 3 iaith

Blwyddyn 3

Semester Un
(mewn prifysgol yng ngwlad prif pwnc rhif 1)
- Project ym mhrif iaith rhif 1
- Dosbarthiadau/ymarferion ym mhob un o'r 3 iaith

Semester Dau
(mewn prifysgol yng ngwlad prif pwnc rhif 2)
- Project ym mhrif iaith rhif 2
- Dosbarthiadau/ymarferion ym mhob un o'r 3 iaith

Blwyddyn 4 (ym Mangor)
- 40 credyd mewn sgiliau ysgrifenedig, llafar a chlywedol ym mhob un o'ch prif ieithoedd, gyda dosbarthiadau mewn ysgrifennu estynedig; dadansoddi testun, fideo a chlywedol; cyfieithu; mynegiant llafar ffurfiol ac anffurfiol
- 20 credyd mewn sgiliau ysgrifenedig/llafar yn yr is iaith

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ymhob un o'r ieithoedd yr ydych wedi'u dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau project estynedig fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e..:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C neu uwch mewn iaith berthnasol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn iaith berthnasol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn iaith berthnasol.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Bydd y cyrsiau cydanrhydedd hyn yn eich galluogi i astudio dwy iaith yn gyfartal. Byddant yn rhoi sgiliau uwch i chi yn y ddwy iaith, ac amrywiaeth eang o drosolwg arbenigol a manwl i ddiwylliant, cymdeithas a hanes y gwledydd y siaredir yr ieithoedd hyn. Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Gallwch astudio un o'r ieithoedd o lefel dechreuwr. Rhestr yw'r hyn sy'n dilyn o'r cyfuniadau sydd ar gael.

Codau cwrs UCAS:

German and French	RR12 BA/G4F
French and Italian	RR13 BA/FI
French and Spanish	RR14 BA/FS
German and Italian	RR23 BA/GI
German and Spanish	RR24 BA/GS
Spanish and Italian	RR43 BA/SI
Chinese and French	T104 BA/CHFr
Chinese and German	T105 BA/CHG
Chinese and Italian	T106 BA/CHIt
Chinese and Spanish	T107 BA/CHSp

Cyfeiriwch at y tudalennau sy'n rhoi sylw i ieithoedd penodol yn gynharach yn yr adran hon i gael rhagor o fanylion.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Bangor yn cael canlyniadau rhagorol yn gyson am foddhad myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng Ffrangeg/ Almaeneg/Sbaeneg/Eidaleg/ Tsieinëeg, ac eraill drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau ein graddau yn hyblyg.
- Gallwch newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yn ogystal â'r ddwy iaith, mae'r maes llafur yn cynnwys amrywiaeth eang o opsiynau cyffrous ar gyfer pob un o'ch pynciau. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop a/ neu Tsieina. Mae'r dewisiadau yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig lefelau cynyddol o arbenigo wrth i chi gwblhau eich gradd. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol o wahanol ganrifoedd ond gyda phwyslais ar y cyfnod modern. Mae pob un o'r ieithoedd yn cynnig modiwlau ar hanes, sinema a chyfryngau eu maes ieithyddol.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio dramor. Eich prif opsiynau yw:

- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni mewn gwledydd lle siaredir yr ieithoedd rydych yn eu hastudio (gweler y tudalennau sy'n manylu ar yr ieithoedd penodol hynny am restrau o'r sefydliadau partner yn y gwahanol wledydd).
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion mewn gwlad lle siaredir un o'r ieithoedd yr ydych chi'n eu hastudio ac o leiaf gwrs haf mewn gwlad lle siaredir yr iaith arall.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
